



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines


Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>




~~152. f. 43.~~


~~152. a. 18~~



1879

C 41032.37





... ..
ed. H. Roberts.

Gwaith Barddonawl

Y DIWEDDAR

BARCH. JOHN JONES, M.A.

Tegid,

GYNT YN BRIFGANTAWR CHRIST CHURCH RHYDYCHAIN, A CHURAD
PARHAUS ST. THOMAS YN Y DREF HONO; GWEDI HYN
YN BERIGLAWR NANHYFER, SWYDD BENFRO, A
PREBENDUR EGLWYS GADEIRIOL
TY DEWI: YNGHYD A

Hymnograffiad o'r Andur:

DAN OLYGIAD

Y PARCH. HENRY ROBERTS, M.A.

CHRIST CHURCH, RHYDYCHAIN,
A CHURAD LLANGYNDEYRN, SWYDD GAERFYRDDIN.

LLANYMDDYFRI,

W. REES; LLUNDAIN, LONGMAN A'I GYF.

MDCCLXIX.

112



IDD Y GWIR ANRHYDEDDUS

YR ARLWYDDES LLANOVER.

Y CYFLWYNIÉ


Gwaith Barddonawl Tegid,

GYDA PHARCH DIFFUANT

TUAG AT EI HARGLWYDDIAETH,

GAN EI HUFYDDAF WAS,

Y GOLYGYDD.




RHAGY MADRODD.

CYFLAWN WYD hyd ag y gellid gan Olygydd y Cyfrol hwn, beth ydoedd dymuniad yr Awdur ei hun gwblhâu yn yspaid ei fywyd. Bwriadai aml waith gasglu ynghyd a chyhoeddi ei gyfansoddiadau Awenyddol ; eithr er mynych sôn am anrhegu ei gyd wladwyr â hwynt, ni wnaeth efe hyd ddydd ei farwolaeth, ond ychydig ddarpariad ar gyfer hyny. A chan na fu erioed yn ofalus i wneuthur adysgrif o'i waith, mae llawer yn ddiarheu wedi myned ar goll, a llawer hwyrach wedi ei argraffu yn unig yn nghof amrai o'i gyfeillion a'i gydnabyddion.

Dymuna y Golygydd hysbysu gyda diolchgarwch ei rwymedigaeth i'r Parch. J. Williams Ab Ithel, M.A. Periglor Llanymowddwy, yr hwn a ychwanegodd at ei amryw orchwylion er budd ei genedl, y llafur-waith caredig o fanwl ddarllen a diwygio prawf-leni y GWAITH BARDDONAWL oll, fel y daethent allan o'r Wasg.

Alban Hefin, 1859.



CYNNWYSIAD.

AWDLAU.

Dynstr y Derwyddon yn Mon	3
Iob	29
Cerddoriaeth	50
Coffawdwriaeth Gomer	59
Trafnidiaeth	66
Hiraeth Cymro am ei wlad	71
I'r Gymdeithas Frytanaidd a Thramor	74

ENGLYNION.

I Eisteddfod Caerdydd	76
Llyn Tegid	77
Priodas y Frenhines	79
Albert Tywysawg Cymru	81
Griffith ab Nicholas	82
Gwenynen Gwent	83
Ymweliad Tegid & Daniel Ddu	84
Cyfarchiad y Beirdd	85
Yr Iforiaid	85
I Joshua Walmaley, Ysw.	86
I Waith Dafydd Ionawr	87
I Dafydd ab Ioan	87
Llwyddiant Coleg Iesu	88
Y Cadeiriau Esmwyth	99
Ffynon Ofor	90

Y Buelin	91
Ffynon Aberpergwm	91
Arall	92
Cyfarchiad y Beirdd	92
I John Hughes, Ysw.	92
Menyw a laddodd ei Maban	93
Telyn Ann	93
Buddugoliaeth ar ddiwedd dadl	93
Bardd Nantglyn	94
Gwawr Foreu	94
Bedd Dafydd Ionawr	94
Ar weled Gafr	94
I Feddwyn	95
Y Trewlwech	95
I D. R. Rees, Yaw.	95
I Anerch Ab Ithel	95
I Fab Ab Ithel	96
Crib Pais Cymru	96
Teithi Gafr	96
I Enllibwr	96
Atebiad i Archddeon Môn	97
I Gaerfallwch	97
Buwch Arian	97
Teithi y Gareg Gallestr	97
Henaint	98
Dynion Meddwon	98
Adferiad y Delyn	98
I osawd ar fainc gareg o dan dderwen	98
I Drwynlwech Llanerchymedd	99
Englyn y Cymmod	99

CYWYDDAU.

Y Cymmod, gan Daniel Ddu	100
Atebiad	101
I " Gywyddau y Cymmod "	102
Diolch i Ioan Cunllo	104
Morwynion Glân Meirionydd	105
Marwolaeth y Dywysoges Siarlot	108

CYNNWYSIAD.

ix

I Dafydd Lewis, Ysw.	110
Galar y Bardd	111
Brwydr Waterlw	113
Y Diffyn	120
Hu Gadarn	121
Priodasgerdd	132
Ardeb fy Mam	132
I'r Parchedig Gwallter Mechain	133
I'r Parch. W. Jones	134
Achau	134

MARWNADAU.

Yr Arglwyddes Coffin Greenley	135
Idrison	138
Ifor Ceri	145
Mab Brutus	150
Morwr	152
Robert Wiliam	154

AMRYWIAETHAU.

Gwlad fy Ngenedigaeth	156
Ateb Tegid	161
Ymladd Cressi	165
Albert Tywysawg Cymru	168
Susgan Albert Tywysawg Cymru	169
Bardd Nanhyfer	171
Y Gog	174
Amser	176
Y Bedd	177
Y Cynhanaf	178
Yr Iaith Gymraeg	179
Dynstr Senacherib	182
Cymreigyddion Llundain	183
Y Telynwyr Ieuanc	184

Y Lleuad	185
Y Tair Nwyd, &c.	185
Llyn Tegid	186
Ymweliad y Bardd	188
Ymddyddanion fy Mam	189
Merch Iouanc yn y Darfodedigaeth	191
Arall	192
Cân i gariad	193
Fy nghariad	194
Hiraeth y Bardd	195
Gofyniad y Bardd	196
Ateb Elen	197
Hiraeth-gan	198
Y Ferch o'r Ddol	199
Ci Deon Bangor	200
Y Golomen a'r Teithiwr	200
Y Sabboth	201
Y Gwir	201
I Daniel Las	201
Yr Awen drist	202
Carn Ingli a Thegid	203
Anerchiad i'r Arglwyddes Hall	203
Y Brawd Caredig	204
Cyfleithadau	205
Boreu Mis Ebrill	205
Cân o Ddiolchgarwch	206
Cân dros un mewn cariad	207
Y Gwladgarwr a'r Milwr	207
Mary Bowen	208
Ateb Mary Bowen	208
Ar Farwolaeth Mam Lewis Williams	209
Dyhuddiant W. B. Gwynne, Pŵlhoth	210
Geirlyfr y Parch. Morris Williams	210
I Ann	211
Siomedigaeth un mewn cariad	211
Glan y Cafn	212
Gwaith Plwm Llanfyrnach	213
Daniel Ddu	215

CYNNWYSIAD.

xi

Myfyrdawd Plentyn	216
Clychau yr Eglwys	217
Cariad Duw	217
Y Ferch dlawd dduwiawl, &c.	219
Plant	220
Y Golwg Cyntaf	220
Mab Ffynon Drudion	221
I, U, Y	222
Pennill i blant Sir J. Guest	222
Fy Nghariad	222
Cymdeithas Cyweirdeb Aberbanc	223
Tregwynt	224
Cymmeradwyaeth Nodweddiad	224
Yr Ywen	225
Martha Owen	226

BEDD-ARGRAFFIADAU.

Danigl Ddu	228
Dr. Richard Davies, Esgob Tŷ Dewi	228
Telynwawr duwiol o Llanovor	228
Hen Gymro Hael	229
Mr. W. Bowen	229
Le Gonidec	229
Arall	231
Hanbury S. Hall, Ysw.	230
Y Parchedig Enoch Thomas	231
Diwedd pawb	231
Un a fu farw yn ddisyfyd	231
Bedd-argraff	232
Tair Chwaer	232
Jane Thomas	233

EMYNAU.

Bugeiliaid Bethlehem	234
Bethlehem	235
Dydd Nadolig	235
Mawl	236
Dydd Gwener y Croglith	236

Arall	237
Dydd y Pasg	238
Arall	237
Yr Efanglyydd	238
Eacyniad Crist	239
Y Prynwr	239
Prynedigaeth	239
Yr Archoffeiriad	240
Gweddi	240
Lledaeniad yr Efengyl	241
Arall	241
Yr Efengyl	241
Y Babell Bridd	242
Arall	242
Gweddi am adferiad heddwch, &c.	243
Y Pechadur	243
Emyn Luther	244
Mawl i Dduw	245
Daioni Duw	246
Y Duwdod	246
Plant yr Ygol	247
Lledaeniad yr Efengyl	247
Yr Emyn	249
Angeu a Thragwyddoldeb	249
Amser	251
Angeu	251
Dydd y Farn Fawr	252
Y Wlad Bell	253

BYWGRAFFIAD YR AWDUR.

YMHLLITH rhai teilwng o goffadwriaeth yn nghofrestr ENWOGION CYMRU, o herwydd eu dysg a'u doniau, mae Awdur y Cyfrol hwn yn haeddu lle parchus megys un a adwaenid fel Bardd ac fel Ysgolhaig ar hyd a lled gwlad ei enedigaeth, yn well hwyrach no neb arall o'i gyfoedion.

Yn y bywgraffiad canlynol nid ydys yn bwriadu rhoddi ond byr gofiant am dano. Er mae dyfyr yn ddiâu a buddiol fyddai y gorchwyl, anhawdd ydyw rhoddi hanes cyflawn o'i fywyd yn gymmaint ag na adawodd y cyfryw olion angenrheidiol a alluogai yr ysgrifenydd i ymhelaethu llawer ar y pwnc.

Ganwyd yr Awdur ar y 10fed o Chwefror, 1792, yn y Bala, ger "Môr mawr Meirion," o'r hwn lyn y cymmerodd ei enw barddonol TEGID. Enwau ei rieni oeddent HENRY a CATHERINE JONES,* ac efe ydoedd eu hail fab.

Danfonwyd ef i amryw ysgolion pan yn ieuanc iawn, ond ni chafodd fawr o addysg oddi wrth ei Athrawon, oddieithr mewn rhifyddiaeth, nes myned yn 1812 i ysgol y Parch. D. PETER yn Nghaerfyrddin, lle y dechreuodd ddysgu Lladin a Groeg. Y flwyddyn ganlynol symudwyd ef i Ysgol y Parch. Thomas Price yn yr un dref. Bu yno ddeunaw mis, ac yn a dychwelodd i'r Bala.

Gwedi bod mewn amryw ysgolion, derbyniwyd ef ar y 13eg o Ragfyr, 1814, yn aelod o Goleg Iesu, Rhydychain.

* Gwel ardeb fy Mam, t. d. 132.

Penaeth y Coleg y pryd hwnw ydoedd y Dr. D. Hughes, gwr o Lanrwst, yr hwn a fu yn noddwr iddo oblegid ei wybodaeth o'r Gymraeg, a'i fawr gariad at yr iaith hono a'i hynafiaethau. Yn llyfrgell y Coleg mae amrai hen lawysgrifau Cymreig, megys y Llyfr Coch o Hergest, a. r. c., a thra bu yno yr oedd yn cael dywenydd neillduol wrth eu darllen a gwneuthur adysgrif o honynt. Yno hefyd y dechreuodd y cyfeillach gwresog, a hanfododd cyd-rhyngddo â DANIEL DDU o Geredigion, tra fu y Bardd doniol hwnw byw, oddieithr un anghydfod † llym, ond o fyr barhad, "canys hawdd cymmod lle bo cariad."

Yn fuan gwedi myned o hono i Rydychain, ysgrifennai fel hyn at gyfaill yn Nghymru :—" Yr ydwyf yn bresenawl yn nghanol dysgedigion y byd, lle y mae ffynon dysgeidiaeth yn chwyddaw ac yn dylifaw dros y ceulanydd ; ac yr ydwyf finnau yn dechreu teimlaw y dwfr yn chwareu ac yn bwrlymu amgylch ogyrch fy nhraed." "A gaf fi," meddai dro arall, "gamddefnyddiau y perwyl presenawl? Na ato Duw ! ond yn hytrach drwy i mi gael fy nghosod fel hyn, bydded i mi gaffael rhyw wybodaeth fuddiawl a llesawl." Pryd arall dywedai :—" Yr wyf yn foddlaw'n i roddi fy hunan yn gwbl oll i DDUW i wneud a welo EFE yn dda â myfi.....Gan iddo weled yn dda i'm dwyn i'r lle dysgedig hwn, bydded i'w nawdd i'm dilyn ar fy holl lafur, canys ni thycia dim heb ei fendith EF.....Da iawn genyf adgoffâu yn fy meddwl, y cynghor a roddes y Parch. D. HUGHES, Periglor LLANFYLLEN, 'Cais y doethineb sydd oddi uchod. Pan gerddech, hi a'th arweina ; pan gysgech, hi a'th wylia ; pan deffroech, hi a ymddyddan â thi.'" Parodd y cynghor hwn iddo gyfan-soddi y pennillion hyn ar "Ddoethineb."

O ARGLWYDD DDUW tragwyddawl,
Creawdwr nef a llawr!
A Rhoddwr pob daioni
Rho glust i mi yn awr.

† Gwel Englyn y Cymmod, a Chwyddau y Cymmod, t. d. 100.

'Rwy 'n gofyn o fy nghalon
Am y ddoethineb hon,
Fel gallwyf gael rhyw gysur
Wrth rodio 'r ddaiar groun.

O AERGLWYDD! dod ddoethineb
A deall gyda hi,
Fel gallwyf fod o ddefnydd
O fewn dy Eglwys Di.
O'm cwmpas mae teganau
Fil myrdd i ddenu 'm mryd :
Am hynny dod ddoethineb
Tra byddwyf yn y byd.

Pan ddygwydd i mi gerdded
Boed hon i'm harwain i ;
Pan gysgwylf yn y cyfnos
I'm gwylid bydded hi :
Pan ddeffrwyf yn y bore
Yn dawel gyda'r wawr,
Doethineb bydded yno
I 'mddyddan lawer awr.

Wrth ddarllen ac astudiaw,
Doethineb dod fy Nuw
Er mwyn i'm brynu 'r amser,
Doethineb i mi fyw ;
Fel gallwyf fi dy ofni
A'th barchu yn y byd.
Doethineb yn fy meddiant
I'm tywys i o hyd.

Gwedi treulio yr amser arferol yn y Coleg, cafodd ei restru yn yr ail ddosparth yn Mesuroniaseth, (*Mathematics*,) yn Nherm Gwyl Mihangel, 1818, a chymmerodd y radd o B.A.

Y flwyddyn ganlynawl anrhegwyd ef â Chaplaniaeth, yn *Christ Church* gan y Dr. HALL, Dëon y lle y pryd hwnw, ac urddwyd ef gan y Dr. LEGGE, Esgob Rhydychain, yn Ddiacon ar Sul y Drindod, ac yn Offeiriad ar y 19eg o Ragfyr, 1819.

Yn haf y flwyddyn hon bwriadai fyned i'r India Ddwyreiniol, fel Athraw yng Ngholeg newydd Calcutta. Pan wybu DANIEL DDU am y bwriad hwn o eiddo ei frawd awenyddol, cyfansoddodd bennillion * er ei ddenu i beidio ag ymadael â "Gwlad ei Enedigaeth," gan ei ddarlunio fel yn cwynfan yn y fro bellenig hono. Yr oedd rhesymau y BARDD DU mor gadarn fel y nacäodd TEGID fyned i'r India. "Dy resymau" meddai yn ei ateb, i 'Wlad fy Ngenedigaeth.'

"Ynt mor gryfion
Maent i mi màl dur-forthwyllion:
Peraist im' er pob ystyriaeth,
Fyw yn Ngwlad fy Ngenedigaeth."

Yn Nhachwedd 1823, penodwyd ef yn Brifgantawr *Christ Church*, ac ar yr 21ain o'r mis hwnw, trwyddedwyd ef i Guradiaeth parhaus St. Thomas, yn yr un ddinas. Trwy ei ymdrechïadau halaethwyd yr Eglwys blwyfol, ac ail-adeiladwyd rhan o honi. Llwyddodd hefyd i sychu y fynwent, yr hon oedd yn wleib, lle gwelwyd

"Ar ol llifeiriant cryf
Y dwr yn tor y beddau,"

o i'w helaethu a'i mawr harddu. Mae olion o'i lafur a'i gur er lleshâd ei blwyfolion, i'w canfod yn gyfagos i'r Eglwys, sef dau ysgoldŷ hardd ac äang, un i fechgyn, a'r llall i enethod. Bu yn gweinidogaethu yn St. Thomas dros ddeunaw mlynedd, a gadawodd ar ei ol adgofion perfelus am dano ymhlith trigolion y plwyf.

Llawer gwaith tra yn preswylïo yn RHŶDŶCHAIN, taer ddymunai gael bywiolaeth yn NGHŶMMAU, canys yn "Ngwyllt Walia" yr oedd ei galon, er cartrefu o hono gynniifer blwyddyn yn Lloegr; a chafodd ei ewyllys mewn modd annysgwyliadwy ganddo, ac heb yr ymdrech leiaf o eiddo ei hun i'r perwyl hyny. Trwy hynawsedd Arglwyddes LLANOVER yn dadleu

* Gwel t. d. 156.

ei deilyngdod; penodwyd ef gan yr Arglwydd Ganghellydd COTTENHAM i Ficeriaeth NANHYFER, (Nevern) yn swydd Benfro, ar 27ain o Awst, 1841. Parodd y dyrchafiad hwn lawenydd mawr iddo, ond buasai yn fwy pe cwmpasai ei goelbren yn MEIRION, canys yno y chwenychai fyw. Yn 1848 y Gwir Barch. Esgob THIRLWALL, yr hwn oedd yn ei barchu yn fawr, a ddangosodd ei ewylllys da tuag ato, trwy ei ddyrchafu i fod yn Brebendur yn Eglwys Gadeiriol Tŷ DEWI.

Mae yr aml wobrau a ennillodd TEGID yn yr Eisteddfodau, yn dŷst o'i gymmeradwyaeth fel Bardd, a'i ysgrifeniadau eraill yn profi ei fedrusrwydd fel ysgolhaig. Hynododd ei gymmeriad fel Hebrëwr dysgedig, drwy gyfieithu o'r iaith wreiddiol i'r Seisnaeg, Lyfr y Prophwyd ESAIAH.* Derbyniodd y cyfieithad hwn ganmoliaeth uchel yr ysgolheigion medrus GESENIUS, o Brifysgol HALLE; ac EWALD, o Brifysgol TUBINGEN yn yr Almaen; a'r enwog Dr. PRICHARD o GAERODOR. Dygwyd allan ail-argraffiad o'r Llyfr hwn yn 1842. Gorphenodd hefyd gyfieithad o'r un llyfr i'r Cymraeg, ond ni chafodd ei argraffu er y bwriadai yr Awdur ei gyhoeddi pe arbedid ei fywyd.

Mewn cyssylltiad a'r diweddar Barch. WALTER DAVIES, Ficer Llanrhaidr-yn-Mochnant, arolygodd argraffiad o waith y Bardd Cymreig LEWIS GLYN COTHI, † yr hwn a fodeuodd yn nheyrnasiadau Harri VI. Edward IV. Richard III. a Harri VII. Fel rhagarweiniad i'r gwaith, ysgrifennodd draethawd yn cynnwys hanes eglurhaol o'r rhyfeloedd rhwng tai CAEREFRAWG a LANCASTER, a elwir yn gyffredin "Rhyfeloedd y Rhosynau."

Bu er ei ieneuctid yn frwdfrydig dros y Gymraeg, ac arferai ysgrifenu llawer ynghylch yr Iaith hono, yn y Cyhoeddiadau Cymreig a Saesnaeg, yn gystal ag mewn Traethodau. ‡ Yn 1828, cyhoeddodd argraffiad o'r Testament newydd, yn yr

* The Book of the Prophet Isaiah. Oxford, 1830.

† The Poetical Works of Lewis Glyn Cothi. Oxford, 1837.

‡ Gwel Traethawd ar Gadwedigaeth yr Iaith Gymraeg. Caerfyrddin, 1820. Traethawd ar iawn Llythraeth yr Iaith Gymraeg. Rhydychain, 1830.

hwn y gwrthodir y cydseiniaid diangenrhaid ag sydd yn hen argraffiad y Bibl (1809.) Parodd y cyhoeddiad hwn gryn gyffroad trwy CYMRU oll, ac ysgrifennodd y diweddar Barchedigion J. ROBERTS, Tremeirchion, a BRUCE KNIGHT, Canghellydd Llandaf, draethodau yn erbyn y drefniant ddiwygiedig ag a fabwysiadai TEGID oblegid mai unol ydoedd ag ansawdd y Iaith Gymraeg yn ol ei farn ef ac amrai o ddysgedigion CYMRU. Yn erbyn yr ymosodwyr hyn efe a amddiffynnodd ei hun a'i drefniant † yn gadarn, a chefnogwyd ef gan rai o brif ysgolheigion CYMRU, megys y Dr. W. OWEN PUGHE, a'r Parchedigion WALTER DAVIES, (*Gwallter Mechain*,) R. WILLIAMS, Ysceifiog, a H. PARRY, Llanasa. Cafodd y Cyhoeddiad diwygiedig ledaeniad tra helaeth, fel y gorfu dwyn allan o'r wasg bedwar argraffiad o hono, yn cynnwys yn gyfangwbl 17,000 o gyfrolau, a huasai y BIBL oll wedi ei gyhoeddi ar yr un drefn o Lythereniad gan y Gymdeithas er taenu gwybodaeth Gristionogol, oni bai ymdrechion amddiffynwyr yr hen lythraeth gydag Esgobion CYMRU i nacau eu caniatad a'u nawdd i'r gorchwyl.

Danfonwyd hefyd dwy ddeiseb i'r Gymdeithas yn erbyn y drefniant newydd o'i eiddo, y naill gan Esgob BANGOR, a 73 o Offeiriaid, a'r llall gan y Canghellydd, BRUCE KNIGHT, a 80 o Offeiriaid Llandaf. Mae yn sicr bod amrai o'r deisebwyr yn anwybodus o'r peth y gwrthwynebant, ac nad oeddent ddim wedi gweled yr argraffiad pan dorasant eu henwau ar y deisebau.‡

† A defence of the Reformed System of Welsh Orthography. A Reply to the Rev. W. B. Knight's "Remarks," 1831.

‡ "Your Lordship will no doubt be amused at the following circumstance. I went to Holyhead..... and on my return spent a day at Bangor, when I called on Mr. J. who lost no time in communicating to me, that I was in a sad predicament; that about 75 Clergymen of the diocese of Bangor had signed a memorial against my edition of the New Testament, and that he likewise had done so. On my asking him his reason, he said, 'I thought I might as well put my name down as not, for I saw that several whom I knew had signed the Memorial.' I then asked if he ever saw the Testament. He replied 'No, I never saw it, and I am not aware that any of the others have seen it any more than myself.' I then became anxious to know with whom the Memorial had originated, and he said with Mr. H. M., whereupon I made up my mind to wait on Mr. M. who received me very politely. I asked him if my informant were

I un a fu gynnifer blwyddyn yn cyfaneddu mewn cyfryw ddinas â Rhydychain, cyfnewidiad yn wir oedd cartrefu mewn plwyf gwladol. Teimlai y gwahaniaeth am dro gwedi sefydlu yn Nanhyfer, a gofidiai lawer gwaith oblegid colli cymdeithas ei aml gydnabyddion gynt. Mor anhawdd ydyw dileu hen adgofion! Eithr cafodd fwy o amser iddo ei hun yn y wlad noc oedd ganddo o'r blaen, a defnyddiai hwn trwy ymroddi i ddarllen. Byddai wrth ei fodd ymhlith ei lyfrau, ac er eu mwynhau, arferai fore-godi a hyny amlwaith gyda'r wawr. Fel hyn y treuliai y rhan fwyaf o'r dydd, ac hefyd mewn ysgrifenu, canys yr oedd ganddo nifer liosog o ohebwy'r. Heblaw hyn, yr oedd yn cael dyfyrwch neillduol mewn olion hynafiaethol, am ba rai y chwiliai yn ddyfal yn y cwmpasoedd. Rhoddai gresaw caredig i bob un a alwai yn ei dŷ, ac os deuai neb ato, fel y gwnai amrai o ffordd bell, er mai anadnabyddus oeddent iddo o'r blaen, nid oedd llythyr o gymmeradwyaeth yn angenrheidiol, eithr derbyniai hwynt oll gyda charedigrwydd. Yr oedd yn noddwr i bawb a chwenychent wneud cynnydd mewn dysgeidiaeth, ac yn enwedig dysgeidiaeth Awenyddol. Trwy ei gymmeriad cariadlawn a boneddigaidd, ennillodd nid yn unig serch ei gydraddion a'r rhai is eu cyflwr noc ef, eithr gallai restru ymhlith nifer ei gyfeillion, lawer o enwogion a gwŷr urddasol. Y cyfryw yn wir oedd mwyneidd-dra ei ymddygiad a'i ymddyddan fel na allai neb a'i hadwaenai lai no'i garu.

Ond fel y canodd ef ei hun gynt,

“ Nid oes

Na dawn, na dysg, na dim a achub dyn
Rhag crafanc angeu.”

correct in telling me that he (Mr. M.) had sent a Memorial to the different Clergy for their signature? He allowed it was the case and that Mr. R. had urged him to send it. I then asked him whether he had seen the Testament. He replied in the negative. All he knew about it was, that the word *carai* a shoe-latchet, was spelt in the same way as *carai*, the future tense of *caru*, to love, which he thought would greatly startle every ordinary reader, and therefore he concurred in the propriety of sending the Memorial to the Society for Promoting Christian Knowledge. Unfortunately for Mr. M., the future of *caru*, is *caraf*; *ceri*; *cara*; &c. Believe me, my lord, I could not help smiling at his remark, and soon bade him good morning.” Dyfyniad o lythyr yr Awdur at y Dr. Lloyd, Esgob Rhydychain. Dyddiedig, Mawrth 31, 1829.

Yn 1851, bu yn ymweled â Rhydychain a Llundain. Y pryd hwnw y dechreuodd glafychu, ac ni fu byth yn holl-iach wedi dychwelyd adref. Eithr er bod o hono dro mewn afiechyd ac weithiau yn dyoddef poenau llym oddiwirth y clefyd ag oedd wedi ymafflyd ynddo, sef y dwfr-glywyf, daeth ei ymadawiad yn annysgwyladwy iawn. Bu farw yn Mherosnddŷ Nanhyfer, dydd Sul,* yr 2fed o Fai, 1852, yn yr 61ain flwyddyn o'i oed, er tristwch cyffredinol ei blwyfolion a lliaws y rhai a'i hadwaenent. Llauer a dystiolaethasant ar air ac mewn ysgrifen eu parch tuag at y trancedig, wedi clywed am ei farwolaeth, ond ni ddarluniodd neb ei gymmeriad mor gywir â'r Dr. THIRLWALL, Esgob Tŷ Dewi, yn y geiriau hyawdl a chynnwysfawr hyn :—"I cannot sufficiently express the concern I feel, whether I consider the qualities of his heart or of his head, his private worth, his usefulness in the Church, or his literary undertakings."

* "O blith eraill caf enwi un ffaith neillduol yn dwyn cysylltiad â marwolaeth y Rardd a'r Gweinidog enwog hwn. Yn ei absenoldeb o'r Eglwys, pan ar ei wely angau, ar fore dydd yr Arglywydd, tra yr oedd Offeiriad cymmyddog-aethol yn darllen yn ei le yn Llan Nanhyfer, boddwyd llais y darlennydd gan fwyalchen a darawai drwy yr Eglwys accen uchel a pherseiniol yn ddiwymth iawn. Tynnwyd sylw y gwrandawyr at *solo* anarferol yr aderyn, megys ag y darfu i'r eos gynt ddenu sylw yr hen sant duwiol Dewi; a braidd y gallasai yr Offeiriad fyned ym mlaen gyd a'r gwasanaeth am ychydig fundau; a tharawyd pawb â rhyw syndod dieithriol ar yr amser, o herwydd hynodrwydd y digwyddiad. Ar ol dyfod o'r Eglwys cafwyd allan mai ar yr amser hwnnw yn gywir yr ehedodd enaid mawr TEGID o'i gorph i fyd yr ysprydoedd, i ddechreu tŷn ber-eiddach nag a allodd ef na chantorion y dddear erioed ddyrchafu. Nid wyf fi yma mwy na'r tystion geirwir a adroddasant yr hanes wrthyf, yn credu mewn un coelgrefydd, fel pe busai yr aderyn gwedi ei anfon yn gennad goruwch-naturiol i weini ar yr achlysur, ac nid wyf ychwaith yn rhyfygu ffugio chwedl mewn perthynas i gyfnod mor sobr ag awr marwolaeth TEGID; ond yr wyf yn unig yn ysgrifenu y gwirionedd fel y cymmerodd le, heb unrhyw eponiad arno o'm dychymmyg fy hun, nac eiddo arall. Eithr yr hyn sydd yn gwneuthur y ffaith yn fwy rhyfeddol yw yr hyn a ganlyn:—Pan yr oedd arch a choroph TEGID yn cael eu gostwng i'r bedd, aderyn (pa un ai yr ag o'r blaen, nis clywais, ac nis gwn) a esgynodd ar ganghen yn uniongyrchol uwch ben y bedd agored a'r dorf, a chanodd alarnad angladdol bynod o ddifrifol ac effeithiol. Onid iawn oedd hyn? Canodd TEGID lawer i'r adar; a chafwyd un aderyn, o leiaf, mor gymmwynasgar a chydnabod ei ddiolchgarwch, drwy beroriaethu y farwnad gyntaf, a'r emyn angladdol olaf i TEGID." *Fy ymweliad olaf â Iwan Tegid*, gan y Parch. J. Davis, B.D. Llanhywel, t. d. 376, 377, YR HAUL, 1855.

Dinysir y Dderwyddau

YN MON;

YN Y FLWYDDYN LXI O OEDRAN CRIST, GAN FILWYR RHUFAIN O
DAN PAULINUS SUTONIUS, RHAGLAW YR AMHERAWDWR NERO
YN MHRydAIN.

PAULINUS SUTONIUS, Monam insulam, incolis validam, et receptaculum
perfugarum, aggredi parat, navesque fabricatur plano alveo, adversus breve et
incertum. Sic pedes: equites, vado secuti, aut altiores inter undas, adnantes
equis, transmisere.

C. Corn. Taciti *Annal.* Lib. xiv. 29.

CYNNWYSIAD.

I.

Anwybodaeth o hanes y Derwyddon yn debyg i dywyllwch,—yr Awen, megis gwawr yn ymlid y tywyllwch ymaith; ac yn cymmeryd lle hanes;—y Bardd tan ei harweiniad, yn rhodiaw tir Môn i ymwelâd â'r gweddillion Derwyddawl.

II.

Ymweliad a'r Bryn Gwyn; ac yno yr Awen yn rhoi bras hanes am ddyfodiad Hu Gadarn i Ynys Prydain; ac yn dangaws oddi ar y Bryn Gwyn y man lle byddai y beirdd leuaic yn arfer ymgynnull; ac hefyd y ddôl, lle byddai Melwas a'r Drywesau yn corelwi ar Alban Hefin i groesawu yr haf;—ac yna ar ol hyn y Bardd yn adroddi a wyddai am y Derwyddon.

III.

Y rhan hon o'r Awdl a gynnwysa hanes am y cyffrôd, y cynnhwrf, a'r dychryn a barodd ymgyrch milwyr Rhufain trwy yr holl ynys;—y Bardd yn cael ei gariaw yn ol yn ei feddyliu, ac yn canfod megys a'i olygon ei hun y trigolion yn crynhôl yn fintoedd, ac fal yr oedd y Derwyddon, oblegid agoswydd eu gelynlion, a'r Lloer hefyd yn dygwdd bod ar yr un pryd yn llawn lloned, yn aberthu yn groes i'w harfer cyffredin i'w nos. Adroddiad o'r arwyddion dychrynydd a ragflaenent yr Aberth; ac am y Derwyddon a'r Archdderwydd yn myned i aberthu;—gweddi yr Archdderwydd;—ymosodiad disymmwth eu gelynlion arnynt; darluniad o'r lladdfa;—ac o'r bore dranoeth.

IV.

Cyfarch Paulinus Suetonius fal yr achoswr o ddinystr y Derwyddon;—ac er iddo ef eu lladd hwynt, na phalodd beirdd i Gymru, na'r iaith Gymraeg;—er mai yn groes i hyn y dygwddodd iddynt hwy y Rhufeiniaid, o barth eu beirdd, eu hiaith, a'u hawdurdawd.

A W D L.

DINYSTR Y DERWYDDON YN MON.¹

E fu Drywon â gleiniawg fodrwyau,
Gwyr dysgedig âg euraid wisgiadau;
Bore astudiant, wiw barâus dadau;
Yn y toreithiawg naturiaethau:
Gwiw eu hurddedig gyrhaeddiadau,
Deall p'le y Nadir, dull y planedau;
Am y ser gwibiawg, mwys ragwybodau;
Lled ragwelediad o'r holl dreigliadau.

DEWI WYNN.

Nos sy dros yr henoes draw,
A chaddug du'n ei chuddiaw.
Tywyllwch trwch! nid oes a'i trecha,
A'i gyr ef hwnt, ac a'i gwasgara; 4
Ond yr Awen.

¹ Yn y flwyddyn lxi o oedran Crist, a phan oedd Nero yn Amherawdwr yn Rhufain, y llâs y Derwyddon yn Môn gan y Rhaglaw Paulinus Suetonius, gwr medrus rhyfelgar. Y Blaenawr hwn, ya gynnar ar ol ei ddyfodiad i Brydain, a gychwynodd tuag at Ynys Môn, "Ynys gadarn ac yn noddfa ffoedigion," meddai Tacitus yr hanesydd Rhufeinig. "Ac i'r dyben i drosglwyddaw ei filwyr dros geinefor Menai, efe a ffurfiodd fadau â gwaelodion gwastad, at gludaw y gwyr traed, a pherodd i'r marchwyr fyned trosodd naill ai trwy gael allan ryd, ai trwy nofiaw." "Yno," meddai Tacitus eto, "safai ar y traeth [yn Môn] tyrfa o wyr arfawg, a menywaid yn rhedeg yma a thraw yn eu plith megis gwyllon, gan ddwyn ffaglau o dân. Y Derwyddon hefyd, gan sefyll oddiamgylch a'u dwylaw yn ddyrchaf-

Dwyrëa, Ganaid dlôs, 6
A'r nos, y ddygn nos draw yn ddydd gwna.

Haelionus yw, tafled oleuni
Dros yr oes draw, oes o erysi ; 8
Yma yn iawn mal y gallom ni
Am y DERWYDDON ymadroddi.

Wi ! mae'r awyr yn amrywiaw,
Wi ! aur drem, megys gwawr, draw ; 12
Gwawr ? Wi ! mae'n ymagoryd
Gwawr Awen uwch ben byd.
Dy wên, eur Awen ! dy eurwëad, moes
Waith man ar fy nghaniad ; 16
Medrus boed gwaith fy mydriad,
Fâl mur o waith difeff mad,
Cywrain ; lle mae pob careg,
Oll yn dÿn, yn eu lle'n deg. 20

Dyroddaist i'r DERWYDDON
Enw mawr, a chlod, yn Mon,

edig tua'r nefoedd, a dywalltent weddïau dygnawl ac erehyll. Y milwyr a darawyd â syndawd gan newydd-dra yr olygfa yn gymmairt a bod [y Derwyddon] mal pe buasai eu haelodau gwedi eu glydiaw, yn rhoi eu cyrph yn anysgogawl i dderbyn archollion. Ond ar ol ychydig amser, trwy annogiadau eu Blaenawr ; a hwythau eu hunain yn cymmhell eu gilydd i beidiaw â dychrynu rhag torf fenywaidd a gorphwylawg, a ddygasant eu banieri, ac a ddymchwelasant y rhai a safent ar eu ffordd, ac a'u bwriasant iddeu tânau eu hunain. Goeodwyd llu gwarcheidwadawl ar y gorchfygedig, a thorwyd i lawr y llwyni ag oeddent yn gyssegregid iddeu coelgrefydd ffyrnig a chreulawn ; canys cyfrifent yn addas i boeth offrymu ar eu hallorau waed caethion, ac i ymgynghori â'r duwiau trwy gyssegr-chwiliaw i mewn i ymysgaroedd dynion." Gwel C. Corn. Taciti *Annales*, Lib. xiv. 29, 30.

Gwelwyd yn eu hysgolion 23
 Ar fainc llawer gwr o FON ;
 Ac eraill o bob goror o BRYDAIN,
 Ein brōdir dieisor ;
 Ac er dysg, cymmysg â'r côr
 Tiriai yma gwyr tramor.¹ 23
 Caent achles yn mynwes MON,
 A dygiad dysgedigion,
 A phwy mwy na hoffai MON,
 Hoff yw ei hen goffâon. 32

Awen dryddysg ! wyt hael yn dy roddion,
 I minnau dyroddaist menw DERWYDDON,²
 Er medru heddyw eur-ymadroddion, 36
 A lluniaw cerddi o wiw ddillynion ;
 Rho im' fwy no mwy elwa'n MON o radau
 Tau, er dwyn i'r golau hen ddirgelion.
 Mae eu hanesiaeth am y cynoesoedd,
 Am wyr o fri, am wledydd a moroedd ; 40
 Defodau llwythau, dull eu hieithoedd,
 Yn llwyr, mâl aur yn ngolwg llaweroedd ;
 Ond ermoed erioed fy nghred oedd Awen,
 Cyn gwyr llên, neu hanes hen, yr hanoedd. 44

Hi adrodda am y DERWYDDON, hen
 A hynod hanesion ;

¹ Dywed Iwl Caisar y byddent ieuentid gwlad Gàl, hono yw Ffrainc, yn arfer dyfod trosodd i Brydain er mwyn cael eu hyfforddi yn fanylach yn addysg a chyfrinach y Derwyddon.

² MENW, deall, meddwl.—Mens, *Lladin*.

F' arweinydd hi fydd, drwy Fon, 47
I gael allan ddirgelion.

Y llwybr dir a'r lle bu'r DERWYDD yw Mon,
Meini Llog ŷnt arwydd ;¹
Crair ar led creiriau o'i lwydd,
A chyflod drych ei aflwydd. 52
BOD DRUDAN ! Derwydd annedd,²
A TRE'R DRYW ! gwyw yw eu gwedd.
TRE'R BEIRDD ! lle bu beirdd yn byw,
Yr haddef ni chair heddyw. 56
O ! llawer yn mhob lleoedd,
O drefydd gynt iddynt oedd.

Lle i feirdd oedd oll o Fon,
Ei brasaf feusydd breision, 60
Olion Drywawl a welir,
Yn llwyd waith, trwy'r holl dir.
Nid oes ddyffryn, bryn, na bro ;
Na thwyn, heb hen waith yno. 64
Rhai'n ŷnt weithion
Ddu arwyddion o ddiraddiad
BEIRDD, OFYDDION ;³
A DERWYDDON, a'u diwreiddiad. 68

¹ MEINI LLOG, *rhif Ulios* o Maen Llog. Gelwir y Maen Llog wrth lawer o enwau ; sef Maen Cynghrair, Maen Gorsedd, Maen Aberth, Allawr, Cromlech.

² BOD DRUDAN. Yn mhlwyf Llanidan y mae Bod Drudan, Tre'r Dryw, Tre'r Beirdd, lle mae hefyd eraill weddillion Derwyddawl. Gwel *Mona Antiqua Restaurata*, gan Rowlands.

³ Tri rhyw Brifeirdd y sydd, Bardd Braint, neu Brifardd Pendant, wrth fraint defawd, a llafar Gorsedd, a'i swydd yw llywodraethu.

Mae'r DERWYDDON,	69
Wiw beirdd ddynion ! a'u hurdduniant ?	
Mae'r OFYDDION ?	
Mae y BEIRDDION, meib eu hurddiant ?	72
Mae IDRIS a'i dremwydron ? ¹	
A'i byw yw y doeth AB DON ?	
HU ? CANHEBON ? ²	
I'w hysgolion nis dysgwylir ;	76
Tàn goed gwyrdion,	
Mewn ysgolion, mwy nis gwelir. ⁴	
Hwy fuont dan nef awyr,	
Hwnt yn llu aethant yn llwyr !	80
O GARNAC yn FFRAINC i GERNYW, chwervw son ! ³	
O FRYN GWYDDON i FON neb yn fyw.	
A CHOR GAWR, ei cheryg ýnt ;	
Hen dadau hwy nid ydynt.	84

Ofydd wrth Awen, ac ymgais a dichwain ; a'i swydd yw awenyddu. A Derwydd wrth bwyll ansawdd a gorfod ; a'i awydd yw athrawiaethu. *Triodd Braint a Defawd.*

¹ Tri gwyn Seronyddion Ynys Prydain : Idris Gawr, a Gwyddon ab Don, a Nudd ; a chymmaint eu gwybodau am y ser a'u haneoddau, y darogenynt a chwenychid ei wybod hyd yn nydd brawd. *Triodd Ynys Prydain.*

² Tri Deifnogion Cerdd a Cheudawd Cenedl y Cymry : Gwyddon Ganhebon, a wnaeth gerdd dafawd gyntaf o'r byd ; Hu Gadarn, a ddodes gyntaf ar gerdd dafawd gynnal Cof a Cheudawd ; a Thydain Tad Awen, a ddodes gelfyddyd gyntaf ar gerdd dafawd ; ac o'r a wnaethant y triwyr hyny y cafad Beirdd a Barddoniaeth, a doddi yn nosparth Braint a Defawd y pethau hyny y gan y tri beirdd cyntefigion, nid amgen, Plenydd, ac Alawn a Gwron.

³ CAENAC, ardal ychydig o filldroedd o bentref Awrey, ac nid yn nebell oddi wrth y ddinas Vennes yn Llydaw ; ac yn agaws at lan y môr. Yma y mae un o'r gweddillion helaethaf a rhyfeddaf o waith y Derwyddon. Y ceryg oll ýnt yn bur afrywiawg heb erioed eu nadu ; ac o nifer, yn fychain a mawrin dros 4000.

CERNYW, sef Cornwall yn Lloegr. Mae yn yr ardal hon lawer byd o weddillion Derwyddawl. Bryn Gwyddon, Gorsedd yn Nghaer-

II.

Codwn ! dringwn i'r bryn draw, 85
 O fwriad i fyfyriaw ;
 Ac arnaw adgofiaw'r dyddiau gynt
 Dyddiau ein cyn-henafiaid oeddent ; 88

lleon ar Wysg. "Tair phrif Orsedd Beirdd Ynys Prydain : Gorsedd Bryn Gwyddon yn Nghaerlleon ar Wysg ; a Gorsedd Moel Efwr ; a Gorsedd Beiscawen."

Modd arall, "Tair Gorsedd gyfangerdd Ynys Prydain : Gorsedd Beiscawen yn Nyfnwal ; a Gorsedd Caradawc yn Lloegr ; a Gorsedd Bryn Gwyddon yn Nghymru." Gwel *Coelbren y Beirdd* gan Taliesin ab Iolo.

Yr oedd Carnhuanawc o'r farn fod Dyfnwal yn cynnwys Dyfnaint a Chernyw ; ac mae yn Nghernyw yr oedd Gorsedd Beiscawen [neu Boscawen, yn ol mal y gelwir y lle heddyw.] Beiscawen sydd rhwng Penzance a Land's End ; ac nid yn nebell oddi wrth y môr. Y mae yno lawer o weddillion Derwyddawl, ac yn enwedig y Cylch Meini.

Am ORSEDD MOEL EFWR [sef Gorsedd Caradawc* yn ol yr ail driad] ni allai Carnhuanawc fynegi dim yn gadarnhâawl pa le yr oedd ; ond meddyliai y gallasai ei bod yn rhywle yn gyfagaws i ddinas Salisbury. "Efallai bod yr enw Moel Efwr," meddai, "yn dwyn perthynas a gwaith Amesbury neu Avebury ; neu ynte â gwaith Emrys, sef Côr Gawr, a elwir heddyw gan y Saeson yn Stonehenge." "Hawddach," meddai efe drachefn, "yw gwybod ystyr yr enw Moel Efwr, na gwybod y man lle mae." Derbyniodd y Foel yn ddiambhau ei henw oddi wrth bod yr Efwr yn tyfu arni. Oddi wrth yr un achaws hefyd y cafodd Castell Dinefwr ei enw.

EFWR, efyrrlys, moron y moch, panas y moch ; Heracleum Spondylium : cow parsnip : wild parsnip. Llysaieuyn melyn yw yr Efwr, ac hoffer ef yn fawr gan y moch.

Osglawg blaen derw, chwervw chwaeth dn,
 Chweg efwr.—*Llywarch Hen.*

Melyn eithin, crin efwr.—*Llywarch Hen.*

Ar ol yr hyn a ddywedodd Carnhuanawc uchod ; sef y gallai fod Moel Efwr yn dwyn perthynas â gwaith Avebury, &c., rhoddaf yma y gofyniad hwn, Oni ddichon i'r gair Avebury, gael ei darddiad, neu ei wreiddyn, oddiwrth Efwr, mal hyn, Ewrbury ? Meddylhwn y gallai i hyn ddygwydd ; ond barned y dysgedig a'r hynafieithydd.

"BURG or the modern bury, denotes a city, as Canterbury." Gwel *Burh* yn *Bosworth's Dictionary of the Anglo Saxon Language*.

COR GAWR, Gwaith Emrys, ac a elwir yn Saesoneg yn Stonehenge, yn ngwastadedd Salisbury. Gwel *Davies' Mythology of the British Druids*, t. d. 308.

* Gwastadedd Caradawc y geillw rhai *Salisbury Plain*.

Yna ymholwn am eu helynt; 89
 “Gwir yn erbyn y Byd” a garent.

Henffych gwell, Fryn Gwyn! tegwedd,¹
 Gwyn y màn lle trig iawnedd. 92
 Nodawl Orsedd! hen ydwyt,
 Hen iawn, eto hardd iawn wyt.
 Ar ei llechwedd eisteddwn,
 Ein dau, er mwynhau'r màn hwn. 96

Aeth heibio oesoedd weithion
 Er oes Hu hyd yr oes hon; ²
 Er y dydd pan oedd ar daith,
 Yn alltud i wlad belldaith. 100

¹ BRYN GWYN, hen Orsedd yn Môn, (yn mhlwyf Llanidan,) a elwid hefyd Bryn yr Orsedd; a Gorsedd y Bryn Gwyn. Yma, megys ag i Orsedd Bryn Gwyddon, ac eraill leoedd cyffelyb, yr ymgynnullai y Derwyddon i gynnal a chadw Gorsedd a Chadair; ac i drafodi achoeion gwladwriaethawl, ac i wneuthur barn rhwng gwr a gwr.

“Ar bedwar amset arbenigion yn y flwyddyn y mae cadw a chynnal Gorsedd a Chadair wrth fraint a defawd Beirdd Ynys Prydain. Sef yw yr amseroedd hyn pedwar Bân Haul; sef y cyntaf yw yr Alban Arthan; a'i syrth ar y ddegfed ddydd o fis Rhagfyr, pan y byddo dydd byraf y gauaf, a'r dydd cyntaf o'r flwyddyn a'r gauaf, herwydd defawd yr hen Gymry, a chyfrif y beirdd herwydd hen gof a chadw.

“Yr ail yw yr Alban Eilir; a'i syrth ar y ddegfed ddydd o fis Mawrth, a'r dydd cyntaf o'r Gwanwyn yw.

“Y trydydd yw yr Alban Hefin; a'i syrth ar y ddegfed ddydd o fis Mehefin, a dydd cyntaf yr haf yw, a dydd hwyaf yr haf.

“Y pedwerydd yw yr Alban Elfed, a'i syrth ar y ddegfed ddydd o fis Medi; a'r dydd cyntaf o'r mesur yd yw, a hefyd dydd cyhydydd Haul y Mesur yd.” *Iolo M.S.S.*, t. d. 52.

D.S. Syrth Alban Arthan, yn ol ein cyfrif presennawl, ar yr 21ain o fis Rhagfyr; ac Alban Eilir, ar yr 21ain o fis Mawrth; ac Alban Hefin, ar yr 21ain o fis Mehefin; ac Alban Elfed, ar yr 21ain o fis Medi.

² HU GADARN. Gwel y *Cambrian Register* Vol. iii. t. d. 91, 162—5. *Cambro Briton*, Vol. i. t. d. 45, &c., Vol. ii. t. d. 59, &c., Peter Roberts' *Sketch of the early history of the Cymry*. Hu Gadarn, *Cywydd o III. Caniad*: gan Idrison (sef y Dr. W. O. Pughe.)

“Tri chiwdawd addwyn Ynys Prydain: cyntaf oeddent Cenedl y

Wrth làn MOR TAWCH yn awchus, ¹	101
Oedd wr â bron ddewr, ddi rus ;	
Wr glew ! i'r oer gwrwgl yr âi ; i'r môr	
Er y mawrwynt rhwyfai ;	104
Ha ! dâed y mordwyai,	
Môr chwyrn, môr fedrus, môr chwai.	
Di gryn mewn bad o groenwaith,	
Dan nawdd Ior dros y môr maith ;	108
Blin ei hynt heb lyw, na hwyl,	
Arweiniaï'r CYMBY anwyl.	
Ac ar ol moriaw, rhwyfaw rhawg,	
Eu glaniaw gwnai 'n galonawg,	112
Yn iach er lludded a chwÿs,	
Pob pen yn y WEN YNYS. ²	
Ei gwynion heirdd glogwyni, danneddawg,	
A'i denodd ef ati ;	116
Gwych eu lluwch a gwiw, uwch lli,	
Yn yr haul yn corelwi.	
A'r wlad fad oedd wrth ei fodd,	
A'i wyneb a lawenodd.	120

Cymry a ddaethant gyda Hu Gadarn i Ynys Prydain : sef na fynai efe wlad, na throedd, o ymladd ac ymlid, eithr o gyflawuder, ac yn nhangnef."—*Trioedd*.

¹ MOR TAWCH,—the hazy sea; sef, y German Ocean. Gwel *The Patriarchal Religion of Britain*, by Rev. D. James, Kirkdale, Liverpool, p. 100.

² Y WEN YNYS, un o enwau cyntefig Ynys Prydain. Gelwid hi hefyd y Fel Ynys; sef yw hyny, meddai IOLO MORGANWG, Ynys Belin neu Apollo, sef yr Haul. Addolid Bel, Baal, Belenus, neu Balonos, yn Mhalestin. Un o enwau IEHOVAH oedd Baal yn y dechreuad (Hos. ii. 16.) Yn mhen amser, trwy lygru o grefydd, daeth yr enw Bel, yn enwawd ar Apollo, neu yr Haul. Gwel *Identity of the Religions called Druidical and Hebrew*, p. 135.

DINYSTR Y DERWYDDON YN MON.	13
Tŷ 'n un man, tânau, na mwg,	121
Ni welai â'i ddau olwg ;	
Na gwyneb neb trigiannydd	
Mewn bryndir, gweundir, na gwŷdd.	124
Mewn hedd y cymm'rai feddiant	
O fryn, a phenryn, a phant ;	
Gelyn mewn dyffryn nid oedd,	
Na'i gadau arfawg dorfoedd.	128
HU GADARN, Ha ! a'i giwdawd,	
Cynnyddai, ffynai, eu ffawd ;	
Nes oeddynt mewn bras haddef,	
Diwael eu grym, genedl gref.	132
Ond rhy faith o waith in' weithion adrawdd,	
Ar y mydrau caethion,	
Hynod lwydd y genedl hon ;	
Ei hantur a'i helyntion ;	136
Ei defodau, a'i thrafnidiau	
Am ei deddfau mad a haeddfawl ;	
Ei Brawdlysoedd, Gorseddleoedd,	
Cynnadl-lysoedd, Cenedl oesawl ;	140
"Cared Doethion	
Hen Encilion," iawn eu coledd ;	
Ac hanesion	
Gwiw arferion gwyr o fawredd.	144
Yn bwyllig i'r BRYN bellach,	
Nyni 'n awr, canwn yn iach.	
O FRYN GWYN ! mor hawddgar wyt,	
Gwiwdeg i'n golwg ydwyt ;	148

Gwylled, arswyded gelyn, 149
A'i gaib a'i raw rhag y BRYN.

Y BRYN GWYN, bryn breiniawg oedd, 152
A hynodawl fryn ydoedd ;
Gwir arno ni ragorynt
Bryniau MON, nag ARFON, gynt.
Yma bu gwyr, meib y gân, 156
Yn hynod yn eu hanian ;
Yma yn hir bu MENW HEN,
Do ; a THYDAIN TAD AWEN ;¹
Sef, gwyr cûn, beirdd o'r un reddf,
Ac o enaid un gynneddf, 160
A nwyf â THYDAIN wiwfardd ;
Neu MENW HEN o fewn MON hardd.

Yma 'n ngwydd Haul bu ammod, 164
Rhan beirdd, a chyngrair yn bod ;
Gwersi, a chynnal Gorsedd,
Yn iaith eu gwlad heb noeth gledd.
Gwelid PLENYDD, ac ALAWN, a GWRON,² 168
(Gwiw gawri uchelddawn)
Swyddawl wyr, mewn Gorsedd lawn ;
Ynaid yn barnu 'n uniawn.

Ac, Acw ! draw ; draw gerllaw'r llwyn, 172
Yn cydlef ger y coedlwyn,

¹ Tri chynfebyd Ynys Prydain, Tydain Tad Awen ; Menw Hen ; a Gwrhir, bardd Teilaw Llan Daf ; a thri meib beirdd oeddent. *Triodd Ynys Prydain.*

² Tri chynffegion Beirdd Gorseddawg Ynys Prydain : Plenydd, Alawn ; a Gwron. *Triodd Braint a Defawd.*

DINYSTR Y DERWYDDON YN MON.	15
Yn ddiwyd bu beirdd ieuainc, Oriawg, mwyn ; y graig eu mainc.	173
A weli di draw ddôl deg, A'i thwf yn wyrdd-dwf hardd-deg ? Rhaco ! MELWAS, werddlas wisg, ¹	176
A welwyd mewn gwiailwisg, A gwiw DDRYWESAU 'n eu gwyn, Dda olwg, draw 'n ei ddilyn.	180
Ar ei alwad corelwynt, Ar y glas, o'i gwmpas gynt, Wrth lais telyn, ddyfais ddoeth ; Neu, gân anegwan wiwgoeth.	184
Llon hwynt, llawn hedd, Màn y mwynedd ; AR ALBAN HEFIN, màn gwin a medd yn lli ; ² Màn y corelwi, man cwrw a haeledd.	188

¹ MELWAS, neu mal y gelwir ef yn Saesonaeg, *Jack o' the Green*, oedd, medd hen chwedl, enw Derwyddawl ar ddyd, yr hwn ar Alban Hefin a wisgid â gwisg o ddail a gwiail. Ac ar ol ei wisgaw ef felly, yna efe a âi oddiamgylch i gorelwi, neu ddawnsio, i groesawu yr haf. Darlunir ef yma yn corelwi ar lasdon ger y Bryn Gwyn, a Drywesau yn ei ddilyn gan ymgorelwi gydag ef. Barna rhai y gallai mai y Drywesau yn amdroi, neu gorelwi, mal hyn ar fryn a dôl, ac efallai wrth olau y Lloer hefyd, yr hon a wiw orwenai uwch eu pen, a roddes sail i'r dyohymmyg am y Tylwyth Teg. Ystyrir yr enw Tylwyth Teg genym ni yn awr yn enw ar Wyllon. Mae i'r Tylwyth Teg amryw o enwau ; sef, Bendith y Mamau, Gwreigedd Anwyl, Y Teulu, Dynion mwynion, &c. ; ac yn Saesoneg y gelwir hwynt yn *Fairies*.

CORELWI, mae gair tebyg i hwn, ac o'r un ystyr hefyd, yn arferedig yn Switzerland. "Koraule, a dance ; a sort of Swiss galope, accompanied by couplets chaunted in Chorus."—*Athenæum*.

² ALBAN HEFIN. Gwel tu, dal. 11. Nod. 1.

Anwyl yw meddwl enyd,	189
Gan bawb, am enwogion byd ;	
Mae'n anwyl genym ninnau	
Cyff hen ein dysg, a'u coffhau.	192
Bydd son am y dynion da,	
Teilwng yw hyn, Gwylt Walia !	
Tra gwybren uwch ben y byd,	
Tra lliw'r Haul, tra Lloer rewlyd.	196
Llunient hwy ddeddfau, gwyr call enwawg,	
Deddfau heb wallau, yn ddoeth bwyllawg ;	
Deddfau gorau cyfiawn trugarawg :	
I'r gwael adyn, mál i'r goludawg,	200
Tegwch a fynent. Pan foent wgawg,	
Crynai rhagynt penau coronawg. ¹	
Hwy oeddent gwbl hyddysg, ²	
Parth dyfnder, doethder pob dysg ;	204
Nifer ser gwyneb nefoedd a nodent,	
Planedau a'u cylchoedd ;	
A'u hynt. Pob peth iddynt oedd.	
Wybodus am y bydoedd.	208

¹ *Crynai rhagynt penau coronawg.* Sylwa Dion Chrysostom "na allai brenhinoedd y Celtiaid gymmaint a bwriadu un rhyw fesur cyhoedd heb genad y Derwyddon, y rhai oeddent, meddai efe, yn fedrus mewn Dewinyddiaeth a Gwyddoniaeth, ac nad oedd y brenhinoedd yn meddu onid brith awdurdawd o dan y Derwyddon, ac nad oeddent ddim yn amgen no gweision iddynt." Gwel Armstrong's *Gaelic Dictionary*, o dan y gair "*Druidh*."

² "*Ymresymnt*," meddai Iwl Caisar, "ac a draddodent eu meddyliau i'w gwyr ieuaic, am y ser, a'u symudiadau ; am faintioli y byd a gwledydd ; am naturiaeth pethau ; ac am nerth a gallu y duwiau anfarwawl."

A'u crefydd oedd, defnydd da, 209
 UN wëad ag un NOAH,
 UN DUW ION a adwaenynt,¹
 GLYW ! IOR gwiw ! yn y gwlaw a'r gwynt; 212
 UN DUW yn y fellten dân,
 DUW IOR yn llais y daran.
 UN BOD yn yr HAUL uwch ben,
 A'r LLEUAD a'r SER llawen. 216
 Gwelent, caent wiw argoelion,
 DRWY'r byd hanfodiad yr ION.
 Mewn llwyn, ar y twyn un TAD;
 UN " YDWYF " dinewidiad : 220
 UN RHEN, un DOFYDD, un RHI,
 A ddalient i'w addoli.
 I'r DERWYDD tŵyn, herwydd hyn,
 A thir diffrwyth, a'r dyffryn ; 224
 Y llwyni deri, pob dól,
 A lunient yn olynol,

¹ Cred llawer o ddynion cytrifawl, gwr dysgedig mewn hynaf-iaethau, yn gystal a'm cred innau hefyd, ydyw bod y DERWYDDON yn addolwyr y Gwir DDUW ; a bod eu crefydd yr un, o leiaf o'r un ryw ag a draddododd Noah i'w feibion a'u discynyddion. Nid oes le i ammhau, tebygwn, na ddarfu i'r gwahanol dylwythau ar ol y Dylif, ac yn eu mysg tylwythau JAPHET, o'r hwn yr hanodd y Cymry, ddwyn gyda hwynt i ba le bynag yr aent i wladychu, hanes am y cynfyd, cred a chrefydd, defodau ac arfer, celfyddydau a gwybodau eu cyndadau.

"Tri UN cyntefig y sydd, ac nis gellir amgen nog un o honynt. UN DUW ; UN GWIRIONEDD ; ac UN PWNC RHYDDID, sef y bydd lle pob cydbwys, pob gwrth."—*Trioedd Barddas*.

Llyma y gwahanol enwau am DDUW yn mysg yr hen Gymry ; sef *Arglwydd, Celi, Culwydd, Daf, Dwyf, Dafon, Diön, Dewin, Dafydd, Duw, Dwyw, Eilwys, El, Eli, Ener, Glyw, Hu, Huon, Iaf, Ion, Naf, Nér, Nudd, Panton, Panmon, Peryf, Perydd, Pôr, Rhëen, Rhén, Rhi, Rhion, Rhwyf*. Gwel *Enlynon Sion Cent ar enwau Duw*, yn *Iolo MSS.* t. d. 285. Hefyd y *Cambro Briton*. Vol ii. t. d. 104.

Beunydd, megys yn nydd No, 227
Fân i ioli NAF yno.

Y CATERI, coed tirion, fr, tewfrig,¹
Wrth ffrwd hyfryd afon ;
A gwigoedd uwch llyn ac eigion,
Nawdd a roddent i DDERWYDDON : 232
Torfoedd o gangeni tîrfion,
Hir, a'u celent hwy rhag gâlon :
Caent le, ail MAMRE, 'n MON i addoli,²
A llwyni dillynion ; 236
Ac ALLAWR yn mhob celli, o gareg,
Yn gorwedd ar feini ;
Ac yn gylch o'i hamgylch hi,
Ceryg o daldra cawri : 240
Nid temlau muriau mawrwyeh,
Llon, clws, â thyllau llawn clych ;

¹ CATERI, cawrdderi ; deri mwyaf ac uchaf eu maintioli, a'r praffaf a'r hwyaf eu cangenau.

Yn ol barn y diweddar byglod a'r enwawg y Doethawr W. O. Pughe, nid oes i ni le i gasglu y byddai y DERWYDDON, pan yn eu rhwysg a'u llwyddiant, yn cadw a chynnal eu cyfarfodydd mewn llwyni o goed, ond ar wastadedd noeth eangfawr ; ac yna, gwedi hyny, yn ol fâl y byddai eu hawdurdawd yn lleihau, a'u herlidwyr yn cynnyddu, aent, ac a ymgynnullent ar lechwedd bryn, neu fan uchel, lle y gallent hwy weled o dygwyddai neb gelyniaethawl iddynt gyrchu tuag atynt gyda bwriad i'w hafloynyddu ; a thrwy eu gweled o hirbell y gallent hwy gael amser i ymwasgaru, pob un i'w gartref ; ac yna, ar ol hyny, yn mhen amser, er mwyn cael mwy o ddiogelwech oddi wrth ymruthriad gelynyon arnynt, ymgiliasant i wigoedd a dyrysni coed. Ac yn olaf oll ciliasant i Ynys MON, lle y buont yn hir yn flodeuawg, ac y cawsant achles gled, hyd nes ymosawd o filwyr Rhufain arnynt, a'u lladd, yr hyn beth a ddygwyddodd yn yr 61 flwyddyn o oedran Crist.

² MAMRE. Gwel Gen. xiii. 8.

Ac o'r nenoedd lampoedd lu,	243
Lliw arian yn llueru.	
Eu teml hwy oedd y byd hwn,	
Ar noeth; yr awyr ei nèn,	
A'i lampau, golau nid gwàn,	
Oedd y LLOEB, a'r SŒR heirdd llon.	243

III.

Ar nos oer, a'r LLOEB yn llawn, ¹	
Llygorn y tywyll eigiawn,	
Mi syllwn; gwelwn ar g'oedd.	
Gwynion fentyll ar gannoedd	252
Craffwn; mi welwn heb wall	
Firain olygfa arall;—	
Wiwglwys gyllell careglafn,	
A chryman, o lydan lafn,	256
Aur yn llaw'r ARCHDDERWYDD,	
Eilun serch, yn ei lawn swydd,	
Llydan ei fantell ydoedd,	
YN FAIN GLAIN ei fwnwgl oedd,	260
A gwerin llawer goror,	
Beunydd o fynydd i fôr,	

¹ Gellir barnu oddi wrth yr hyn a ddywed Tacitus, (Gwel Nod 1. t. d. 5, am y gwragedd, ar ddyfodiad y Rhufeiniaid, yn cariau flaglau i blith y milwyr, mai yn y nos, ac nid yn y dydd y tiriodd y milwyr i Ynys MON. O herwydd hyn, darlunir y DERWYDDON, yn yr AWDL, yn aberthu yn y nos; a hyn y groes i'w harfer cyffredin. Gyda golwg cael cynnorthwy oddi uchod yn erbyn eu gelynion y gwnaent hyn; a chyflawnhâi ymgyrch disymwth y Rhufeiniaid y weithred. Ond pan sehtant i aberthu, gwelir iddynt hwy gael eu brawychu gan amrai arwyddion dychrynlyd; ac yn enwedig felly pan welsant aflonyddwch dau darw yr aberth, a chlywed eu breffadau. Yr hyn beth a gyfrifid ganddynt hwy, yn gystal â chan y Groegiaid ac eraill genhedloedd, yn arwydd yn daroganu aflwyddiant mawr.

A welwn mewn chwerw alar ;	263
Du eu gwisg cerddediad gwâr,	
Heb rif yn dylif trwy'r ardaloedd,	
Yn toi y meusydd yn finteioedd ;	
Mil o ugeiniau, mil o gannoedd,	
Neu fal y ser yn fil o filoedd.	268
O ddadwrdd ! un wedd ydynt, trwy'r oror,	
A dygyfor môr o flaen mawrwynt,	
A thân y coelcerthi oedd ¹	
Yn hwfian hyd y nefoedd,	272
O'r bryniau, i'r fry wybrenoedd, y fflemynt	
Y ffamiau yn frithgylchoedd.	
Yr awr gerth i aberthu	
Hwn oedd. Ac awgrymai'n ddu,	276
Ac awr fwy bwysfawr ni bu,	
Na noswaith yn dynesu.	
Gobrudd golwg y wybren,	
Lliw oer wawr yn toi'r LLOER wên ;	280
Melyn-ysgafn gymylau,	
Lleufer eu hoen yn llwfrhau,	
Ac o'r llwyni sî, a swyn syn,	
Hirgroch. Yna daiargryn,	284
A MENAI 'n drai a droiodd,	
A phell o'i gwely y ffodd.	

¹ COELCERTHI, arferid cynneu Coelcerthi i rybyddiau y wlad, yn amser perygl, mál y byddai i'r trigolion fod ar eu gwyladwriaeth. Darlunir yn yr AWDL i'r DERWYDDON wneuthur felly. Yr oedd hi hefyd yn arfer ac yn ddefawd yn eu plith i gynneu Coelcerthi y nos o flaen dydd eu gwyliau arbenig. Ond Coelcerthi oedd y rhai hyn y arwydd o'u diolchgarwch am y tymhorau.

Aeth i feirdd y noswaith oedd, 287
 Adeg eu dinystr ydoedd ;
 Od aent ger cyssegr dderwen,
 Llais hir prudd lleisiau o'r pren.
 Oer rybydd a ro'i 'r aberth,
 A chwith y rhybydd a cherth. 292
 Rho'i 'r ddau darw gwyn, laethwyn liw,
 Uchelfref, bref groch chwilfriw ;
 A llament, neidient yn ol,
 Gwyrthiawg wedd, yn eu gwrthol. 296

Ac ar hyn mewn dychryn dwys,
 A myrdd mewn ofnau mawrddwys,
 Gosteg a roed ; gosteg oedd,
 Chwedy'n mawr edrych ydoedd, 300

I fyny y codid gwèn FANER fawr,
 I foriaw yn yr uchder ;
 Ei dyfais oedd, nid ofer,
 Ddig SARFF rhwng deuddeg o ser.¹ 304
 Ei chefn oedd laswyn a chôch,
 A'i llygaid yn dân lliwgôch.
 A'r llu mad mewn gwisgiad gwyn,
 Hyd olwg, yn ei dilyn, 308

¹ Yr oedd y SARFF mewn bri a sylw mawr gan y DERWYDDON, a chan lawer hefyd o genhedloedd y cynoesoedd. Ac o herwydd ei bod hi yn yn bwrw ymaith ei chroen yn flyneddawl, a thrwy hyn yn troi megys i ieuencid eilwaith, edrychid arni fel yn arwydd cymmhwys o gylchdrôadau y rhôd ; ac o anfarwoldeb. Mynych y gwelir ei llun ar allorau. Ac yma, yn ol dyohymmyg y bardd, gosodir ei llun hi ar Faner wên, ac o'i chylich ddeuddeg arwydd Caernidydd, neu y *Zodiac*.

O wedd orhoff! at DDERWEN	309
Oedd dâl, gwiw hardd; deiliawg, hen.	
A'r ARCHDDERWYDD	
Am Uchelwydd yma chwiliai; ¹	312
Ato'n ebrwydd,	
Ddyn cyfarwydd, iawn cyfeiriai.	
Ei goflaid torai 'n gyflym	
O'r llwyn, â'i gryman aur llym,	316
A'r osglau, brigau heirdd brwys,	
Canaid gynfas a'u cynnwys.	
Yn hylwydd, a rhwydd, ar hyn,	
Ar dalar chwariai 'r delyn	320
Gân fywiawg; a'r DATGEINIAID,	
Aml gylch, yn moli a gaid.	

Sylwer yma, mai ar lun Sarff y gosodid y MEINI GWYNION (a elwid hefyd Meini Cynghrair, a Meini Crair) i sefyll yn gyferbyn â'u gilydd yn ddwy res; a'r llwybr rhyngddynt oedd yn arwain i mewn i'r Cylch Cynghrair; o mewn i'r hwn Gylch yr oedd y Maen Gorsedd, neu y Gromlech.

¹ UCHELWYDD, uchelawr, uchelfa, uchelfal, uchelfar, pren awyr: *mistletoe*.

Arferai y DERWYDDON yr Uchelwydd yn eu haberthan; yn fwyaf onwedig ar ALBAN ARTHAN, ac ALBAN HEPIN. Ar ALBAN HEPIN aberthent i gydnabod eu diolchgarwch i DDUW am ddyfodiad yr Haf. Ac ar ALBAN ARTHAN diolchent iddo am yr amryw wahanawl fendithion daioni a roddasai Efe i'r tir yr amser aeth heibio; ac a erfynient arno i ganiatáu bod i'r cyfryw, a'r cyffelyb, fendithion goroni y fwyddyn newydd.

Gwahoddid holl drigolion y wlad i ddyfod i gadw y gwylian arbenigawl hyn. Yna, ar ol i'r cynulleidfaoedd ymgasglu ynghyd, ffurfid gorymdaith; ac aent, a'r DERWYDDON yn eu blaenori, i chwiliaw am yr Uchelwydd. Ac yna, gwedi caiffael o honynt y dderwen y tyfai yr Uchelwydd arni, esgynai yr Archdderwydd, neu ynte Dderwydd i fyny i'r goeden, â chryman aur yn ei law, i'w dori i lawr, ac o dan y goeden delid cyntaf wen i'w dderbyn.

Yna, yn mhen byr enyd, 323
 “ Y BEIRDD A DEWINION BYD,”
 Mewn mentyll yn sefyll sydd
 O flaen y teirw aflonydd.
 O'r diwedd gyda'i wedd wiw,
 A'i wynllaes wallt arianlliw, 328
 E ddöai 'r ARCHDDERWYDD
 Hen, gwàn. Yna 'n ein gŵydd
 Dyrchai ei lais, dyrchai lesg
 Ddwylaw, mewn gweddi ddilesg. 332

Oedd hardd ef ! a'r weddi hon
 Yn ddifrif aeth o'i ddwyfron
 Yn hyf, yn wylaidd hefyd,
 At LYWYDD, BARNYDD y byd. 336

“ Pe yn llawn, màl y môr, uniawn UNAD !
 Fyddai ein genau o nefddawn ganiad ;

Mae yr Uchelwydd yn tori allan i fodeuaw yn Alban Hefin ; ac yn Alban Arthan ceir y gronynau gwedi addfedu, a chyfrifid hwy yn rhinweddawl fâl meddyginiaeth.

“ Gwiwbarch a dalai y Derwyddon gynt i'r llysieuwyddyn hwn, nid yn unig o ran y rhinweddau lliosawg a nefolaidd, a meddyginiaethawl, a dybiasant iddo feddiannu, gan ei enwi yn Holliach, ac iddo iacháu pob clefyd, ar ddyw ac anifail ; eithr hefyd mewn dull crefyddawl, gan iddynt dybiaw ei ddisgyn o'r nef, a chan nad ydyw ond megys angen yn unig, ac nad oes iddo gyff i'w gynnal, na gwraidd ddaiarawl, meddylwyd fod mawr debygoliaeth rhyngddo a'r “ Blaguryn,” sef y “ BLAGURYN CYFIAWN,” a ragddywedasad yn ei gylch gan y Prophwydi, yr hwn oedd “ ddymuniaid yr holl bobloedd.”—*Welsh Botany*, by Hugh Davies, F.L.S., t. d. 242.

Yr oedd y diweddar Dr. Coplestone, Esgob Ilandaf, meddynt, yn anghredu fod yr Uchelwydd yn tyfu ar dderwen, hyd nes i'r sawl a ddadleuent ág ef ar y pen hwn gael o hyd i Uchelwydd, yn ei Esgob-aeth, yu tyfu ar dderwen, a'i ddangaws iddo.

A'n tafodau, màl ei ddnau, yn dwnad ; 341
 A'n gwefusau 'n fawl o nefawl nwyfiad ;
 A'n golwg ar ein galwad, màl yr HAUL
 Wynebpryd araul, didraul belydriad ;
 A'n dwylaw ar led, ar fryn a dolydd,
 Màl yr ERYR fry 'n yr awyr fröydd ; 344
 A'n traed yn barod, màl iyrchod i wýdd,
 Hyn ni ddigonai ddim, ddifai DDOFYDD !
 I roi awl i REOLYDD tir a môr,
 Tragwyddawl IOR ! ein POB ! a'n PERYDD ! 345
 O DDUW ! Ti a weddiwn,
 Boed gwerth yn ein haberth hwn."

Tawai, parotöai 'r tân,
 Ei gyllell dygai allan ; 351
 Dywedai, edrychai 'n drwm,
 " Deffraw, Gyllell ! rhaid offrwm ;
 ERYR o Rufain, oer ei araith,
 Ysig lafar, gwaedd am ysglyfaeth ; 352
 Ai hon yw'r noson teimlaf iasaeth,
 A roddo ddiwedd i DDERWYDDIAETH ?"

Ah ! rhy wir, gwir heb air gau,
 Gwir ? Ah ! rhy wir ei eiriau. 360
 O waith ffromwyllt ! cyn byth offrymu,
 Gwae oer irad, meirch yn gweryru ;
 Marchawg, llurygawg, wyr yn gyru : 363
 A chyrrn, Ow gynhwrf ! yn chwyrrn ganu ;
 A thraw, yn llywiaw 'r lluoedd,
 ERYR yn yr awyr oedd.

DINYSTR Y DERWYDDON YN MON.	25
MENAI ni rwystrai mo'nynt,	367
Oedd hesp, rhwyddhâodd eu hynt.	
Ei gwely croesai 'r gâlon	
A bloeddiadau llefau llon.	
I FON yn hyfion aent hwy,	
A thuthient drwy BORTHAETHWY. ¹	372
Llifent, màl erchyll afon,	
A swn hŷf, drwy 'r noson hon ;	
Ac mal afon aflonydd,	
Ddi gaeth, yn dadwreiddiau gwŷdd ;	376
O'r wlad y gelyn frad fron	
Diwreiddiai y DERWYDDON	
O'r ddaiar gron ddirgrynai	
Môr chwith, o dan eu meirch chwai,	380
Wrth aruthr a brwd ruthoraw,	
A maith rwyg yma a thraw ;	
Nes oedd trwy 'r ynys waeddi,	
A dychryn; a chryn, a chri.	384
Rhuthrai 'r milwyr, gwyr âg eirf,	
Ow dywydd ! ar rai dieirf ;	
A'u cleddyfau 'n gwau yn y gwynt,	
DDERWYDDON lladd yr oeddylt.	388
DDERWYDDON doethion mewn dysg,	
Noddwyr, colofnau addysg !	

¹ Y mae yn draddodiad hyd heddyw mai trwy Borthaethwy y tiriodd y Rhufeiniaid i FON. Y rhai hyn, tebygwn, oeddent y Marchwyr. Ac nid anhygoel ydyw ddarfod i'r gwyr traed groesi Porthaml mewn badau ; a thiriaw i'r lle a elwir Pant yr Ygraf yn mhlwyf Llanidan. " Cytunir yn gyffredinawl i'r amgylchiad hyn " [sef, dymchweliad y DERWYDDON ;] " gymmeryd lle yn nghymydogoeth *Llanidan* ; ac y mae etto gerllaw amryw weddillion Derwyddawl, megys Cromlechau, a Meini Hirion iddeu gweled ; ac y mae yn ddilys genyf ddarfod i lawer eraill gael eu dinystriaw."—*Hanes Cymru*, t. d. 82.

- Yn cwynfan, griddfan yn groch, 391
 A'u twygau yn waed dugoch ;
 A môr o waed y meirw oedd,
 Mâl y lli, 'n llenwi 'n llynoedd ;
 Moroedd oedd gwaed y meirwon,
 Cochfaes oedd pob maes yn Mon. 396
 Dydd trwm ! i'r gwaed nid oedd trai,
 O'i weled Mon a wylai.
- Yna i'r llawr bwrw 'r allorau,¹
 Oni oeddynt yn friw garneddau ; 400
 Llyna weithion y llwyni hwythau
 Ar hyn, O ! 'r gelyn yn dân golau.
- Rhag y gâlön, merched, meibion,
 Y trigolion trwy eu gilydd, 404
 Oedd yn gwibiaw, gwaeddi, bloeddiaw,
 Rhedeg, gwylltiaw 'r hyd y gelltydd.
 Eraill hwythau oedd mewn ciliau,
 Neu ar greigiau, wyr a gwragedd ; 408
 Mân dylwythau, mewn gwyllt ofnau,
 Oer galonau ! o'r gelanedd.
- Er hyn y gelyn a gaf
 Yn eu gwrth ar eu gwarthaf. 412
 Ni folaf y rhyfelwyr,
 Och ALON ! heb galon gwyr.

¹ "Gosodwyd llu gwarcheidwadawl, yn ol hanes Tacitus, ar y gorchfygedig, a thorwyd i lawr y llwyni ag oeddent yn gyssegredig iddeu coel grefydd ffyrnig a chreulawn."—*Hanes Cymru, t. d.* 82.

Bleiddiaid yn lladd defaid ýnt; o barth bâr, 409
Eryrod ar wâr adar ydynt.

Llusgid, Och ! teflid i'r tân, yn grugiau,¹
Gwagedd tyner egwan ;
Yr un modd plant gwirion mân,
Yn llesg dorf, i'r un llosgdan. 414

Bore a ddaeth, a'r wybr oedd wech,
Eglurwawr, a dysglaerwech ;
A'r HAUL, bryd araul eirian,
Yn lloni dydd bellen dân ; 418

Ond, Ow ! môr groes oedd daiar,
Prudd-deb dros ei gwyneb gwâr.
Pwy heb boen ? du yw pob pau,
Du ing ! yn meddiant angau. 422

Wylai 'r AWEN uwch ben bardd,
Wareiddfwyn, uwch DERWYDDFARDD ;
Yr olaf fardd ar ael ei fedd oedd hwn,
Tra 'r oedd hi 'n ei goledd 426
Gwenai ; a hunai mewn hedd
O'i gafael i'r dwfn geufedd.

IV.

PAULINUS SUETONIUS ! ti
'N ewyllysgar fu 'n lladd, llosgi ; 430
O'i lenwi â chreulonedd,
Ei glod a gollodd dy gledd.

¹ Y tânau y cyfeiria Tacitus atynt, pan ddywed, " dymchwelasant y rhai a safent ar eu ffordd, ac a'u bwriasant idd eu tânau eu hunain," oeddent yn ol tyb Awdwr yr AWDL hon, y Coelcerthi y sonir am dannt yn *Sylwedd* t. d. 20.

Yna i dy waewffon daeth	433
Taliad o anghlod helaeth.	
Yn mhob mán lleddit pob bardd,	
Y pryfyn mál y PRIFARDD.	
Ond o'u gwaed y caed teg hil,	
Hapus anfarwawl eppil.	438
Eu hiaith hwynt yw ein iaith ni,	
Eu GORSEDD ac eu GWERSI.	
Er camrwysg ar dir CYMBU,	
Llwydd fyrdd, a'r lladd a fu ;	442
Er camrwysg ar dir CYMBU,	
Ein gwlad ; er RHUFEINIG lu ;	
Canfod ym hil ein CYNFEIRDD	
Heddyw yn fyw, ac yn feirdd !	446
Tra gwehilion, FON ! sydd yn fyw, 'n rhif wàn,	
O'r RHUFEINIAID heddyw ;	
Aeth eu dydd, eu hiaith nid yw, ¹	
AMHERAWDWR ? marw ydyw. ²	450

¹“ Y mae'r iaith y llefarodd CICERO, ac y mydrodd VIRGIL ynddi, yn ddiieithr ar lenydd y Tyber.”—*Ceinion Alun*, t. d. 231.

²“ Gwnaeth y Gothiaid orsedd y deuddeg CÆSAR yn goelcerth. Yr oedd y Cymry yn genedl, pan oedd y Cenhedloedd a enwyd [sef, Chaldeaidd, yr Assyriaidd, y Groegiaidd, y Rhufeiniaidd a'r Carthaginaidd,] yn mawredd eu rhwysg ; ac y maent yn genedl eto.”—*Ceinion Alun*, t. d. 235.

A W D L .

IOB.

CYSTUDDIAU—AMYNEDD—AC ADFERIAD IOB.

Chwi a glywsoch am amynedd Iob, ac a welsoch ddiwedd yr Arglwydd: oblegid tosturiof iawn yw'r Arglwydd, a thrugarog.—ST. IAGO.

Vir fortis cum mala fortuna compositus.—SENeca.

Ymdrechriad gwr dewr ag anffawd.

Mewn gwlad gain o'r Dwyrain dir,
Fireindeg hoffaf randir,
Llawn porfeydd, dolydd da,
Goreufan gwiw ARAFIA, 4
Y trigai Iob. Gwr tiriawg oedd; golud
Gwlad Uz a biefoedd;
Y llawnaf lys, mèn llon floedd, 8
Main naddiant rhwng mynyddoedd,
Oedd ei lys ar ddôl lwyswyllt,
Is creigiau ogofau gwyllt.

Gwr uniawn oedd, cyfiawn, call,
Y Duw Iob, ac nid arall, 12
A addolai ef yn ddilys
A chalon lon yn ei lys.

Nycha! drwg ni chai drigaw 15
O mewn ei lys, dreflys draw.

Aberthai hoff ebyrth hedd
I Dduw beunydd ddiiddiwedd :
Tew hyrddod, bychod harddwych ;
Wyn gwâr heblaw ychain gwych, 20
Yn deilwng rhag dialedd, neu goddiant,
O digwyddai camwedd ;
Os aml ei weddi symledd,
Oedd o hyd am nawdd a hedd. 24

Duw a'i bendigai â da byw 'n degwch,
Ddeadelloedd filoedd yn ofalwch ;
Llunier in' olwg, llonai 'r anialwch ;
A rhoddid iddo bob rhyw ddedwyddwch, 28
A'i dylwyth oedd fyd o elwch, ail nef ;
Ac yn ei haddef y gwenai heddwch.

A gwr mdr oludawg oedd,
Yn y DWYRAIN, o diroedd ; 32
A llwyddid ei hoff haddef,
O ddydd i ddydd, a'i dda ef ;
Mal nad ydoedd
Yn y gwladoedd un goludawg 36
Gwell ei gyflwr ;
Na dau wladwr dylÿedawg
Yn Uz, CHESED, BUZ, DEDAN ;
Neu un mwy gwr yn un mân 40
Is awyr. Ni welodd SUAH ei ail ;

Ni welwyd yn TEMA ; 42
 Na chwaith neb yn nhir SEBA,
 Ei ail o ddyn.
 Aml ei dda !

Gynnau 'n yr waun draw yr oedd,
 Yn y tywawd, fynteioedd
 O gamelod tew glew glân 48
 Yn chware 'n orwych eirian ;
 A gweision ddynion, bob ddau,
 Rhai hwylus ar eu holau.

Asynod mewn dewis anial ; gyroedd 52
 Rhagoraf yr ardal ;
 Yn frith oll, rhai 'n fŷr, a thâl,
 Oll yn yroedd llawn arial.

Gwelid draw ar fryn pell golau uchel, 56
 O ychain ugeiniau ;
 Ac y rhawg, cydrhwng creigiau,
 Eifr heirdd llon gwylltion yn gwau.

A blithawg dda yn tryblethu 'n ddilesg 69
 Trwy ddolydd : oddeutu
 Heb rif yn pori, brefu ;
 Neu mewn hedd gorwedd yn gu.

A maith rif yma a thraw o ddefaid 64
 Yn ddiotal grwydraw

Dyffryn a bryn heb ddim braw ; 66
 A'u hŵyn o'u hol yn hwyliaw ;
 A'u bugeiliaid heb gilwg,
 Oriawg drem, i'w cadw rhag drwg.

Ah ! cyfoethawg enwawg wr,
 Da a goludawg wladwr.
 Miloedd o ddefaid a chamelod iach, 72
 Ychain ac asynod
 Gannoedd, a bioedd ; nes bod
 O honaw 'n berthawg hynod.

Darfu hyn beri dirfawr 76
 Sôn am Iob ; o synu mawr.

Daethai pawb i'w gymdeithas, heb unon
 Oedd benaf mewn urddas ;
 Neb fwy drwy y dref ; a'i dras 80

Oedd enwawg yn y ddinas :
 A'i fyd o hyd oedd un haf
 Byd a bywyd heb anaf ;
 A'i flynyddoedd 84

Oedd yn fisoedd ; ni fuasai
 Dydd ond awr ; môr ddedwydd âi
 Y drylon oes a dreiliai.

A Duw ei Hun yn cadw o hyd iddaw 88
 Ddedwyddwch a gwynfyd.
 Patriarch llawn o barch byd
 A'i redfa oedd heb gur adfyd.

O ddedwydd, gwir ddedwydd ddyn ! 92
 Galar na phoen na gelyn

- Iddo nid oes. O ddyn dewisaf Duw ! 94
 Diau mai 'r dedwyddaf
 O ddyn oedd. Bu i DDUW NAF
 Ei garu yn rhagoraf
 Gwenai arnaw
 I'w gysuraw
 Yn llawn alaw, oll yn wiwlan, 100
 Ffrwythawg feusydd
 Aeron goedydd,
 Llawn afonydd, llonaf anian.
- Deuai iddaw yn dawel 104
 O'r main ymenyn a'r mel ;
 A'r creigiau hyd rywiau'r allt
 Olew tew a wnaent dywallt.
- A'i blas, y gwr urddasawl, 108
 Oedd fawr odiaeth ; helaeth hawl.
 Gwemp yr olwg o'i gwmpas,
 O fron i fron daiar fras ;
 A hardd iawn ei erddi oedd, 112
 Y llynau a'r gwinllanoedd ;
 A'r pinwydd, goedydd gwiwdeg,
 A'r meusydd yd, dolydd teg.
 A thrwy y wlad ddiadwyth 116
 Cnau oedd ; a phrenau pob ffrwyth ;
 Llwyni o goed yn llawn gwên,
 A'u nôd yn meru 'n addien ;
 Ac adar mwyn o'r coedydd, 120
 Llu 'n y dail yn lloni dydd.

Pan âi o'i blas	122
Tua 'r ddinas	
A'i wisg urddas, a'i osgorddion ;	124
Rhoddi groesaw,	
Gwrhau iddaw ;	
Rhoi llaw iddaw o'r llywyddion.	
Ciliai 'r llanciau o'i olwg ;	128
O fewn i'r dref ofnai 'r drwg.	
Pendefigion, dynion doeth	
A chefn y wlad a'i chyfoeth,	
O'i ddeutu yn cyrchu caid	132
Yn araf ; a'r henuriaid ;	
Pob un o'i fodd, pawb yn fud,	
Gan wrandaw 'n ddystaw astud ;	
Ac yntau â'r genau 'n gall	136
Dda a ddangosai ddeall.	
Haelfwyn wr ! oedd uchelfawr	
Yn eu mysg, ail brenin mawr.	
Y glust a'i clywai pob clod	140
A rânai i'r gwr hynod ;	
A'r llygaid a'i gwelai o galon	
A'i bendigai ; o'i gwaelawd eigion.	
Cariai fwyd i'r newynawg gwirion	144
Rhoi gynhes wisg i'r noeth a'r gweinion	
Dyn ar ddarfod am dano,	
Aml ei fawl, a'i molai fo.	

I ddall diwall lygad oedd,
 I adyn cloff troed ydoedd.
 Oedd hefyd i amddifad
 Bob amser yn dyner dad ;
 Ac i'r weddw 'r oedd yn dŵr da,
 Hoff enfawr amddiffynfa. 152

Tyfai iddo blant nfydd,
 Cywir oll, caredig, rhydd ;
 Meibion tirion, 156
 Merched mwynion,
 O rwydd galon ; hardd i'w gweled ;
 Llawn daioni ;—
 Goreu 'n gweini ar a aned 160

Eu gilydd o bur galon a garent
 A'u geiriau oedd dirion ;
 A chaid hwy â llygad llon—
 Af oll i'w holl gyfeillion. 164

A gwelid hwy yn nhai eu gilydd
 Heb un yn groes yn gwledda beunydd ;
 A'u tad hael fwriad a'i leferydd
 Drostynt gartref i'r nef yn ufydd. 168
 Ond hwy 'n nhŷ eu brawd hynaf, yma 'n glyd,
 Mewn gwledd o'r lawenaf
 Un dydd ; rhoi newydd a wnafl
 Och, rhusaf ! yr echrysaf. 172

Cenad irad didaring,
 A gwedd wyllt â gwaedd o ing ;

Yn ddioed fuan droediaw 175
 Tua 'r llys mewn brys a braw ;
 Yn ei rwysg i fewn yr âi
 O fewn am Iob gofynai.
 Yna o'i ol, dan wylaw,
 Arall wr yn dod gerllaw ; 180
 Dau eilwaith yn eu dilyn,
 Trydydd a phedwerydd dyn.

Och ! drwg newydd beunydd a dderbyniwyd :
 “ Dy weision gan gledd a'r melt a yswyd ! ” 184
 Rhybydd ar rybydd :—“ Dy dda a reibiwyd ! ”
 “ A'th blant,” O'i aflwyddiant ef ! “ a laddwyd ! ”
 Ar lawr mewn galar y gwelwyd yntau ;
 A dagrau ruddiau iddo a roddwyd. 188

Wele ei wyneb pan oedd lawenwch,
 Iddo drosto yn troi i dristwch ;
 Ymaith ar unwaith â'i dirionwch,
 A'i hedd, a'i fawredd, a'i ddifyrwrch ! 192

Gwel ei dŵyg yn un rhwygiad ;
 Yma todda calon tad.
 Gwel hefyd mên ei galon,
 Mên ei serch, sef monwes Ion ; 196
 Lle tawdd, lle tywallt weddi :—
 “ Lles dyn yw 'th ewyllys Di.”

Yn ing, Iob ei angor oedd ;
 A'i dwr ymysg blinderoedd. 200

Ni fu odid mwy profiadon i neb 201
 O gydnabod dynion ;
 Tawlai hwnt y dymhestl hon
 Blant o'i feddiant, a'i foddion. 204

Gwae ! lwyttet yw ! gwel eto
 Ergyd llymach, trymach tro ;
 O'i gernau i'w draed yn gornwyd y mae
 Gwae ar ol gwae iddo y gwewyd ! 208

O ! am ddawn hylawn ; a hawdd
 Medru ar ddoeth ymadrawdd,
 A deall i roi allan
 Hyawdl-gerdd nid odlau gwàn 212
 Am Iob. Efe o'm maboed
 Yn wir a garwn erioed.
 Gwnawn son yn dirion heb daw,
 Un dinam byth am danaw ; 216
 A'i lwyddiant, a'r plant, pob helyntion byd,
 Ei barchu i dylodion ;
 Y mawr les a gwên mor lôn,
 A eiddunai i ddynion. 220

Yna wylwn gan alar wrth ddarllen
 Hanes amgen siomgar ;
 Adfyd, lle gwynfyd ; wr gwâr !
 Heb dŷ ond gwyneb daiar. 224

Ah wedd ! eistedd yn ddystaw,
 Yn llwm ; a'i ben ar un llaw

A chalon drom ar y domen, yn glaf; 227
 Yn glwyfus méwn angen;
 A'i gnawd gwael yn gnwd o gèn,
 A rhwygiad llawer agen.

Pwy fwy ei gur!
 Poen difesur! 232
 Och arw ddolur! chwerw ddialedd!
 Drwg ei helynt,
 Haul a phoethwynt;
 A llym oerwynt yn lle mawredd, 236
 A chyfoeth. Och ei ofid!
 Gwÿn crown llosg yn croni lliid.

Ah! 'n ei gystudd prudd o bob rhyw a gradd,
 Ei farn a'i gred ydyw, 240
 O lladder mai gwell heddyw,
 O ran ei boen, farw no byw.

Mae 'n salw frwnt, mewn isel fri;
 A'i adael gwneir i edwi 244
 Ar lawr yn watwar i lu;
 A'i wraig ef yn ei regu.
 Heblaw hi 'n yr helbul hallt,
 (Diwyd ddagrau a dywallt) 248
 Llyna lais cyfeillion lu,
 Yn gwbl oll yn ei gablu.
 Derchafai ei dri chyfaill
 I'r Nef eu llef fal y llail; 252

Rhesyment, haerent o hyd, 253
 Mai ei fai drwy gam-fywyd
 Rywfodd, neu ddrwg arofyn
 A'i rhoes yn y cyflwr hyn. 256
 A hwynt i ddyn a wnaent ddal
 I Dduw felly ei ddial.

O! ELIPHAZ ei gâr hael hoffaf
 Ni eiriach air o'i eiriau chwerwaf; 260
 Allan myn ei acan o'r miniocaf;
 Ac Iob yntau 'n y poenau penaf.

Yna BILDAD, yn uniawn, yn medru
 'R un ymadrawdd digllawn; 264
 Och! a'i air ef oedd chwerw iawn;
 Dygai ofid hyd eigiawn
 Calon Iob dirion. Bellach nid oes fodd
 Y goddef fwy o loes; 268
 Neud ei ran trymder einioes,
 Ebwch cryf a beichiau croes.

CWYNED! nid yw ond cynnar;
 Caiff glwyf mwy; ceiff fwy o fâr; 272
 Chwaneg o lid,
 Dig a gofid; gwae ac afar.

Wele ZOPHAR o flaen ei olwg
 Yn ymliw mai rhyw fai anamlwg 276
 A ddaeth a'r driniaeth a'r drwg. Ato 'n sŷn
 Tafiai ar hyn golyn ei gilwg.

Y gwr lleŷg, nid oes gerllaw 279
Neb athrist, neu 'n drist drostaw !

Ah ! gweled yn galed galon ei hen
Ei hynaif gymdeithion,
Tra niwl, yn troi yn alon,
Oedd anfad frathiad i'w fron ; 284
Heb ail o'i holl helbulon
I weithred hacred a hon.

Ond er iddynt fal hyn ei daraw 'n llym,
Er lladd ar, a gwawdiaw 288
'N drwm, y dyn llwm ar bob llaw ;
A ffyrnig graffu arnaw ;
Er ei boeni, a'i brofi, gan bryfed
Yn crafu a garddu wrth ymgerdded ; 292
Ow, ei gerydd ! a'i gnawd yn agored,
A'i esgyrn gwael, ys gwir hyn, i'w gweled !
Tan ei ddial tew ni ddywed ddrygair ;
Cablair, na chroesair, er ei echrysed. 296

Tra duai 'r enawd trwy dywydd ; a llôsgi
O'r holl esgyrn beunydd ;
I'w niwed rhyw iaith newydd,
A chas air o'i gyleh y sydd. 300

O drachas pob edrychwyr,
Yn awr y gwae 'n blinaw 'r gwr.
Yma â'i reg yr henwr gwàn ;
Yna acw 'r plant yn mocian. 304

IOB.	41
Gwr ydoedd un gywirdeb a NOAH ;	305
Un awydd am burdeb	
A DANIEL, lanbryd wyneb ;	
Eto mewn poen mwy no neb ;	308
A'i ruddiau 'n gŵysau di gél, trwy alar ;	
Trwy wylaw dwys dirgel ;	
A phob gwae. A phawb a'i gwel	
Yn ochi arnaw 'n uchel.	312
Pa fodd dygwyddodd i'r gwr da rinwedd,	
Mor druaned gyflwr ?	
Oedd egwan, heb feddygwr ;	
Heb wely, na thŷ, na thŵr.	316
Y Cynneiliawdr, Llywiawdr, holl luoedd	
Di ri' nifer daiar a nefoedd ;	
Ah! iddo Ef dydd a oedd i'w feibion,	
Angelion gloywon, a'u trigleoedd.	320
I 'mddangaws heb draws, na drwg,	
Yn wiwlu yn ei olwg.	
Mewn uchel rwysg, angelrith ;	
Llyna 'r oedd, yn llawn o rith,	324
SATAN yn eu plith chwith chwant ;	
Neur drych o anwar drachwant !	
O wir fâr ei arfer oedd,	
Yn y lle o flaen lluoedd ;	328
Cyhuddaw, beiaw 'n ddibaid ;	
Un awydd i wneyd niwaid.	
Y tro hwn anturiai hau	
Ddu odiaeth gyhuddiadau	332

Yn erbyn Iob ; gan orbwyll	333
Yn gyhoedd nad oedd heb dwyll ;	
Eithr yn wir rhagrithiaw 'r oedd	
I Dduw er mwyn ei ddäoedd.	336
Dywedai, haerai yn hyf,	
Gwn am Iob, diau genyf ;	
Pei drwg, sef gwg Duw a gai,	
Duw a'i waith a felldithiai.	340
Yn uniawn yn ei wyneb,	
Trwy wŷn, nis tawai er neb.	
Dyna hër ! gweler yn y golau	
Hen anian Satan, a'i hoenynau ;	344
O doriad calon dwyn blinderau	
Ar un oedd gymmaint ei rinweddu.	
Mynych fynych adgofiaf innau,	
Un achlysur ei antur yntau ;	348
Pan oedd ddedwydd heb boenyddiadau,	
Yn llon dirion, mewn llawn mwynderau ;	
Yn profi daioni Duw ei Hunan	
Yn hwylus felus yn y nef wiwlan ;	352
Mòr lanbryd oedd hefyd, ac mòr ddifan,	
Heb un nam i'w flinaw ; heb un mefl anian :	
Nid oedd o'r lluoedd dyddan un Angel	
Nac Archangel, mwy uchel ei achan ;	356
Ac uchel fâl Angel oedd,	
A llyw yn mysg y lluoedd.	
Ond ef yn y nef fu 'n anufydd,	
Gyrai i wadu ei Greawdydd ;	360

Ond Iob dihoen ar ei boen beunydd,	361
Oedd un afael ; i'w Dduw yn ufydd ;	
Nes ytoedd syndawd i Satan weled	
A'i olwg ei hunan,	364
Er ei drin, er ei droi 'n wàn,	
Drwy ei waith, yn gwbl druan ;	
Er haint a'r cymmaint cur,	
A fuasai 'n ddifedur ;	368
Fod ei ffydd beunydd yn bod,	
Dda emyn, mdr ddiymmod ;	
A'i hyder, er llymder llid,	
Yn Nuw mdr ddigynfnewid.	372

Eiddigus ddadl o'i flaen a ddygwyd,	
Ac hon eilwaith hir y cynnaliwyd ;	
Llwyr o'i herwydd llawer a haerwyd,	
A beiau arno 'n fawr y buwyd,	376
Nes cododd un gwas cadarn,	
Oreu fodd, i roi ei farn ;	
Ennw ei enw ; gwr hael uniawn call,	
Gwr teg hollawl gyfiawn ;	380
Gwr erioed a garai 'r iawn,	
Gwas o urddas o fawrddawn ;	
Rhyfedd amhleidgar hefyd	
Wrth bawb, er araeth y byd.	384
A medr hyddysg yr ymadroddai,	
A'r hydr eithaf pob gair a draethai ;	
Ac yna bywiawg iawn y beiai	
Gyfeillion Iob am bob gair a bai.	388

O barth eu barn am Iob wiw ; 389
 A'u hamledd gas a'u hymliw.
 Ond chwai tra llefarai 'r llanc,
 Oedd odrist, crynai 'n ddiranc ; 392
 Gwelai ddwyfawl wawl aml wedd,
 Oriawg eglur, o'r Gogledd ;
 Nes crynu a d'rysu 'n drwm,
 A'i gael yn dafod-gwlwm. 396
 Ar hyn daiar gryn a gwres,
 A lluch tân o bob lloches ;
 A thrinoedd meltt a th'ranau,
 A berw gwynt yn yr wybr gau ; 400
 A chorwyntoedd a'u bloedd blwng,
 Bân, allan yn ymellwng.

Yna dirfawr gawr o'r gwynt, fyw daran !
 Llef Duw Iob o'r corwynt ; 404
 A'r bryniau maith oddaith ynt,
 Rhwygedig creigiau ydynt.

Ofnai Iob ; crynai cÿrau anian,
 Hi a dawdd oll ! llais Duw oedd allan ; 408
 Mwy noeth y llais dros bob man weithian,
 Mâl twrdd bloedd moroedd yn ymwrian :
 Sef Iob oedd yn dangaws ei faran,
 A'i ryfedd fawredd o'r nef eirian ; 412
 Yn ddim cyfeillion Iob oedd yman,
 A throes y tri yn athrist druan.

Dygywyd o'u blaen y Grë 'digaeth, rhifwyd
 Ei rhyfedd waith helaeth ; 416

Daiarawl grëaduriaeth, 417
 Llu gwiw nef, a'r llaw a'u gwnaeth.
 Galwyd o'u blaen ddirgeloedd holl anian ;
 A'u lluniwr, Duw 'r nefoedd ; 420
 Ac mai cyfiawn, uniawn, oedd
 A thradoeth ei weithredoedd.

IOB wael agwedd ar hyn ymblygai,
 O flaen Duw â bron flin y deuai ; 424
 Ei anwybodaeth ni arbedai
 A phwys ei ofid a gyffesai.

A Duw IOB yna o'i dirionwch ar
 Ei eiriau o dristwch ; 428
 A'i codai o'r llai a'r llwch ;
 A'i alar a droi 'n elwch.

Gwir :— Ha wyr ! Gorohoian !
 O leisiau gwiw ! melus gân 432
 O'r awyr. Gorohoian !
 Cerdd wiwlwys engyl glwys glân ;
 Cân felus gorfoleddus lu
 Yn uchel lawenychu ; 436
 O herwydd i Satan haeru yn noeth,
 Y gwnaethai Iob bechu ;
 Ac hyn y maent yn canu
 Y FALL BALCH NID FELLY BU ! 440

Miloedd filoedd ! pob un a fola
 O'r nefoedd luoedd : HALELULIAH !
 Gorfoledd am ddiwedd môr dda ; mewn pryd
 Daw i Iob wynfyd o'i wyw boenfa. 444

- Ho ! gwelaf o hyn argoelion ; buan 445
 Daw Iob o'i helbulon :
 Y dyn llesg, ar air Duw 'n llon,
 Allawr dros ei gyfeillion 448
 A gyfyd : hefyd ar hon
 Yn brysur ychain breision
 A ddyd : hefyd ar eu hol
 Lân hyrddod yn olynol. 452
 A gwiw brydferth aberth oedd
 Y lliaws i Dduw 'r lluoedd.
- Ar ol aberth a thaer eiriolaeth Iob,
 Ai heibiau pob alaeth, 456
 Llon ddydd ! yn llawenydd aeth ;
 A chyfarch a gorchafiaeth.
- Aberth fu ! Iob wrth ei fodd !
 Duw a'i cymmeradwyodd. 460
- A'i dri chyfaill Duw Iob derchafant !
 Mewn aur emynau yr ymunant
 Oll yn awchus ; a llawenychant ;
 A mwy, olynol, yr ymlonant. 464
- Neus oer alar a droes yn siriolwch !
 E geir ei frodyr mewn gwir hyfrydwch,
 O'u hol ei chwiorydd yn eu helwch ;
 Llyna ei gydnabod mewn llawenwch, 468
 Oll yn ei gylch. O lluniwch i chwi ddydd
 O beunydd lawenydd ac o lonwch.

Hwy a roddant yn arwyddion o'u parch 471
 Pob un ei anrhegion ;
 Arian o'u llaw, aur yn llon,
 Môr o drysorau mawrion.
 A dygai ei gym 'dogion galluawg
 Oll yn serchawg rieddawg roddion. 476

Wele 'n awr ei alon ef
 Yn diwyd edryd adref
 Ei eiddaw oll ; gan addef
 Y du gam a wnaed âg ef. 480
 E ddeuai yn ol ei ddäoedd ; edrych
 Dönt adref yn lluoedd ;
 Yno tawel daw 'n finteioedd
 Gÿr ar ol gÿr, cylch ei gaeroedd, 484
 Heb rif. Didaw 'u brefiad ydoedd ;
 A mwneiddiawl o'r mynyddoedd
 E glywid, ac o'r creigleoedd, eu swn ;
 Dadseiniad eu brefoedd. 488

Deuai rhif y gw lith o fendithion byd,
 Ar ei ben yr awrhon ;
 Gwenai ; hyfrydai ei fron,
 O fudaw ei ofidion. 492

Rhif nifer y ser ei gysuron gwiw,
 Gwel ! gwel ei wên dirion ;
 Gan môr fyw heddyw yw hon,
 Neud ciliodd gofid calon. 496

Do ! ciliodd, ffoiodd ; deufwy ffawd a ddaeth 497
 Yn lle ei ddu drallawd ;
 Yn lle gair mefl, a gwefl gwawd,
 Miloedd yn talu molawd. 500

Os cyfoethawg enwawg oedd
 Gynnau, a'i dda yn gannoedd
 A miloedd. Mwy a welir,
 Mwy ! mae deufwy, ar ei dir 504
 Heddyw o dda byw yn bod ;
 Miloedd fwy o gamelod ;
 Mil amlach bref ei ddefaid,

Dwy gorlan pob corlan caid. 508

Ac ychain oedd gannoedd gynt,
 Yn ddedwydd filoedd ydynt ;
 A'i gannoedd esyn gynnau,
 O'i gylch ynt filoedd yn gwau ; 512
 Ac yntau 'n mwynhau mewn hedd
 Faith rif ei gyfoeth rhyfedd.

Ha ! alar ; gwell ei helynt
 O laweroedd nog oedd gynt. 516

Ah ! hyfryd fyd wrth ei fodd,
 Ar ei gyfer a gafodd,
 Drwy oes hir, y diwair sant
 Oes éuraidd heb ail sorian. 520

I roi 'n ei gylch eirion gant,
 A'i lenwi o wiw loniant ;

IOB.	49
Ail-deulu o'i ddeutu 'ddaeth, Ar ei aelwyd fawr helaeth :	523
Meibion prydfferth cydnerth call, O dda a chýflym ddeall ; A merched deced a'r dydd, O hynod glod trwy'r gwledydd :	528
Glanach nac eu harddach hwy, Nid oedd yn ddichonadwy.	
Rhyfedd yw ffyrdd, myrdd a mwy, Ein Iob : neud annirnadwy ! Ynt argel, ond diŵyrgam ; O dan gél ; ond nid yn gam.	432
Cafodd Iob wledd diwedd da, Hedd ; hwyfyd ; nawdd IEOFAH !	536

A W D L.

CERDDORIAETH.

* * Our seers and poets have confess'd
That Music's force can tame the savage breast;
Can make the wolf, or foaming boar restrain
His rage; the Lion drop his crested mane
Attentive to the song; the Lynx forget
His wrath to man, and lick the minstrel's feet.
P. 108.

- YMESGOR, fwyn Gerddoriaeth,—ar firwythau
Pur eiriau peroriaeth,
Nes bo llon y galon gaeth,
Dan nawdd dy awenyddiaeth. 4
- Rhoddi ddaioni i ddynion,—yn rhwydd,
Rhoi dda ddymunolion :
Rhoi ganiadau lleisiau llon,
O nef urddas i feirddion. 8
- Bydd i ddyddiau droi yn oriau
Gan dy ddoniau, gwên diddanwch ;
A blynyddoedd megys misoedd,
Trwy ddiferoedd tra ddifyrwch. 12

CERDDORIAETH.	51
Hynod uchel a hen yw d' achau, 'R hen fyd odiaeth a'r heinif dadau, Ti a lonaist â sain telynuau,— Hoff i'r enaid yw d' offerynuau.	18 16
Am hen bethau, yr hen dadau Cywrain, dedwydd ; I Gerddoriaeth rhoent ganmoliaeth Helaeth hylwydd.	20
Nes i chwilgwn llym o annwn, Oll ymunaw, O bair tân, i beri twrf, Mawr gynhwrf, môr o gwynaw.	24
Gan beri drygioni drwg anian, Mwy dewr a hyll ymdori allan ; A môr o bechod mawr a bychan, Yn ddir i lwydaw'r ddaiar lydan, O wedd aethus, nes ydoedd weithian, Ow! yn ddiefflig annedd ddu aflan.	28
O achos hyn, och a saeth Ddu arw a ga'dd Cerddoriaeth ;	32
Y ffol annuwiol ddi Nêr, Hirfaith wnai ei cham-arfer : Ai'r byd yn gryglyd o'r gwraidd, Heb ddwyfawl fawl nefolaidd. Yn lle sain fal llais o nef, A dewislais da oslef ;	36

Ing a swm anghyssonaid, 39
 Gan ruaw, drwyddaw a draidd ;
 Nes llwyr ymagor dôr dig
 Ffwrnais dialedd ffyrnig, 42
 I droi'r byd anhyfryd hwn,
 Tro iawn, i ddystryw annwn.

Ond gwedi'r hin erwinawl,
 Pan glwyfwyd a maeddwyd mawl, 46
 Newydd fyd o wynfyd wedd,
 Naf a roi, a thangnefedd :
 Neud gwenai yn deg uniawn,
 O newydd, llawenydd llawn. 50

Wele ! daiar yn ail flodeuo,
 Maesydd a gweunydd yn egino,
 A phob peth gwyw yn adfywio,—a mawl
 Bêr a nefawl drwy'r wybr yn nofio. 54

Doi Cerddoriaeth deg, hardd, euraidd,
 Un hoff, wâr, un wiw, a pheraidd,
 Un wir enwog, un rianaidd,
 Lawn o fêl o lin nefolaidd. 58

Yn ddioedi, ar dda adeg,
 I fyd newydd o nef wiwdeg ;
 I lawn ail ennyn
 Awen Duw'n y dyn, 62
 Iawn hydyn a hoywdeg.

CERDDORIAETH.

53

Ail anfonai lân, fwynaidd,—da, lonwych, 64

Delynau i'r pruddaidd ;

Ac â'i mwynlan lais arianaidd

Y rhoi eilwaith yn rheolaidd

Y dyryslyd fyd anfadaidd ; 68

Trwy'i hynod barod ddawn beraidd,

Daiau gron ai'n dirionaidd,—ai drosti,

Er edwi'n hyfrydaidd.

Ar edyn hylawn aur-daen a helaeth, 72

Cywiraidd, eirian, yr ai Cerddoriaeth

Eto i ail dario'n mhob gwladwriaeth,

Gan roi i'w yfed gwin o wir afiaeth

I bob serchog gym'dogaeth, i feirddion, 76

A chantorion o burwych anturiaeth.

Dyddanai, llonai ASIA bellenig,

A phob bryn a dyffryn yn ngwlad AFFRIG ;

Yna'n barodol, hi ai'n buredig 80

I wych haelfras EWROPIA uchelfrig ;

Ac yn raddol o'r cynhwr' eiddig,—ar g'oeodd,

Hi ai drwy'r moroedd draw i'r AMERIG.

A lle'r elai, hi a fyddai 84

O wiw foddion

I droi nwydau hyll o giliau

Yr holl galon.

Ac i ddofi pob drygioni, 88

Pob drwg anwes,

A gartrefai, neu hir fenai

Ar y fynwes.

O ddawn ! hi ddofai ddyinion 92
 Afluniaidd, crasaidd, croesion,
 Afrywiawl, hollawl hyllion,
 Yn tyru geiriau taerion,
 Yn magu drwg ddych'mygion, 96
 A charu pethau chwerwon ;
 Gan hau rhyw o gynar had,
 Dir fwriad da arferion.

ORPHEUS hen, pen llawenydd, 100
 Rhoi brawf o'i ddawn rhadlawn rhydd,
 Ei gantion mwynion, mad,
 Cywrain, oedd gerddi cariad ;
 O'i law dda do'i fêl i ddyn, 104
 Do'i'r diliau drwy ei delyn.

Bwystflod milain gan ei sain synent,
 A chan mor hyfryd, diwyd ggrandawent,
 Hir ing hefyd a'u natur anghofient, 108
 Ac màl diniwaid ddefaid ymddofent ;
 Yn glau er mwyn a glywent,—olynol,
 Yn llu gwareiddiol hwy oll gorweddent.

O ryw fôr lanw gan ddirfawr lawenydd, 112
 Y llonai gwedi llwyni o goedydd ;
 Dwyllaw a gurent goruwch y dolydd,
 Tra'u gwallt yn llifo o ddeutu'r gellydd.
 Y gorwylltion afonydd,—er rhiwiau, 116
 Ni safent hwythau yn llynau llonydd.

CERDDORIAETH.

55

Hoff i AMPHEION 118

Oedd dant mwynaidd dôn,
Medd hanesion am wedd hen oesau ; 120
A'i dda gân, ddi-gas,
O ddyn ! gwnai ddinas,
Gwnai furiau addas, gwnai fawreddau.

Mwyn AREION galonwych, 124

O'r rhai gynt oedd gantor gwych ;
Buam i'r man y mynai
Ar dôn yr eigion yr ai,
A physg llon, breisgion, heb ri' 128
I'w ddilyn a'i addoli :
Ei gân oedd mor ragorol,
Dan wau ai heigiau o'i hol ;
Dan garu neidio'n gywrain, 132
A than gyd-ymblethu'n gain.

HOMER ddall, tra mawr ei ddawn,
A gofir yma'n gyfiawn ;
Ag organ a'i'n gywirgall, 136
Wr llwyd, o'r naill dref i'r llall,
Dan ganu'n bêr wrth glera,
Arwrol gân ddyddan, dda.

Angelion mwynion eu mawl, 140
A ganent gerdd blygeiniawl
I uchaf NAF y nefoedd,
Llonaf lu, â llawen floedd ;
Cyn bod y byd, hoywfyd hwn, 144
Neu unwaith son am annwn.

- A gwedi creu yn gadarn 145
 Yr holl fyd heb ddybryd ddarn,
 Rhoent foliant ar dant aur da,
 Hwyl lawen, Haleliwiah :
 A chyfarch y gor'chafion 149
 Oedd Sanct, Sanct, Sanct, rymus Ion.
- Eu dwned clywai dynion—yn fore,
 (O nef eiriau mwynion !)
 A'r ddaiar ai'n llafar llon, ● 153
 Fal llafar y nefolion.
- Da eiliai JUBAL delyn,—o aur gwych,
 Ac organ i'w dilyn ;
 Ei ddoniau oedd i enny 157
 Gân i Dduw yn bur gan ddyn.
- Gwelwyd MIRIAM ddinam, dda,
 BARAC a'r fwyn DEBORAH,
 Yn canu pêr acenion, 161
 Gan fawrhau gwiw radau'r Ion.
- Lluoedd eraill tra llawen,—a genynt,
 A gwiw gynil awen ;
 Mawl haeddawl, aml, addien, 165
 I'r trag'wyddawl bywiawl BEN.
- Canu wnai DAFYDD acenion dwyfawl,
 O naws puredig awen ysprydawl ;
 Wele fawr rinwedd, a'i law freiniawl. 169
 Tynai o'r tannau seiniau cyssonawl,

Tynai nes gyrai o'r gwrawl—SAUL ddig, 171
 Ei lew iawn ffyrnig elyn uffernawl.

O wiw nef ddoniau ! pe bawn feddiannydd 173
 Ar ddawn difai fal rhwydd awen DAFYDD,
 Chwai diflanai cenfigen aflonydd,
 Meddiannai'r Eisteddfod glod y gwledydd ;
 Heb unon do'i'r SAIS beunydd —â chalon 177
 Lon, a phob dynion dan ei hadenydd.

YR WYDDEFA yn ireiddfwyn,—y 'RENIG,
 A'r ARAN yn addfwyn ;
 IDRIS a PLUMON hydrwyn, 181
 Neidient, carlament fal ŵyn.

Nid oes o waith mwy dewisawl,—na ddawr
 Cerddoriaeth yn hollawl ;
 Hi fedr bob peth,—medr bob mawl, 185
 Yn wastad a gorchestawl.

Pâr roi heddwch a dyddanwch
 Da i ddynion ;
 Erbyn poenau, hi gais eiriau 189
 O gysuron.

Trwy wir ffraeth Gerddoriaeth gynt
 Y Derwyddon dewr oeddynt ;
 Yn llu hardd drwy allu hon, 193
 Rhwystrent fyddin yr estron ;
 Nid ofnent hwy eu dyfnion—wâr galed
 Faleisddrwyg elynion.

- Gan angel dirgel a dyn 197
 Etholwaith—crwth a thelyn ;
 Heb y rhai'n i beri hedd
 Wylai y byd o waeledd ;
 Ai'n gysglyd, drymlyd, yn drist, 201
 Dieithrai gan rwd athrist.
- Yn lle gweled llu gwiwlan,—a llonwch,
 Yn llenwi pob caban ;
 Heb beroriaeth pur eirian, 205
 Cae'm wedd ddi'mgeledd a gwan.
- O ! hoff gan bawb ei heffaith,
 Yn bur y sierid bob iaith ;
 Ei doniau hi a'i denodd 209
 Oll yma mewn mwyna' modd,
 I fyg wlad i brofi gwledd
 Gynes Eisteddfod GWYNEDD.
- Mae'n anwyl—yma'n unair, 213
 'Galon wrth galon' a gair ;
 A thra dal y ddwy galon,
 Llaw mewn llaw a theulu llon ;
- Bydd Cerddorion, telynorion, 217
 A phibyddion, a phob addysg ;
 A chantorion, mwyn brydyddion,
 A llon feirddion llawn o fawrddysg ;
- Yn NGHYMRU yn clymu clod, 221
 Hyd dyddfarn mewn Eisteddfod.

A W D L.

Awdl er coffadwriaeth am y diweddar Barch. Joseph Harries, (*Gomer*,) Golygydd cyasaefin "Seren Gomer;" ac hefyd am ei fab a'i gynnorthwywr yn y gwaith, y diweddar Ieuan Ddu o Lantawy.

Enwogion ddynion a haeddiannant barch,
Trwy y byd, a chofiant;
Oh enwau gwiw! hyn a gânt
Yn elw, sef anfarwoliant. 4

Bu i GYMRU
Enwogion lu, gynnau lawer;
Testunau chwedl
Ynt i'w cenedl, iddynt caner. 8

O'r nifer GOMER a gawn i'w gofiaw,
Hen gyfaill parchuslawn;
Mur oedd ef, gwr mawr ei ddawn,
A thwrle i'n hiaith eirlawn. 12

Gwenai HANES pan ei ganwyd, a'i llech
Yn un llaw a welwyd;
Un fodd hefyd canfyddwyd,
Hoff yn y llall ei phin llwyd. 16

O hyny allan HANES a'i dygai 17
 Yn deg yn ei monwes ;
 I'w bachgen llawen, er lles
 Mawl yn raddawl a roddes. 20
 Tra 'n ieuanc, tra 'n llanc llon, ei hetifedd !
 Nes tyfu 'n wr tirion ;
 Wedi cael yr adeg hon,
 Helaethai ei fawl weithion. 24

Cof gan lawer

SEREN GOMER seirian, gemwaith,
 Gan mdr deced

A gorhoffed gwawr ei heffaith : 28

Pan gododd, llonodd pob lle,
 A gwelai 'r byd ei gole.
 Sylwai HANES ar ei seilydd ;
 Lluniai iddo y llawenydd 32
 Draw a gludai drwy y gwledydd ;
 A meib i'w anerch, mwy beunydd.
 Neud cofnodau ddyfod cyfnewidiad
 Ar GYMRU hardd wiwgu, mawr ddiwygiad 36
 Ac i'w hiaith, deg-fadiaith, adgyfodiad ;
 Ac ar y CYMBRY gwyw ryw ymroad,
 Ryw ysig loes dros eu gwlad, i'w chodi,
 Gwedi hir sylwi ar ei hiseliad. 40

Gwir y geiriau,

Nid gŵyr, nid gau !

Mae heddyw, 'ngwlad ein tadau, feib trefnus,
 Oll yn llafurus yn darllen llyfrau, 44
 'N darllen gweithydd llên yn llu, yn eu hiaith,

GOMER.	61
A hithau 'n eu denu	46
Mor fwyd; SEREN GOMER fu, Yr achos o'r ymdrechu.	48
Oes aur er dyddiau 'r SEREN , A fu i GYMBU deg wên !	
Llënyddiaeth sydd yn lluniaw addysg, Lle bu aer torfoedd, llwybrau terfysg ;	52
Mwy o dda, syched am ddysg, dysgu 'n fyw Weithion heddyw yr iaith yn hyddysg.	
Llethig ynt y llwythawg weisg, Ein gorhoffus argraffweisg ;	56
Crynant, gorlefant gan loes, Mynych gwaeddant am einioes ; Ond er uchod yr achwyn, Ac er twrf cynhwrf eu cwyn,	60
Tÿn i'w gwynos tan ganu 'R argraffydd, llywydd y llu ; Ac eistedd, nid oes llai 'r gosteg	
Nac mewn ffair, ar gadair deg,	64
A'i ddwylaw ar ei ddeilin, Llonaf lanc, yn llawen flin ; Gan hwyliaw, draw yn ei drig, Am yru i'r AMERIG	68
Nifer o'i lyfrau dros fôr Neifion lwyd I law Cymreigyddion ; O'r un lle nifer yn llon Draw i'r INDIA drwy 'r wènddôn.	72
O fy henwlad ! fwynwlad ferth ! Er ei hadfyd, mdr brydferth	

Ei hagwedd a'i gwedd heddyw
 A llun ei dull, loned yw ! 76
 Uwch ben nid un Seren sydd,
 Ruddaur Seren foreuddydd,
 Ond haul, gwawl araul eirian,
 A mawr lwydd ar GYMBU lân ; 80
 Ac i'w hiaith, er unwaith ŵg,
 Ymled a chynnydd amlwg.

Taenir a phrynnir yn FFRAINC,¹
 Gwir yw, gan ei gwyr ieuainc, 84
 Llyfrau 'n hiaith ; llafuria 'n hon
 Ei hagwrdd ysgolheigion.
 Hefyd drwy 'r ALLMAEN hyfawl,
 Yn orau modd, taenir mawl, 88
 Y wiw GYMRAEG, miriawg iaith,
 Hyned a'r hynaf heniaith.

Parcher enw GOMER ! teg,
 A haeddawl hyny heddyw : 92
 Cynhyrriad i'r wlad, hir les,
 O'i fawr aidd ef a roddes.

¹ Ar ol cyfansoddi y darn hwn o'r Awdl, gwelodd yr Awdwr, gyda llawenydd, ddarfod i T. W. Booker, Yswain, sylwi yn ei araeth o flaen Cymreigyddion Caerdydd, (Ebrill 18, 1838,) ar yr ymgeiriad ag oedd yn y dyddiau hyn yn yr Allmaen, Ffrainc, ac eraill wledydd i ddysgu yr iaith Gymraeg. Nid ffug chwedl ydyw hyn; canys y mae dysgedigion yn yr ieithoedd Dwyreiniawl, yn y diwedd, wedi agoryd eu llygaid i weled fod gwybodaeth o'r Gymraeg yn anheggorawl iddynt tu ag at ddeall yn drwyadl yr ieithoedd hyn, o herwydd ei chyfathrach â hwynt o barth haniad, geiriau a chystrawen.

Pienfodd glod ! a'i fab hefyd ; y llanc 65
 Oedd yn llên o'i febyd ;
 Dianaf rai, dau un fryd,
 Gwiw, da, dysgedig, diwyd.

Ei wlad, màl ei dad, fab doeth ! a garai
 Goruwch pob rhyw gyfoeth ; 100
 Bonedd ei genedl beunoeth,
 Yn mrig hyn y GYMBRÆG goeth.

Gwiw foethus ei gyfieithad,
 A'n gwledd oedd yn iaith ein gwlad, 104
 Medd cant ;— " Adfeddiant Gwynfa " fad ;
 MILTWN, gwynfaeth ganiad. [gwynfa
 Ond Ow ; cyfieithad IEUAN
 O'r nefawl ragorawl gân, 108
 Gofid yw, nid yw gyfan ; O ein bardd !
 Mae yn y bedd weithian.

Ei farw i'w dad anfad oedd,
 O'ch o'r adeg, chwerw ydoedd ! 112
 Beunydd trwy y gloywddydd glân,
 Mwyach gwnai sôn am IEUAN.

Edwinai, llwydai 'r gwr llên,
 A'i lewyrch nid oedd lawen ; 116
 Aml gyrchai, llwybrai i'r Llan
 Yn ei ddu at fedd IEUAN.

- Ni chél grudd gystudd bron gaeth,
 Yn curiaw dan rwyg hiraeth ; 120
 Heddyw bron wyw, brwyn Awen,
 Ac heb un gwyneb â gwên ;
 Herwydd, newydd oergri nád,
 Marw GOMER fawr gymmeriad. 124
 Wyl y wlad am dad oedd dŵr
 Er nawdd i'r Awenyddwr,
 Yna wylo wna eilwaith 128
 Am IEUAN wiwlan ei waith.
 Drwy EGLWYS FAIR drygloes fu,
 Ië cledd, ddydd y claddu.
- Yn iach, GOMER ! dyner dad ;
 Yn iach, IEUAN ! glân ei glod ; 132
 Cu-wyr glew 'n caru eu gwlad,
 I GYMRU bu da eu bod.
- Hardd ddiwall wiw werdd Ywen,
 Iraidd ei brig agwrdd bren, 136
 Planer ; gweler tan goledd,
 O wir barch wrth ochr eu bedd,
 Yn wych, Pand ? goruwch eu pen
 Rhyweddai tîrf lawrwydden. 140
- Yr angau, hacraf ringyll,
 Mÿn ei hawl â'i gryman hyll ;
 Dïalydd a medelwr
 Pawb erioed, Ow ! pob rhyw wr. 144
 I'n rhyw ni, Ah ! rhoi a wnaeth
 Adloes drwg bob cenedlaeth.

GOMER.	65
Ond er marw ein GOMER gall,	147
A'i dori i wlad arall ;	
Diau, os ymadawodd	
IEUAN ei fab yr un fodd :	
Iaith ddilom hardd ein GOMER,	151
Saif hono tra safo ser. ¹	

¹ Ieuan a gyfeithodd gryn lawer o *Paradise Regained* i'r Gymraeg, ar yr un mesur ag y cyfeithwyd *Paradise Lost* gan y Dr. Pughe; ond bu farw cyn gorphen y gwaith. Gwel *Seren Gomer*, t. d. 459.

A W D L.

TRAFNIDIAETH.

ARGLWYDDES, yn mynwes môr,
Gŷri i lawer goror,
A chonglau pell barthau byd, 4
I'w eithafoedd maith hefyd ;
Dy longau, nwyddau un wedd,
O BRYDAIN ! firain fawredd.

Goludawg uwch y gwledydd—oll ydwyt,
Lledu mae dy gynnydd ; 8
Wlad gu ! ni fu, ac ni fydd,
Iaith foliant, yth efelydd.

Gwelwch ei llongau gwiwlon,
Eofn daith, ar gefn y ddon ; 12
Yn llu 'n gwenu ar y gwynt,
Yn moriaw o flaen mawrwynt.

Nid ofnant foroedd dyfnion,—neu wyntoedd,
Mewn antur, na Neifion ; 16
Ar daith, gan gusanu 'r ddon,
Hwy a rwygant yr eigion.

TRAFNIDIAETH.

67

Llonant wledydd pellenig, 19
Lle 'r ant hwy a ddofant ddig.

O'n gwlad gwnant iawn gludaw—i ddynion
Feddiannau i'w dwylaw ;
Siriawl gwnant eu cysuraw
A math rwysg, yma a thraw. 24

Hynodawl yw Trafnidiaeth,
Onid tref yw pob cefn traeth ?

Dychwelant, deuant o daith,
Oll yn ol yn llawn eilwaith 28
O ffrwythau, moethau i'n mysg,
Gemau o bris yn gymmysg :
O ddewisedig dda sidan, o aur,
Myrieryd ac arian ! 32
O rinwedd ystôr anian,
Golud mud pob gwlad a màn.

Annedwydd heb drafnidiaeth—a fyddem,
Heb foddion cysuriaeth ; 36
A phob gwr mewn cyflwr caeth,
Yn welw heb fawr gynnalïaeth.

Trafnidiaeth, ein lles ; arglwyddes ein gwledd-
Dy wenau eisys ar ein dinasoedd, [oedd ! 40
Gan ladd angen, wnaeth lawen deuluoedd ;
Gan roi 'n lle eisieu gwin, aeron, llysoedd :
Gwenu a wneist a digon oedd—rhag cur,
Yn nghanol antur, ing, neu helyntoedd. 44

Lle mae anialwch llwm mwy ni welir, 45
 Trwy trafniadiaw draw yn ddól a dröir ;
 Ac i'r eigion y creigiau a rwygir,¹
 Lleng onaddunt, a'r llongau a noddir :
 Ac eto safle coedtir,—a thir crâs, 49
 Gan ryw frâs ddinas a feddiennir.

Os ydoedd TYRUS a SIDON²—yn nodawl,
 Am Drafnidiaeth cyssôn ;
 Os am TARTESSUS bu sôn, 53
 A muriau eu llongau mawrion :

Sôn mwy am BRYDAIN sydd,—gwiw ei llongau!
 Gollyngir hwy beunydd
 Draw i'r môr, a rhagor rhydd 57
 I'w fynwes o'i hafonydd.

Bu ORPHIR³ dir, gwlad y dôn,
 Sail yma llongau Sol'mon ;
 Bu NINEFEH yn lle llôn, 61
 Bu eilwaith hen BABILON ;
 Bu CARTHAGO⁴ gryno gref,
 A nwyddau yn ei haddef.

¹ Cyfeiriad at wneuthur porthladdau llongbyrth, &c.

² Tyrus, Sidon, a Thartessus (Tarsis) yn yr Ysbaen, Esai. xxiii, &c.

³ Mae gwahanawl feddyliau mewn perthynas i sefyllfa Ophir,—rhaf a dybiant mai ynys Socotora ydoedd : ac eraill mai ynys Taprobana (Dephrobani,) a elwir heddyw Ceylon. M. Huet, ac ar ei ol, Bruce, a osodasant Ophir yn Sofala, yn neheubarth Affrig. 1 Bren. ix. 26, &c. Gan edrych arni fal yn ynys, gelwir hi yn yr Awdl, *Gwlad y Dôn*.

⁴ Carthago : dinas yn Affrig ar lan Môr-y-canoldir, enwawg yn y cynosoedd am ei thrafnidiaeth ac ei chlyfoeth. Trefedigaeth ydoedd o Tyrus. Rhybu trafnid helaeth gynt cyd-rhyngi â Brydain.

Mae dyn i edrych am danynt—heddyw? 65
 Nid dyddan ei helynt;
 Nis gŵyr ond eu haes gynt,
 Neu arwyddion lle 'r oeddynt.

Ond PRYDAIN gain mae hi ar gynnydd, 69
 Ac er ei chadw, Duw yw 'n gwarcheidydd;
 Pâr o'i lluniaeth peri llawenydd,
 Treiddiawl a mwyn, trwy ddôl a mynydd.

Tyfodd ei chariad hefyd 73
 Yn mhob màn o bob bàn byd;
 Y caethion yn rhyddion rhoes
 O'u dialedd a'u duloes;

Gwelai hwynt yn drwm galon,—ac ofnus 77
 A'u cefnau yn gochion;
 Yn gweithio yn rhygaethion
 Ag helbulus fregus fron.

Gwelai, dattodai eu tid, 81
 Rhoddai iddynt eu rhyddid;
 Rhyddid ar ol trafniad trwch,
 A dyddiau annedwyddwch;
 Rhoddai, heblaw eu rhyddid, 85
 Llyfr Duw, yn ol llifiaw 'r did.

O BRYDAIN hen! ein brodir
 Hyfrydaf, dedwyddaf dir;
 Daw agerdd gwyllt diegwan, 89
 Awyr a thir, dwr a thân;
 A'r gwynt yn ei hynt mewn hwyl,
 I dy weini, wlad anwyl!

Rhëoled dy longau y môr heli, 93
 Ar dôn dwg elynion i wan-galoni ;
 Hwylia 'n falch, llongau 'r gelyn a fylchi ;
 Du fôr a adrawdd nerth dy fawrhedri :
 O YNYS ! hoff dy enwi di yn ben, 97
 Ein hynys wên hoenus o wiw yni.

YNYS heb ail, Brenhines byd ! —ynot
 Mae annedd dedwyddfyd ; 101
 Trafnidiaeth helaeth o hyd
 A feddi, wlad celfyddyd !

Dy enw da a adwaenir,
 A'th ofn, yn mhob gwlad a thir ; 105
 Serchog a thrugarog wyt,
 A chadarn mewn cyrch ydwyt ;
 Gelyn a beri giliaw,
 Hyll ei drem, a sefyll draw. 109
 Hoff wlad ! dy arddelwad fflwch,
 RHYDDID, LLAWNDER, a HEDDWCH.

A W D L.

HIRAETH CYMRO AM EI WLAD MEWN BRO ESTRONAWL.

HIRAETH ysywaeth y sydd—i'm dilyn
A mwy dolur beunydd;
Ni ddaw dim yn niwedd dydd
I'r enaid, ond MEIRIONYDD. 4

Am GYMRU gŵ a'i theg iaith,
Cwyno 'r wyf lawer canwaith;
Ond yn benaf
Pan feddyliaf 8
A myfyriaf fi am FEIRION,
A'i mynyddau,
A'i theg fryniau,
Gloywiw dyrau ein gwlad dirion. 12

Yn lle gwenu—synu sydd—
Trostwylf mae eithaf tristydd,
A wna 'm bron dirion dori,
Wlad ragorol, a'r d' ôl di; 16
Ac ar ôl, nid siriol sôn,
Dethol a hen Gymdeithion.

- Pob dydd newydd 19
 Y mae beunydd mwy o benyd,
 Mwy o ruddfan,
 A mwy wban, o fy mebyd.
- A'r nos drysu o wir-naws draserch 24
 Yr wy' ; gan lunio ryw gain lannerch
 O'r wlad,—a siarad o serch—yn neffro
 Ow ! hono heb Gymro i'm hannerch.
- Ac os cysgwyf yttwyf etto, 28
 Yn brudd odiaeth yn breuddwydio
 Am lawenydd, neu am lunio
 Bryn a dyffryn—yna deffro.
- Ni fu fwy glwy' o fewn gwlad 32
 Na chŵr hiraeth a chariad ;
 Gwna hyll friwiau,
 Dwfn welïau
 A doluriau, dial irad !
- Draw o'r golwg drwy 'r galon 36
 I'r eigion—dirfawr rwygiad.
- Nid oes genyf onid dŵys gwynion,
 Blin wy' a gwael heb lawen galon :
 O ! mae 'n alar, heb ddymunolion ; 40
 (O achos hiraeth) na chysuron.
- Os wy 'i ar farw am hen sîr FEIRION,
 Beth am filoedd tros y moroedd mawrion

A gariwyd ymaith i lefydd geirwon 44
 Yn llwyd odiaeth i fod yn alldudion
 O dir eu gwlad drwy galedion—lawer
 O flinder; flinder ar foel wendon.

Gwæ laweroedd! mdr drwm y galarant 48
 Am nad oes obaith fynyd o seibiant
 O'u poenau—loesion, er pan hwyliasant:
 CYMRU a geir ac amryw a garant,
 Yn eu golwg; mynych gwelant—o'u hol 52
 Y lle dewisol a'r llu adawsant.

A W D L.

I'R GYMDEITHAS FRYTANAIDD A THRAMOR.

Fawr Gymdeithas, }
Gywir addas, } gôr o eddyl.

Gwel un hynod }
Mewn da ammod } mae 'n dy ymyl: 4

Yn llawn o ras, }
Gydag urddas, } O! cynnydded. 8
Ac yn addas, }

Ganddi 'n gyhoedd }
Gair geiff bobloedd } (Duw a foled.) 12
Diau filoedd, }

Gair Duw 'n ddilys, sy'n felus gan filoedd ;
Gair yw perffeithiaf feddai Naf nefoedd ; 16
Gair aeth o BRYDAIN firain, dros foroedd ;
Gair yw â llewyrch, ac a gâr lloedd ;
Gair yw 'r BIBL, geir i'r bobloedd, gair helaeth,
Gair iawn odiaeth, goreu i ni ydoedd. 20

I'R GYMDEITHAS FRYTANAIDD A THRAMOR. 75

Da yw' n Ion, Duw. uniawnwedd ! 21
Drwy ei gywrain drugaredd,
Yn rhad, ni gawn anrhydedd
Gwir felus, a gorfoledd ;

Er cymmaint yw 'r camwedd
O drasau¹ ! daw edrysedd²
O FIBLAU, diau i'r doeth,
A'r annoeth, gael o'u rhinwedd. 28
BIBLAU, a'u geiriau ar g 'oedd,
BIBLAU, i bob rhyw bobloedd,

Ar led, cawn weled yn wir
Dawnus waith, o dan y ser ; 32
Yr ARGWLWYDD wna fawrlwydd dros fôr,
A'i eiddo syw, fydd byw 'n bur.

Plant ffyddlon Sion y sydd—ac eraill 36
Sy'n caru llawenydd ;
Iddi rhowch, a rhowch yn rhydd,
O'ch golud, efo 'ch gilydd.

¹ Perthynasau. ² Digionedd.

ENGLYNION.

Yr Englynon canlynawl a adroddwyd yn Eisteddfod Caerdydd, ar Ddydd-gwyl
geni ei Fawrhydi Gwilym IV. Awst 21, 1834.

- Hir ymwriaw ar y moroedd a fu
Hir ddifa dinasoedd ;
Tra i'n hynys echrys oedd
Llwon dramor alluoedd. 4
- Gelyn ar dir yn byglyu, neud oedd
Ofnadwy ei allu ;
Tra llong ar long gwys lu,
O'r eigion yn hir wgu. 8
- Teilwng tŷ Brunswic a'i talai iddo,
Ei haeddiant a haeddai ;
Ac Heddwch o'r llwch a'r llai,
Yn gadarn ail ymgodai. 12
- Mordwyaw am wyr duon fu unwaith,
Gefynu cyd-ddynion ;
Heb rif y caethid o'r bron,
Oer adwyth, mâl rhyw eidion. 16

ENGLYNION.

77

Duw Ior ! Gwilym y Pedwerydd, dy was, 17
 Dewiswn ei gynnydd ;
 Caethion o'u gloes rhoes yn rhydd
 O'u briwiau ânt i'w bröydd. 20

Llwydded a gweled hirdeg oes, mewn hedd,
 Er mwyn hoeddi anfoes :
 A chraff bob rhyw gam a chroes
 Iawned cyn diwedd einioes. 24

LLYN TEGID.

Yr Englynion hyn a ennillasant yr Ariandlws yn Eisteddfod y Bala, Awst 12fed
 1836.

BTSGODWYR ! llenwch eich Basgedau—'n llawn
 Llenwch o'r pysg gorau ;
 Mil o hyd sydd yn amlhâu
 Yn ei dirion ddyfnderau.

O BENLLYN¹ ! i'th Lyn maith o luniad teg,
 Nid digon fy nghaniad ;
 Dwfr iach gloyw : difyrwch gwlad,
 Yn ei li a'i alawiad. 4

¹ O BENLLYN :— Penllyn, yn Meirion, oedd diriogaeth Tegid Foel, llywydd, neu dywysawg, yn y chwechfed ganrif. Yn y ddeuddegfed ganrif yr ydoedd yn eiddo Rhirid Flaidd, Arglwydd Penllyn; ond heddyw eiddo Syr Watkin Williams Wynn ydyw. Cynnwys Penllyn, bump o blwyfau; sef Llanuwchllyn; Llangower; Llanycil; Llanfor; Llandderfel. Cydrhwng y Plwyfydd hyn y gorwedd Llyn Tegid; ac o herwydd hyn yr enwir y Llyn gan y Saeson, *Pimplemeer*.

Alawiad dwnad y tonau, mwyn yw
 Min nos ar ei lánau ;
 Ac o'r tir gwelir yn gwau
 Gwŷn eleirch dan gain hwyliau. 8

Goror y wybrenawg ARAN¹ ! ynot
 Mae 'r enwawg Lyn llydan ;
 Croni y lli rhwng pump Llan
 Ni elli ; rhed afon allan : 12

DYFRDWYF² ! trwy aml Blwyf, heb aml Blas, a
 A thrwy lawer dolfras [Thref,
 Y'th hyrddir, maith y'th urddas,
 Draw â mawr glod i'r môr glas. 16

HAWDDAMMAWR, Lyn mawr Meirion ! LLYN
 Neud yndid ei wendon ? [TEGID !
 Drwyot, er dyddiau 'r Drywon,
 Y rhwyf y DYFRDWYF ei dòn, 20

Lle bu tref³ dolef dyl i'r Llyn Heddyw,
 Llon haddef ni welir ;
 Mwyniant y pysg ei meini
 'R dydd hwn, a'i hystrydoedd hir. 24

¹ ARAN :—Aran yn hytrach Aren, medd y Dr. W. Owen Pughe, oblegid bod llun y mynydd yn debyg i Aren. Y mae dau fynydd uchel o'r enw, un yn Mhenllyn, a'r llall yn Mawddwy. Mae Aran Benllyn yn harddu golygfa Llyn Tegid yn fawr.

² DYFRDWYF, yr afon Dyfrdwyf, yr hon a elwir yn gyffredin Dyfrdwy. DWYF, yn ol traddodiad, y gelwir y hoelwal, neu y frwynen, a red trwy ganol y Llyn, heb ymgymysgu a'i ddwfr.

³ *Lle bu tref &c.* Yn ol hen draddodiad dywedir, a chredir hyd heddyw, fod tref y *Bala* unwaith yn sefyll yn y lle y mae y Llyn, ac iddi gael ei llyncu ganddo. Dywedai yr hen bobl fod muriau y tai i'w gwneled ar rai troion. Mynych iawn y clywir y dywediad hwn "*Bala a aeth ; a'r Bala a aiff,*" gan ddarogau wrth hyn y bydd i'r dref gael ei llyncu eto gan y Llyn.

PRIODAS Y FRENHINES A THYWYSAWG
ALBERT.

Yr Englynion canlynawl a enillasant yr Ariandlws yn yr Eisteddfod a gyn-
haliwyd yn *Lerpwl*, yn y flwyddyn 1840.

HÀ ! un llonder, un hoen yw Llundain oll,
Un diwall arwyrain ;
Byw yw myrdd ; etyb y main :—
“ PRIODWYD BANON PRYDAIN ! ” 4

Pob tref a gydlef yn gain â lleisiau
Lliosawg gwyr Llundain ;
Gorfoledd rhyfedd y rhai 'n
Lleda drwy 'r trefydd llydain. 8

Llefau ! banllefau hir llon ! a llyna
'R tai 'n llawn goleuadon ;
Mae prawf i'w gael, yn mhob bron
O wir gariad i'r Goron. 12

Edrych trwy äang Lywodraeth PRYDAIN,—
Darpariadau helaeth !
Yr holl fyd yn wynfyd aeth,
Hyd eigion pob cym 'dogaeth. 16

VICTORIA lanaf caed hiroes enwawg ;
Ein BRENHINES eirioes !
Boed o'i blaen byd heb loes,
Llawenydd drwy 'i holl einioes. 20

- Dewisodd yn Briod Dywysawg, gwr 21
 Da, rhagorawl, serchawg ;
 A cheir ei achau y rhawg
 O deidiau hen godidawg. 24
- Dygir ei hanedigaeth o uchel
 Brif achau ei Dalaeth ;
 O FfREDRIG, wraidd dewraidd, daeth,
 Ei deulu, parth gwaedoliaeth. 28
- Tŷ enwawg am Brotestaniaid ffyddlawn,
 Gwyr uniawn Gwroniaid ;
 O'u plith hwy cyfododd plaid,
 A tharian, i'r Lutheriaid. 32
- Nodded Duw ALBERT addwyn, â'i Briod,
 Rhag brad, ac oer gyllwyn ;
 Pob awr, Ior mawr ! er ein mwyn
 I'w hymyl fo i'w hamwyn. 36
- O lân VICTORIA ! na boed hir y tro,
 Cyn trwy GYMRU clywir
 Eni un, a hwnw yn wir
 Ei Thywysawg doeth oeshir. 40
- Ti, Ior byw, i VICTORIA bydd yn dŵr
 Cadarn, ac Achubydd ;
 O'th rad, i'w Llywodraeth rydd
 Hoff, hen, bydd byth Ddiffynydd. 44

ENGLYNION.

81

- Rhoed i ALBERT bob anrhydedd, a pharch 45
 A phob gras a rhinwedd ;
 Boed iddo lawn gorfoledd,
 Bywyd hir, a byd o hedd. 48

ALBERT TYWYSAWG CYMRU.

Englynion i'w Fawrhydi brenhinawl Albert, Tywysawg Cymru, Cynneiliad
 Eisteddfod y Fenni, Hydref 11fed a'r 12fed, 1848.

- DY ŵyl, fy anwyl FENNI—olynol
 Ddwg lawenydd ini ;
 O loned yw eleni
 Fy enaid oll o'th fewn di. 4
- GWNYEDD, POWYS, ynot a ganant gân
 Gyda GWENT cyd-ganant ;
 A daeth hen DDYFED â'i thant
 Melus er mwyhau 'r moliant. 8
- Parch fyddo i'n Brenhines—yn wastad
 Am destun hoff cynhes ;
 Hyrwyddaidd i'n a rodde
 NODDWR, LLYW, o'i nawdd er lles. 12
- Enwawg Dywysawg, ein dewisiad—oedd
 Dy gael di 'n Gynneiliad ;¹
 Trwy 'n gwledd perchaist dir ein gwlad,
 A mawr fydd dy gymmeriad. 16

¹ Patron.

- Dedwydd o dan dy aden—y buom 17
 Llawn bywyd, llawn Awen ;
 Rhagllaw ar ein gwledd lawen
 Bydd ALBERT beunydd yn ben. 20
- Boed gu hen GYMRU gan—ein Tywysawg
 Teg iesin oed bychan ;
 Hir einioes, hir oes i'w ran ;—
 Duw Ior bydd iddo 'n darian. 24

GRIFFITH AB NICOLAS.

Y canlynawl oeddent yr Englynion buddugoliaethus yn Eisteddfod Caerfyrddin,
 1828.

- DINEFWYR, noddwyr yr awenyddion, gwyr
 A garant wir FRYTHON ;
 Llu o gedeirn,—llygadon
 A bri y CYMBRY o'r bron. 4
- O galon haelion Wehelyth,—SYR RHYS
 A achosant drafyth
 Yn deulu hen a dilyth,
 Llawn o barch i'n lloni byth. 8
- BOSWORTH o hyd hysbys—arwyddion
 O ruddwaed ymladdfa :
 I'r oes hon, SYR RHYS enwa
 Yn ddewr ddyn o fron ddu dda. 12
- DINEFWR o waed hynafiaid—gwelwch
 O deg wiwlon enaid
 Yn ddewr dda, bloeddia o blaid
 Iaith henwch y BRYTHONIAID. 16

ENGLYNION.

83

Gor hoffai gynt **SYR GRYFFYDD**—yr Awen 17
 Lân rywiawg, a phrydydd ;
 'Leni Sior o'i lwynau sydd
 Yn ei le yn fwyn Lywydd. 20

Yn addas tra fo ei nodedd—i Feirdd
CAERFYRDDIN a DYFED,
 Fal haulwen yr Awen red
 A gwiw gynnydd gogoned. 24

I'R ARGLWYDDES HALL, (GWENYNEN GWENT.)

LLYGAD CYMRU wlad, yw'th foledig enw,
WENYNEN garedig !
 Ei hoffedd, wraig foneddig,
 Gwneyd da, lle treigla, lle trig. 4

AUGUSTA HALL, ti a g'eist hyn—Clod dy wlad ;
 Clod o **LYDAW** gwed 'yn ;
 Cei fwy,—**ALLMAEN**, **FFRAINC** a fÿn
 O deilwng barch eu dilyn. 8

Yn deilwng hefyd y delyn a'th fawl,
 A'th feirdd a'i cyd-ddilyn ;
 Pob bardd, pob prif-fardd a fÿn
ANGELES ! wneyd it' Englyn. 12

Gwraig yw o les gwir i'w gwlad, nid distadl
 Testun ein cyd-ganiad ;

Boed pob bri pob da, pob rhad, 15
I ran AUGUSTA 'n wastad.

Myna di, FENNI ! byth fod yn glodwych
Trwy 'n gwlad am Eisteddfod ;
I WENYNEN wén wiwnod,
Gwent ; caner, cluder pob clod. 20

Iaith ei gwlad yw byth ei gwledd, yn astud
AUGUSTA a'i coledd ;
Ac mewn un man o'i hannedd
Telyn fwyn, wiwfwyn a fedd. 24

YMWELIAD TEGID A DANIEL DDU,

I'w gyfarch ar adferiad ei iechyd, ar ol hir gystudd.

Gwngw gan htraeth. Diar.

DANIEL DDU ! 'r niwl du yn wawl daeth, a'th nych
Aeth yn iechyd helaeth ;
Diau 'n wir mai Duw a wnaeth
Y dirion iechydwrïaeth. 4

Mawl ar fawl ; rho fawl didawl fyw, yn rhwydd
I'th ARGLWYDD a'th erglyw ;
Dod fawl, nerth dy iechyd yw,
A gwed trugarawg ydyw. 8

O wely ing, o law angeu, Ior byw
O'r bedd a'i briddellau,
Rhoi hedd a wnaeth, a rhyddhâu
Dy enaid o'r cadwynau. 12

CYFARCHIAD Y BEIRDD,¹

A wnaed yn ddiifyfyr, wrth waith DANIEL DDU, a IOAN TEGID yn cyfarfod yn ddisymwth yn mhentref y Cribin, Ceredigion. DANIEL DDU oedd yn barod i feddwl mai o'r BALA yr oedd TEGID yn teithio, am ei fod yn gwybod fod rhieni TEGID yn byw yno.

DANIEL DDU.

YN gry 'deg mi a greda'—taw agwedd
 TEGID hoff sydd yma ;
 Daeth y gwr, brydyddwr da ;
 Ar ebolyn o'r BALA. 4

ATEB TEGID.

AR ebolyn o'r BALA—y daethum,
 Fardd dethol, hyd yma :
 Y nos CAERFYRDDIN a wna',
 Eresfardd, fy arosfa. 8

YR IFORIAID.

NIFERI yr hael IFORIAID—a fo
 Yn fwyfwy yn ddibaid ;
 A mwy 'n mhob plwy' fo o'u plaid,
 Am hyn dymuna 'm henaid, 4

HARDDU hen GYMRU eu gwaith—a chwiliaw
 A choledd eu mamiaith ;
 Carwn oll ein cywrain iaith,
 Hyned a'r hynaf heniaith. 8

¹Gwel "Gwinllan y Bardd," t. d. 227.

IFORIAID boent yn niferoedd—mawrion 5
 Yn NGHYMRU a'i chylchoedd;
 I blaid y gwir, gyda bloedd,
 Deled yr holl ardaloedd. 8

Caredig rai, cywir ydynt—dynion
 A daioni ynddynt;
 Oll yn ing cyfeillion ynt,
 O! bydded rhwydd-deb iddynt.

I JOSUA WALMSLEY, YSW.

Maer Lle'rplw, er coffa am y ciniaw a roddes i'r Cymry dydd olaf Eisteddfod
 Gadeiriawl y Gordofigion; sef ar y 18fed dydd o Fehefin, 1840.

YN llafar i FAER Llynlleifiad rhoddwn
 Wr haeddawl wiw ganiad;
 Wele draw o'i law arlwyad,
 Enwawg wledd i wyr ein gwlad. 4

O WALMSLEY! 'n mhob lle ti a'n Llywydd glân,
 A geiff glod y Prydydd;
 Lluniaist wledd a llawenydd
 Mwy dy enw yn ddi farw fydd, 8

E roddodd o'i barch arwyddion, wr hael
 O flaen yr holl SAESON;
 Moethau a gawsom weithion:
 Hawddfyd wledd! eisteddfod Ddn! 12

I WAITH DAFYDD IONAWR,

Sef argraffiad newydd, yn cynnwys ei holl Waith Barddonawl.

CLUDFA o waith bardd clodfawr,—Hawddam-
 Sydd yma 'n wych drysawr; [mawr !
 E fydd i'n DAFYDD IONAWR,
 O fewn ei waith, fyw yn awr. 4

Mawredd a gafodd MEIRION—o'i eni
 O fewn ei chyffinion ;
 Gwiw iawn yw ei ganeuon,
 Duwinydd, Awenydd Ion. 8

Hoffai coleddai lwyddiant,—yr Awen ;
 Trwy ei oes hir y cânt :
 A'i gân i DDUW GOGONIAINT
 A'i oes hir, a roes y sant. 12

I DAFYDD AB IOAN,

Gwëydd a Phrydydd yn Llangollen.

DAFYDD gwr celfydd call,—y Gwëydd
 Ag awen synwyr-gall ;
 Am Englyn da, da diwall,
 Un gwr dy drechu nis gall. 4

Anfonaist im' yn fwynaidd—annerchiad
 Yn barchus garuaidd,
 Englynion, nes i'm bron braidd
 Holli gan hiraeth halltaidd. 8

Cofiw'n yr oll am LANGOLLEN,—y man 9
 Lle dro bum yn darllen ;¹
 Lluoedd yn cyrchu 'n llawen
 Gŵyl a Sul i'r Eglwys hen. 12

Clyw bellach draw, a bydd lawen—odiaeth
 Ddywediad yr Awen :
 Nid oes, nis caed, is y nen
 Un Llan gwell no LLANGOLLEN. 16

“LLWYDDIANT COLEG IESU.”

Englynion Buddugoliaethawl ar Destun Barddonawl Cymdeithas Coleg Iesu,
 Rhydychain.

Gwriw oesoedd i GOLEG IESU—lawer
 I oleuo CYMRU ;
 Efe sydd, fydd, ac a fu
 Y gwynaf HAUL yn gwenu. 4

O ! da mynych dymunaf—o galon
 It' Goleg anwylaf ;
 A dyddiau o'r dedwyddaf,
 Doethion wŷr—a bendith Nâf. 8

Mwy cynnydd ar dy amcanion—Goleg
 O ! gweled dy feibion ;
 Drwyddot doed ymadroddion
 A wna CYMRU lwysgu 'n lon. 12

¹ Bu yr Awdur flyneddau yn ol, yn gweinidogaethu yn Eglwys
 Llangollen am wyth Sul. Mór liosawg oedd y gynulleidfa yno, nes
 gorfod i'r rhan fwyaf o honynt sefyll ar eu traed.

O! Goleg meibion Gwalia—gwerdd ydwyf, 13
 Eu gardd odidoca';
 Dïos ynot blodeua
 Pob addysg, pob dysg, pob da. 16

Ein calon yw y Coleg—cu iesin
 Ein cysur anwyldeg,
 Rhag tân a dw'r ein tŵr tŵg
 A'n tariandy tiriondeg. 20

Tra Haulwen uwch ben y byd—a lleuad
 A'r holl luoedd tanlyd;
 Saif yn dŵg, ein Coleg c'yd
 I roddi cyfarwyddyd. 24

ENGLYNION BUDDUGOLIAETHAWL Y CADEIRIAU
 ESMWYTH,

Yn Eisteddfod y Fenni, Hydref 15, 1845; sef y Pedwar Englyn ar Bedair Cadair
 Esmwyth yn Llys LLANOFOR.

Y GADAIR GYNTAF.

I TI gyfaill teulu Tŷ GOFOR—y SANT,
 Wyf sedd yn Llan OFOR:
 Boed da 'r byd, pob da 'n ddi ddr,
 I ti gyfaill Tŷ GOFOR.

YR AIL GADAIR.

MAE 'r Prif-Fardd, mwynfardd mau?—Cyfaill
 Cyfaill twym, mawr ddoniau? [y Tŷ?
 O fewn gwledd caiff brofi 'n glau
 Mdr wych bod rhwng fy mreichiau.

ENGLYNION.

Y DRYDEDD GADAIR.

Y FINNAU a ofynaf—i henwr :
 Doed hwnw tuag ataf,
 Mae'n gysglyd ; gwynfyd a gaf
 Heno. Ef nis dihunaf.

Y BEDWAREDD GADAIR.

MINNAU rhwng fy mreichiau mynaf—Ferch fwyn,
 Y Ferch fo deilyngaf ;
 A hi 'n wir ddedwydd a wna
 Min nos. Ac a'i monwesaf.

YR ENGLYN BUDDUGOLIAETHAWL

Ar FFYNON OFOR, yn Eisteddfod y Fenni, 1845.

YF, ddyn ! wyf o ddaioni—'r Goruchaf
 Er gwir iechyd iti ;
 BU GOFOR i'm clodfori
 Yn fawr ; a'i Ffynon wyf fi.

ENGLYN ARALL I FFYNON OFOR.

HOFF iawn yw caffael Ffynon—o ddwfr glân,
 O ddwfr gloyw yn gysson ;
 Hyfryd, màl hyn, o'r hoywfron
 Y llif ffrwd GOFOR yn llon.

ENGLYN Y BUELIN.

Yr Englyn canlynawl a enillodd y CORN BUAL,¹ yn Eisteddfod Caerdydd, Awst 20, 1894: ac y mae yn argraffedig yn neuadd gweinidogion Llys Llanofor.

GWASTRAFF, eisieu ; DRWG YSTRYW,
 Gwarth a ddwg ;
 Ac wrth ddwyn gwarth, dystryw ;
 Da i bawb CYNNILDEB yw,
 A thad i gyfoeth ydyw.

ENGLYN I FFYNON ABERPERGWWM.

Yr Englyn isod sydd wedi ei dori mewn darn o graig deg tunell o bwysau, uwch ben Ffynon yn ngardd y diweddar W. Williams, Ysw. Aberpergwm, Morganwg. Er cofnod am Araña, lle y bu Mr. Williams, taflwyd cerig, o ddeng tunell, ac uchod, o amgylch ogylich y Ffynon, yn gyffelyb fal y gwelir o amgylch y ffynonau yn anialwch tywodlyd Araña.

Ho ! tro y sychedig truan—a llesg,
 Dwfr yn lli sydd yman ;
 Dwfr croyw, o'r Ffynon loyw lân,
 A ddeillia beunydd allan.

¹ Y Ffug enw oedd BUAL; a phan hysbyswyd mai BUAL oedd fuddugoliaethus ar 22ain o ymgeiswyr, yr Awdur yn nghanol y dyria a ddywedodd fal y canlyn.

Mae 'r fron hon yn llawenhân,
 " BUAL " y Corn a biau ;
 Dyger y Corn i DEGID
 Ar ei gais: Hwra' i gyd !
 Hynodawl o Gorn ydyw,
 Mi cadwaf tra byddaf byw ;
 GWENHWYSEIDDIAN ddyddan ddoeth,
 Mi a gefais im' gyfoeth ;
 Iechyd i'r ferch lanferch lon,
 Ac eilwaith iechyd calon ;
 Iechyd hawddfyd, heb groes hin,
 A choges dda i'w chegin.

ARALL I FFYNON ABERPERGW.

Y canlynawl a enillodd y Tlws arian, a chydag ef Gwpan Arian yn Eisteddfod
y Fenni, 1837.

O DDAIONI Duw i ddynion—llawn wyf
Lloned sychedigion !
Hoff y rhed o hyd ffrwd hon,
Gwiw lifiant ! mam gloyw afon.

CYFARCHIAD Y BEIRDD.

Bu i'r Awdur pan yn teithio, fynyddoedd maith yn ol, heibio Rhyd Lewis,
Ceredigion, gyfarfod âg un Mr. John Jones, o'r lle hwnw, yr hwn yn ddiifyr a'i
cyfarchodd â'r englyn canlynawl.

GWELAIS bryd TEGYD da agwedd,—golwg
Wiwlon a siriolwedd ;
Prydyddwr canwr ceinwedd,
Llyma wr yn llon ei wedd.

ATEB TEGID.

WYT ddyn doeth gwiwddoeth gwyddis,—da in'
Dy Awen uchelbris ;
Mae 'n hylwm ei grym, pob gris :
Rho dy law, Fardd Rhyd Lewis.

ENGLYN I JOHN HUGHES, YSW.

Englyn a ddanfonwyd mewn llythyr i John Hughes, Ysw. o'r Allt-lwyd, ger
Llanrhystyd, i'w rybyddiaw y byddai y Bardd a chyfaill yn galw heibio iddo.

BYDD bwyd yn Allt-lwyd i'n ill dau,—yn rhad ;
Llanrhystyd welyau :
A chân y gloch, ceirch yn glau,
Ffiolaidd i'n ceffylau.

MENYW A LADDODD EI MABAN.

CYRCHU a wnaed i'r carchar,—y fenyw
 Anfwyn ac annhrugar :
 Yn lladd ei phlentyn gwyn gwâr
 O'i golwg heb ddim galar.

TELYN ANN,¹

Sef Miss Ann Edwards, merch Caervallwch.

Y DELYN aur rhwng dwylaw—Ann Jesse
 Pob nos a rydd alaw ;
 Gan Dduw lwyd y lluniwyd llaw
 Y Seren i'n cysuraw.

Y delyn euraidd a wylodd,—ar ei hol,
 I'r helyg y ciliodd ;
 Am farw ANN ymferwinodd
 Ei sain hoff, a'i sw'n a ffodd.

ENGLYN BUDDUGOLIAETH

Ar ddiwedd dadl rhwng y Bardd a'i gyfaill.

BOED hedd ar ddiwedd y ddadl,—yn y fan
 Terfynaf y gynnadl ;
 O'th ochr di 'r aeth hi 'n hadl,
 Wr enwawg, cymmer anadl.

¹ Bu farw y ferch foneddig uchod yn y flwyddyn 1845, a'i thad wrth hysbysu y newydd galarus i'r Awdur, a ddywed fâl hyn :—
 “ Mae ei Thelyn wryn ar yr helyg yn vud.” Hyn fu achos cyfansoddiad yr ail Englyn.

ROBERT DAVIES, (*Bardd Nantglyn.*)

YMLLITH cant glew ein Bardd Nantglyn,—ei ail
 Ni welwyd am Englyn ;
 Curai Feirdd, henfeirdd yn hyn,
 Mewn adeg un mynydyn.

GWAWR FOREU UWCH GWELY OYFAILL.

‘ Y CYSGADUR cais godi ’—o’th wely ;
 I’th aelwyd gwna godi ;
 Gwel mai hardd ar fardd fal fi,
 Yw gyda’r wawr i godi.

BEDD DAFYDD IONAWR.

GWEL fedd, gwilia ei faeddu ;—bedd oer Bardd,
 Bedd i’r byw i’w barchu ;
 Nos a dydd beunydd tra bu,
 Gwiwnod Gywydd gwnai ganu.

CYMRO MEWN GWLAD ESTRONAWL YN
 GWELED GAFR.

I GYMRO o’i fro daw i’w fryd—a’i gof,
 Wrth weled Gafr wenbryd,
 GYMRU hen; a gwên i gyd,
 A thyfa hiraeth hefyd.

I FEDDWYN.

O ——— ! mae yn syndod—dy weled
 Yn dilyn y ddiod ;
 Yn dy gwrw ddoe, a'th feddwod ;
 Dy olwg oedd un gŵg dd.

Y TREWLWCH.¹

IACHAAD i'r llygad yw'r llwch ;—gyr o ben
 Garw boen a dyrswch ;
 Try alar, mawl i'r TREWLWCH
 Yn fflam o lawenydd fflwch.

I MR. D. R. REES, LLANYMDDYFRI,

Pan dderbyniodd fflwch arian, yn anrheg gan wyr y dref hono.

BLWCH arian llwysaidd hardd tanlli,—a drud
 Gan dref LLANYMDDYFRI,
 Anrheg teg a roed i ti,
 RHYS ! atat ; hiroes iti.

ENGLYN ANNERCH

Y PARCH. J. WILLIAMS AB ITHEL, M.A.

Ar yr achlysur o'i briodi.

LLWYDDIANT it', a phlant hoff lu ;—a Phlwy',
 A phlas i gartrefu ; [Syr !
 Ac i'th fynwes gynhes gu,
 Iechyd i lawenychu.

¹ Trewlwh *vulgo* Trwynlwh, Snuff.

ENGLYN I FAB YR UN GWR PARCHEDIG,

Pan yagrifemodd ei dad i ddywedyd fod y bachgen yn ddyw flwydd oed.

I'r mab dwyflwydd bid llwyddiant,—doniau
 A Duw'n amddiffyniant ; [mawr;
 Ernes caed yn NGLAN HIRNANT¹
 Dan sêl Duw, ei fod yn Sant.

CRIB PAIS CYMRU.

DRAIG GOCH fawr ruddgoch ymroddgall,—
 Nid Gafr, frefiad diball, [ryfalch,
 Yw arwydd eu CYMRU ; gwall
 Rhoddi oer arwydd arall.

TEITHI GAFR.

PAU'r Afr yw'r creigiau'r, lleoedd cras—a gwyllt,
 Neu wrth gw'r coed briglas ;
 Ni cherdd, mae 'n falch o'i hurddas,
 Ac ni bydd mewn bröydd bras.

I ENLLIBWR.

Un tro pan oedd y Bardd ar ben Cerbyd yn myned o Gaerfyrddin i Rydychain, daeth i fyny i'w ymyl ddy'n o'r enw Morgan, yr hyn beth a ddygwyddodd rhwng Llandellofawr a Llangadoc. Ar ol eistedd o Forgan i lawr, 'Tegid,' eba'r Gyriedydd, 'Dyna'r enllibiwr penaf yn ein gwlad. 'Da chwi canwch air iddo; canys dywedodd gelwydd ofnadwy am ferch ieuanc rinweddawl o'r gymmydog-aeth hon.' Ac yn y fan cyfansoddwyd yr Englyn canlynawl. Ar ol clywed o Forgan yr Englyn, neidiodd i lawr yn fyrbwyll o ben y cerbyd a phawb yn bresenawl yn chwerrhin eu goreu.

MORGAN du aflan Dieffig,—y lleban
 Enllibiwr cythreulig ;
 Nid oes a'th fawl, y diawl dig,
 Celwyddwr cywilyddig.

¹ Enw y tŷ lle yr oedd AB ITHEL yn byw.

ATEBIAD I WAHODDIAD YR HYBARCH
J. JONES, B.D. ARCHDDEON MON,

Yn gofyn i'w hen gyfall y Bardd ddyfod i ymweled âg ef ar ol blyneddoedd
o ymddyethrwb.

YR Archddëon Mon a minnau—'n mawr swm
Yn son am hen bethau ;
A byddem wrth ein boddau
Wrth y tân, yn ddyddan ddau.

I GAERFALLWCH.

"The Welsh language will soon sink into oblivion." CAERFALLWCH.

GWR cibddall yw CAERFALLWCH,—ac oriawg,
Ei eiriau na chredwch ;
I ffwrdd nid aiff o'i harddwch
Ein iaith fawr i'r llawr na'r llwch.

BUWCH ARIAN.

D. Davies, Ysw., Castell Aberteifi.

O CHERI y fuwch arian,—ymofyn
Am hufen i'th gwpan ;
A chan y fuwch wên fechan,
Cei hwnw 'n hufen gloyw glân.

TEITHI Y GAREG GALLESTR.

CEIR tân o Gallestr a llestri, a gwydr,
Teg adrawd ei theithi ;
A gwir hyn os llosgir hi
Yn galch, ceir¹ Sebon golchi.

¹ Silica soap.

ENGLYNION.

HENAINT.

"Henaint ni ddaw ei hunan." DIAB.

"HENAINT NI DDAW EI HUNAN":—henair yw
Yn wir oll yn mhobman ;
Edrych ar ddyn mewn oedran,
Llun ei wedd, mae oll yn wàn.

DYNION MEDDWON.

NID dynion meddwon i mi:—dynion na
Adwaenant ddaioni ;
Yn ddibaid "LLYMAID O'R LLI"
Yw eu gwaedd, ac eu gweddi.

ADFERIAD Y DELYN.

DILLIAU mêl ddaw o'r Delyn—dyferawl
Er difyru cannyn ;
Unwaith eto mae 'n ennyn
Serchiadau a doniau dyn.

ENGLYN I'W OSAWD AR FAINC GAREG O DAN
DDERWEN.

CADAIR, dan frigawg Goeden, o faen nadd
I foneddu Derwen ;
Mainc hardd-i'r iouanc a'r hen,
A lle i fod yn llawen.

I DRWYNLWCH LLANERCHYMEDD.

Gwir yw, os trwynlwch a gaf,
 Y melyn a ganmolaf;
 Molwch y trwynlwch melyn,
 O! drwynlwch, dedwyddwch dyn.

ENGLYN Y CYMMOD.¹

Ar ol ymladd lladd a llid,—a phob croes,
 Rhyw oerloes; hir erlid;
 Tagu, llindagu TEGID;
 Er da! dattoder y did.

¹ Anfouid yr Englyn uchod, mewn llythyr, at DANIEL DDU, i ddaisyfu arno adnewyddu ei hen gyfeillach yr hon a aflonyddasid wrth ei waith yn ochri ac ysgrifenu o blaid y Parchedig BRUCE KNIGHT, ag oedd y pryd hwnw yn cynnal dadl yn erbyn yr Awdur ynghylch llythraeth yr Iaith Gymraeg. Bu yr Englyn yn achlysur o gyfansoddiad Cywyddau y Cymmod.

CYWYDDAU.

CYWYDDAU Y CYMMOD.

RHYW ingus ddadl fu rhyngom, A ffrwd lleferydd rhy ffrom ; Llefwaith yng nghylch sillafu Yn iawn, ein hiaith geinlawn gu :	4
Os anwyl a glwys inni Ein mwyn iaith, a'i haraith hi ; Na fydded hynny 'n foddion I faeddu, na llaesu llon Gyfeillach fwyniach a fu Rhyngom yn hir ehangu. Boreu 'n hoes fu 'n burion hedd ;	8
Diau nynt ein deuwedd Gwelwyd yn llonni 'n gilydd Dan fad wên yr Awen rydd, Ym mhell o wlad ein tadau, Yn RHYDYCHEN, burwen bau :	12
O fewn y beraidd fwynardd, Du fodd, ni chaid ond <i>dau</i> fardd ; Dim ond dau goreu 'n cael gwên Y rywiog lwysber Awen :	16 20

Ni adwaenai o'r dynion	21
<i>Un</i> ond <i>ni</i> , y lili lon,	
Tegid diflin a minnau	
Dan y gwýdd cerdd fad yn gwau.	24
Dau oeddym o dueddiad	
Eirian glwys i garu 'n gwlad ;	
A siarad am gysurol	
Hen GYMBU lân, ddiddan ddól,	28
A gynnwysai 'n gain iesin,	
Oll i'n oedd ail llonaid win.	
Hyn cofiwn ; rhoddwn yn rhydd	
O galon law i'n gilydd.	32

DANIEL DDU.

Ar ol hyn derbyniodd y BARDU DU y canlynawl:—

DY gywydd, gwaith celfydd coeth,	
Cefais ; nid rhaid gwell cyfoeth ;	
Cywydd o dda ddefnydd yw,	
A chadarn iaith serch ydyw ;	4
Cywydd newydd, iawn wëad,	
O ddawn glos pen bardd ein gwlad ;	
Da genyf dy deg annerch,	
A thrwy oes y'th eiriau serch ;	8
Dy law yn fy llaw yn llon,	
(Gwel, DANIAL, friwiau 'r galon)	
Derbyniaf ; gwelaf w'r gwych !	
Dy ddagrau ; dy wedd ogrych ;	12
Bellach ; ia, bellach byth,	
Er gwae a fu 'n dragyfyth,	

Calon wrth galon gwelir ;	15
A chwai hwynt a iachêir.	
Ar ol nos rhy wela 'n awr	
Oleu eurwedd, dysglaerwawr ;	
Buom â chalon drom, dro,	
Drwy gamrwysg hydr Gymro ;	20
Gwae o'r dydd caed geiriau du,	
Neu anfwyn ysgrifenu ;	
Bellach canu 'n iach gwnawn ni,	
Drwy genad i'r drygioni ;	24
A'i adael i gael amgeledd	
BRUCE KNIGHT, gwr barus o NEDD.	

CYWYDD I "GYWYDDAU Y CYMMOD."

Ni wedd i Awenyddion	
Ymgecru, sathru, a son	
Y naill am y llall mewn llid,	
" Rhyw oerloes a hir erlid ;"	4
Geiriau mwynder, grym undeb,	
Beirdd ein gwlad anad neb	
A ddylent gwir ddilyn,—	
Heddwch yw dedwyddwch dyn,	8
Brawdgarwch sy brid goron,	
I bawb baich yw byw heb hon :	
Draig annwn, llawn drygioni,	
Ydyw cnul ei helbul hi ;	12
Nwyd anwar, llawn dewiniaeth	
Uffern, yw hen gynhen gaeth :	

Dynstr a gais ei dannedd,	15
A maith glwyf yw moethau 'i gwledd ;	
Afradu pob hyfrydwaith	
Ydyw swm ei dewis waith :	
Gocheled rhag ei choledd,	
A'i dwyn, y b'om hyd ein bedd.	20
Er digio 'n frau o DEGID,	
Rhoi lle i chwerwder a llid,	
Ni fynai (rhyglyddai glod)	
Ymgomio ond am gymmod ;	24
Gan estyn llaw, feinlaw fwyn,	
I'w hen gyfaill yn gufwyn.	
A DANIEL, yn dawel deg,	
Coffeidiai 'r cyfle hoëwdeg,	28
I dda iach ymheddychu	
A hen gâr, oedd byth yn gu ;	
Yn llon fwyn, mewn llawen fodd,	
Hapus, llaw TEGID cipiodd ;	32
Yna 'n hoenus, foddus, fad,	
Gwiriai 'r naill i'r llall gariad.	
“ Y did dattodwyd er da, ”	
Hyfrydfwyn a fu 'r oedfa :	36
Hen gyfeillach rwyddiach, rydd	
Galwent i gof eu gilydd ;	
Iawn deimlent ryw hen dwymilon	
Wÿth serch yn cynneu, wrth son	40
Am yr amser pêr fu, pan	
Ydd oeddynt yn mro ddyddan	
RHYDYCHEN, tan gangen gwŷdd,	
Yn gwiwlwys fwynhau 'u gilydd,	44

A gwiwnaws hyfryd gwenau 45
 AWEN bêr yr hen lon bau.

Heb ail gweryl, blaguro
 Mwyach eu cyfeillach fo. 48

IOAN CUNLLO.

CYWYDD O DDIOLCH I IOAN CUNLLO.

HEDD i IOAN wiw ddeall,
 Hedd i GUNLLO, Cymro call,
 Gwn Bardd yw, ceis gân o'i ben,
 A chywydd;—parch i'r AWEN. 4
 Unrhyw wêg, neu un drwg dro,
 Nac enllib ni char CUNLLO;
 Ei hoffedd ef hedd o hyd,
 Hoewfron, a brodyr hyfryd; 8
 Undeb rhwng beirdd awenbur,
 A gwir serch nid geiriau sur.
 Hylwydd im' a DANIEL DDU,
 Iaith gynhes, y gwnaeth ganu, 12
 Ha, wr glew! eiriau o glod;
 Ac am Gywyddau 'r Cymmod.
 Diolch i IOAN Tad AWEN,
 Ys bardd yw,—Bardd da dros ben; 16
 Ei Gywydd yn deg a wëai,
 Heb na bwlch, mewn ban, na bai.
 Bid ffyniant i'w feddiant fo,
 A llwyddiant gwell-well iddo. 20

MORWYNION GLÂN MEIRIONYDD.

Y Cywydd hwn a ennillodd yr Ariandlws yn Eisteddfod y Bala, Awst 11, 1836.

"But what Bala is most famous for is the beauty of its women, and indeed I saw there one of the prettiest girls I ever beheld."—Lord Lytton in his letter to Archibald Bower. *York's Royal Tribes*, p. 23.

MORWYNION glân MEIRIONYDD!
 Eich mawl yn anfarwawl fydd;
 Anfarwawl tra mawl yn Mon,
 A MORUS¹ yn caru MEIRION. 4
 Eich clod a fydd beunydd byw,
 Mawredig gem aur ydyw.

Llon ynt oll, a hoen ynt hwy,
 Pob un fun sydd Fyfanwy.² 8
 Uchelfryd, llawnserch, haelfron,
 Gwên ddibaid a llygaid llon;
 Ond gŵyl er hyn ydyw gwedd
 Eu llygaid a'u holl agwedd. 12
 O! cymmaint eu braint a'u bri,
 Miloedd yn eu canmoli.

Na henwer, mae o honynt
 Fun goeg, ail MYFANWY gynt, 16

¹ Lewis Morus, neu Llywelyn Ddu o Fon, yr hwn oedd hynafiaethydd a bardd. Efe yw awdur y gân a elwir, "Caniad y Gog 'i Feirionydd;" yn yr hon gân y cair y geiriau hyn, "Morwynion glân Meirionydd," sef testun y Cywydd presenawl.

² Myfanwy oedd rian hardd, a theg o bryd, yn byw yn y 14eg ganrif. Ei chartref oedd Castell Dinas Bran, ac yn y *Myfyrian Archaeology* y cair yr Awdl a gyfansoddwyd iddi gan Hywel ab Einion Llygliw. Yr oedd Hywel yn ei charu ac yn ei pharchu yn fawr, ac yn ceislaw ei hennill yn wraig iddo; ond er ei gariad ati, ac er awenyddu iddi, nid allai lwyddaw gyda Myfanwy.

Na châr, mae 'n fyddar i fardd, 17
 Yn anfwyn wrth Awenfardd.
 Yn more f' oes yn MEIRION,
 A phen hurt yr hoffwn hon ; 20
 A phan hÿn hoffwn o'i hol
 Rhöad ei throed ar heol.
 Er ei mwyn os anfwyn fydd,
 Mòr anwyl im' MEIRIONYDD. 24

MORWYNION glân MEIRIONYDD !
 Eich mawl yn anfarwawl fydd.
 Cafwyd gwiwfeirdd i 'ch cyfarch,
 Goreu beirdd, a gwyr o barch ; 28
 A beirdd gwiwfeirdd a gyfyd
 I 'ch cyfarch, trwy barch, tra byd,
 Yn eich heniaith berffaith bur,
 Hoffusaidd heb gloff fesur. 32
 O enau bardd hardd yw hon,
 Dynodir, llawn deniadon ;
 Ond melusach hoffach hi,
 Y briffaith, ond gwiw brofi 36
 Mòr drefnus, mòr felus fwyn,
 Y mera o fin morwyn.

MORWYNION glân MEIRIONYDD !
 Eich mawl yn anfarwawl fydd. 40
 Yn hardd llawer bardd â'i bill
 A'ch annerch er eich ennill ;

A minnau hyn ddymunaf	43
Tros fy ngwlad, o cenad caf, Gael genych chwi hoffi 'ch hiaith, Un hynod yw ein heniaith ; A heniaith yw 'n iaith yn wir Pur hefyd os ei profir ;	48
Trwyadl, hardd ei chystrawen, A gwir hardd ei geiriau hen. Iaith deg,—iaith y duwiau gynt, Dwned HOMER am danynt ; Iaith enaid y CELTIAID coeth Dynion nad oeddynt annoeth ; Iaith DERWYDDON, dyfnion dysg, Aur heddyw mēr eu haddysg ;	52
Iaith Brenhinoedd, llysoedd llawn, Iaith hen gyfreithiau uniawn ; Iaith y Beirdd doeth eu hurddas Drwy y byd iaith uchel dras, Eich iaith, O ! mynweswch hi ! A bydded rhwydd-deb iddi. A'i marw a gaiff yn MEIRION ? Marw ? O, na ! na marw yn MON.	56
	60
	64

Daiar yn uchel gwelir Yn lle Nef, mae 'n llawn o wir ; Unfodd y try 'r Nef wenfawr O'i lle i le daiar lawr ; Cyn marw o'r iaith heniaith hon, Bleth dinam, o blith dynion.	68
---	----

AR FARWOLAETH Y DYWYSOGES SIARLOT,

Merch Tywysawg Cymru, yr hon a fu farw ar enedigaeth dyn bach.

*Pallida mors æquo pulsat pede tabernas
Regumque turres.—HOR.*

Du oernad sy drwy 'r deyrnas
O farw ei grym, fawr ei gras,
Sef SIARLOT wâr, liwgar lân,
A'i baich y maban bychan ; 4
Wb! galar sy 'n mhob golwg
I'w ganfod gan drallod drwg,
Ochain a gwaedd o'r achos
I'n llethu a'n nychu 'r nos ; 8
Tristwch yw BRYDAIN trosti,
O f' un deg! o'th fyned di.

Y Gwr oedd ddoe â'i gariad
Yn ei gynhes fynwes fad, 12
Heddyw sy brudd ei ruddiau
A llwyd oll wedi colli dau.
Llwyr ing i ni, 'r ddau lliw 'r ôd
'Hedasant o'r byd isod 16
Draw i'r nefoedd llecedd llon
Hoen euraidd Delynorion.

Pob drylliau, pob clychau clod
Bore a hwyr oedd barod 20
I roi bloedd a chyhoeddi
Llawenydd newydd i ni ;

A'r awr a ddaeth ; O diaethawl ; 28
 Mae cynneu mellt ? Mae canu mawl !
 Ust ! mae y byd yn ddystaw
 Heb sain, mae ar FRYDAIN fraw ;
 MARW a glywir yn MEIRION
 Yw y newydd sydd, arw sôn, 28
 Mae beunydd drist newyddion
 Os marw SIARLOD hynod hon.

Och ! newydd garw, Och ! marw mam
 A dwyn ymaith ei dinam ; 32
 Och ! i ni, am lili lon,
 A.gwr i ddod i'r goron.

Urdduniant goreu ddynion
 A pharch hyd ei harch ga'dd hon ; 36
 Un oedd o wiw rinweddau,
 Mâl ei hoed a fai 'n amlhau ;
 Mwynaidd, arafaidd erioed
 Wrth bawb oedd hi, wrth bob oed. 40

Och ! angau â'i gleddau glas,
 Dyrnod a roes i'r deyrnas,
 Wrth dori Gwen, gangen gu,
 Yn y bôn i'n dibenu ; 44
 Cyn i aeron ei lloni
 Ebrwydd daeth ei hafwydd hi,
 Gwedi ffrwytho, llwytho 'n llawn,
 Gwen anwyl ! gwywai 'n uniawn. 48

O angau ! diau mai dim
 Yw 'n dyddiau, ie, diddim ;

Y foru ni a fwir	51
I'r llwch, a'n tegwch o'r tir ;	
O chefaist Gwen â'i chyfoeth,	
Balas nerth ! i'th balas noeth ;	
Arian neu aur ni weryd	
B'lasau mwy no bythau byd.	56

I DAFYDD LEWIS, YSW., O GILCENEN, SWYDD
GEREDIGION,

Yn awr (1884) yn Llundain, pan y derbyniodd ei raddiad o M.D.

Docton, dod gynghor i'r gwan,	
Yn y bore heb arian ;	
Y prydawn para di nhwy,	
Yn ebrwydd ddod a gobrwy ;	4
Mae hyn yn deg, mŷn iawn dâl,	
Ni foddia bod rhy feddal ;	
Gwilia, na chwaith rhy galed,	
Iawnder yw cryfder cred ;	8
Gwilia ar dy galon,	
Wyt hael, na boed galed hon.	
Os mawrion ddynion a ddaw	
Yn gysson yn dy geisiaw,	12
Aur o'u llaw myna, wr llon,	
Y <i>gini</i> ,—nid arian gwynion ;	
Y <i>gini</i> â theg wyneb	
Hwn i ti ni omedd neb.	16
A chai glod o iachêi glaf,	
Dy enw minnau a daenaf ;	

O byddaf glaf, wr o glod,
Yma heddyw gwnaf ammod ; 50
Gwir yw at feddyg yr af,
I feddyg bardd a fyddaf.

GALAR Y BARDD.

Wylaf dro; tawaf wedi.—LLYWARCH HEN.

HIRAETH y sydd i'm haros
Beunydd ; och ! yn nydd a nos ;
Llym iawn fâl blaen picell yw,
Hawdd gweyd, yr hiraeth heddyw. 4
Blinir fi yn hir gan hwn,
Miniawg yw ; ef nis mÿnwn.
Hiraeth am dad, ni 'm heiriach,
Ac am fam oedd fwynfam fach ; 8
Ac am GWEN, fy chwaer wên oedd,
Mawr y tro marw y trioedd !
Amddifad o dad ydwyf,
O DDUW ! ac heb fam ydd wyf. 12
Ni welaf yr hen aelwyd
Yn llon mwy, ond llwm a llwyd.
Delwodd cyfeillion dilyth,—
Yn iach, BALA ! bellach byth ; 16
A LLYN TEGID, hyd a lled,
Eleni er ei laned.
Yn iach MEIRION diriondeg
A roai i'm bur Gymraëg ; 20
Yn iach fryniau, 'n iach fronydd ;
Hyd f'oes mwy ym gofid fydd

Gorfod troi, nid o'm gwirfodd, 23
O'm hen fân oedd wrth fy modd.

Wylwyd o'u rhoi ar alawr,
Un fodd, yn NGHAEFFYRDDIN fawr ;
ELEN fy chwaer yn wylaw
Yn drwm, a'm brawd DAFYDD draw. 28
Nid oes neb a gollodd dad,
Neu fam gywir, gwir gariad ;
Neu chwaer wyl, anwyl eneth,
Yn y byd na wylai beth. 32

Heddwch i'w llwch lle llechant,
Ac angelion gwynion gânt
Gwylent ef yno hefyd
Yn y bedd, tân ddiwedd byd ; 36
A'u du fedd gwarchadwent fil
Acw yn monwent LLANYCIL ;
A'u cyrff hwy dygent lle cânt
Fyd gwell pan adgyfodant. 40

I bawb a barcho eu bedd
Deued da yn y diwedd ;
A barcho eu bedd a berchir,
Cyn marw ceiff hwnw oes hir. 44
Sawl a blano arno îr—
Lysiau, ef a hwylusir
Yn ei amcan ; buan bydd
Ei glod ef drwy y gwledydd ; 48

CYWYDDAU.

113

A phan fo marw hwnw 'n hen,	49
A'i roi yn y ddaiaren ;	
Ei fedd ef un fodd a fo	
A gwyrdd ddail teg i'w urddo.	52

BRWYDR WATERLW.

Am ddyinion dewrion fel dur	
A nerthol fel hen ARTHUR,	
A chreulawn yn llawn eu llid,	
Yn llefain am hyll ofid	4
I'w gilydd, drwy frwydr galed,	
Drwy ymladd gan ladd ar léd ;	
Cân yn hylaw fy Awen	
Eres bur, gerdd dda dros ben.	8

A'r nos yn gorchuddiau 'r nen,	
Ddu oriau ! a'r ddaiaren,	
Llifai fel erchyll afon,	
O lid haer dros y wlad hon.	12
Dros waenydd, dolydd dulas,	
Dros foelydd, a bronydd brás ;	
Gwyr gelydol fradol fron,	
O luoedd NAPOLEON !	
I ddifa 'n ei gyrfa gâs	
Olynol gwnaent alanas.	

A hwy yn dylifaw o hyd	
I'r unlle, wedd ddychrynlyd !	20

NAPOLEON, ÆON WR, 21
 Y dawnus anudonwr,
 A roddai awr gydâ 'r wawr wan,
 "Deuwch oll neidiwch allan 24
 Fy ngoruchel ryfelwyr,
 Can 's gwelaf—gwelaf y gwyr."

Ar ei air, wele 'r oror
 Fel terfysgawg ferwawg fôr 28
 Yn fyw, nes ydyw f' AWEN
 O'i phwyll ar guddio ei phen.
 Yna 'r brynian a'r bronydd,
 Gydâ 'r dyffryn yn synu sydd ; 32
 Gan uchel swm magnelau,
 Yn canlyn y gelyn gau.
 Trichant o'u boliau trachwyrn
 A fwrient, a chwalent chwyrn 36
 Gawodau o belau byw
 Astrus,—ofnadwy ddystryw !
 Y mellt oedd yn ymwylltiau
 O'u ffroenau yn droiau draw, 40
 A th'ranau o'u safnau serth
 A ynfyd ruai 'n anferth.

Ac yn ol y magnelau,
 Rhuthrai dynion ¹ gwylltion gau ; 44
 I aethus ddechreu weithion
 Y frwydr ffyrnig hylilig hon.

¹ Gwyr rhych-ddrylliau Ffrainc.

Meirch ¹ angeuol o'u hol hwy	47
A neidient yn ofnadwy,	
Ar wŷr ALBION, lymion lu,	
I'w gwyneb iddeu gwânu ;	
Yn feirch na tharf er arfau,	
Er gwn cryf, er cleddyf clau,	52
Ond llon, flinion, aflonydd,	
Beilchion, bensythion hwy sydd,	
A thanlyd, gwaedlyd, llawn gwŷn,	
O awydd yn bwrw ewyn ;	56
A'u dull yn myned allan	
I'w weled oedd ail i dân	
Yn difa gwellt, neu ellydd	
Yn ddi-oed o goed a gwŷdd.	60
Daiar gron dir a grynai	
O dan y cedyrn chwyren chwai,	
Wrth aruthr a brwd ruthraw	
Yn drwm, ar eu penau draw.	64
Er rhuthro, gwthio 'u gwaetha'	
Yn erbyn y mur dur da ;	
Ni ddrylliai, ni siglai sail	
Y gauedig gu adail.	68

Ddu gawdd ! am na thyciodd gwr,	
Ymwridiai 'u Hamerawdwr :	
Yna o'i ddrwg anian,	
Gan fod ei dafod ar dân,	72

¹ Gwyr meirch Ffrainc.

A'i ddwyllaw am danaw 'n dŷn, 73
 A'i olwg ar ei elyn ;
 Lid aphwys ! feddwl diffaith !
 Heb deimlad na chariad chwaith ; 76
 "Gwn air," eb ef, "mai gwan y'nt
 Aed eto hwy hyd atynt."
 A rhai a floeddiar yn rhydd,
 "ELAWEN A BYW FO 'N LLYWYDD" 80
 A'u llef hyd y nef yn llwyr.
 A ruai drwy yr awyr ;
 Ac ai arfog farchogion
 Ar frys oddi ger ei fron ; 84
 Ail mellten, neu fflam wylltaf,
 Neu gysgod lân huan haf ;
 I ganol andwyol dân,
 I lidiog laddfa lydan, 88
 I ddiluw o ddialedd ;
 I ofid tost o fyd hedd.

Ni feiddiar o'r ddwy fyddin,
 Er cenllysg trwm o blwm blin ; 92
 Er ing dwys, er angeu du,
 Gymhell troed i ddadgamu ;
 A MAWRTH¹ fu ddystaw a mud
 Er eu mwyn lawer munud 96
 O naddunt neb ni wyddiad
 Bwy yw 'r gwr a bia 'r gâd ;

¹ Daw y rhyfel.

A'r FFRANCOB y diwrnod du 99
 Yn wyrthiol iawn ymnerthu,
 A gwisg bres yn gwasgu 'u bron,
 I gelu a chadw 'r galon ;
 Dair gwaith draw y gwthient,
 Ond y tair gwaith ymaith ent, 104
 Fel hyn tŷn, sŷn, llŷn fu 'r lladd,¹
 Amlwg fod angeu 'n ymladd ;
 Y cleddyf oedd yn claddu 108
 Yn eigion y galon gu ;
 A môr o waed y meirw oedd
 Yn berwi, 'n llenwi 'n llynoedd.

Nid ellir gosod allan
 A mil o dafodau mân 112
 Yr wylaw dwys a'r alaeth,
 A'r lladd och ! i'r lle a ddaeth ;
 A'r ddaiar roddai larwm,
 Gan ruddfan yn druan drwm. 116

Eb WELINGTON, " ALBION WYR,
 A giliwn rhag bygylwyr ?
 Os y tir rhoddir i rhai 'n
 Frodyr, pa glod o Frydain ?" 120
 A chryfder i'r niferoedd
 Mewn effaith ei araeth oedd.

¹ Darluniad yw y llinell uchod o swm arfau ein gwyr ni yn ym-
 gymysgu â'r rhai hyn o'r gelynion ag oedd â gwisg bres yn eu
 cylch ; " a thebyg," fel y dywedodd un o'u milwyr, " oedd y swm i
 drws mil o Eurychod yn curaw ar yr un pryd beiriau a chrochanau."

Er i flinder trymder trwch 123
 Eu bwrw o'u pybyrweh
 Eu nerth a ddychwelai 'n ôl
 Ar eiriau ARTHUR wrol.
 I'w plaid do 'i llu ¹ tanbaid têt
 Anhudol, dan ehedeg ; 128
 A'u gelyn na wnai giliaw
 Sy 'n ffoi yma a thraw
 Yn gynddeiriawg ofnawg oll,
 Yn orchwyrn dan ei archoll 132
 Heb fan na Llan ar un llaw
 A faidd roi noddfa iddaw.

Och ! derfysg ! derfysg dirfawr
 Rhwng byddinoedd lluoedd llawr ! 136
 A dynion o ddyfnion ddysg,
 Yn darfod gan wir derfysg.
 Rhai yn isel heb amgeledd,
 Yn ddibarch, heb arch na bedd ; 140
 Rhai eraill yn rhÿ oerion
 Gan glwyfau, briwiau o'r bron,
 Yn methu 'n lân ymwithaw
 O un lle, na throed na llaw, 144
 Ond cwynfan, gruddfan yn groch,
 Nes treiddiai eu llais trwyddoch.

O feirwon ! ni chaf eiriau
 I iawn drafod eich clod clau ; 148

¹ Y Prwssiaid.

	CYWYDDAU.	119
Ai fy Awen yn ddi-fywyd		149
Cyn datgan y gân i gyd.		
Yn eich mysg, yna iach mwy		
Lu odiaeth canmoladwy ;		152
Picton fywiawg enwawg wr ;		
A folaf ddewr ryfelwr ;		
A hoff iawn i ni goffâu		
Un a ddiengodd angau,		156
Y celfydd ARDALYDD da		
Hynaws, mwyn Ynys Mona.		

I ni mawr ddaioni ddaeth,		
O gael y fuddugoliaeth ;		160
HEDDWCH yn lle tristwech trwm,		
A gwarthrudd llwythog orthrwm,		
Pan y rhoes EWBOPA 'n rhydd		
O'i gwaeau yn dragywydd.		164
Canaf gainc, er i FFRAINC ffrom,		
Beri orn a braw arnom ;		
Ein BRYDAIN wên yn ben bydd,		
Oreu gwlad ar y gwledydd.		168
Eleni mae 'n gelynion		
Mewn trallod, syndod yw sôn !		
Tra eu harfau 'n gwau 'n y gwynt,		
Dynion a syrthiai danynt ;		172
Oer iâs a'i drwy d'yrnasoedd		
O'u blaen, gan uwchder eu bloedd.		
Ond amgyleh ogyleh eigion		
Y FEL YNYS hysbys hon,		176

Bu mur o dân seirianwedd	177
Difylchau, rhag clwyfau cledd,	
A Dŵ yn ei gariad oedd	
Yn llywio gyrfa 'n lluoedd ;	180
A bid eto 'n dirion dŵr	
Ein ffon a'n hamddiffynwr,	
Ac mewn hedd, hyd ddiwedd oes,	
Yn darian i'n gwlad eirioes.	184

CYWYDD Y DIFFYN.

ANGHLOD ni chaiff CARN INGLI,	
Na chaiff genyf fi na chwi ;	
Na thrydydd, pe 'n athrodwr,	
Na chan neb â gwyneb gwr.	4
Haedd, hoff wr ! glodydd a pharch,	
Mawl gwiwfeirdd mil i'w gyfarch ;	
Haedd yn ddifrif glod Prif-fardd,	
Clod pob Cymro a fo 'n fardd.	8
Adwaen ef, bardd da ydyw,	
Gwyr ei iaith, Cymreigiwr yw,	
Ef noddaf, tra gallaf gael	
Fy nghyfaill yn fy ngafael.	12

HU GADARN.

Y DEFNYDD.

Dangaws rhagoriaethau HU GADARN—enwau y gwledydd neu y manau trwy ba rai y teithiasant y CYMRU o DEFFROBANI i YNYS PRYDAIN—darluniad o'u teithian, eu lluniaseth ar y ffordd, eu chwarenyddiaethau a. r. c. nes cyrhaedd y Môr TAWCH—araeth HU cyn croesi y môr—yn mynegi y modd buwyd iddo glywed gyntaf am yr Ynys, ynghyd ag ei fwrriad i fyned iddi—parodrwydd y lluoedd i ddilyn ei gyngor—darluniad o'r bore y dringasant idd y llongau i ddyfod trosodd—eu dyfodiad i olwg PRYDAIN—llawenydd HU wrth ganfod yr Ynys—ei ganmawli gan ei ganlynwyr—eu glaniaf—HU yn dysgu iddynt amaethwriaeth—dala afancod—HU y cyntaf gŵr a ddeisyfiawdd ffordd idd eu dal—rhanu yr Ynys—Awen HU.

* * * * * litusque rogamus
Innocuum, et cunctis undamque auramque petentem.
VIRGIL.

HU GADARN hoywa' geidwad,¹
 Gwiw lyw, glew, bugail gwlad ;
 O ! gymmaint ei fraint a'i fri,
 Llawn dawn a llawn daioni ; 4
 Llawn dawn mâl uniawn ynad,
 Llawn rhadau teimladau tad ;
 Llawn gwybodaeth odiaethawl,
 Deall ga 'i dywyll a gwawl ; 8
 Galwai wrth enw ddirgelion
 Pob peth, hyd grêth² daiar gron.
 Carwr a rhoddwr heddwch
 A hoff lais cyfiawnder fflwch 12

¹ Trioedd liv. Gwel, *Cambrian Register*, t. d. 163.

² Crêth—the principal cause,

“ Dyweda di pa grêth oedd i lymân
Anwydau ein prif riaint.”

Oedd ;—rhag rhyfeloedd ¹ ar hynt, 13
 Moriai â hwyl i'r mawrwynt.
 Na chymmysg terfysg torfoedd,
 Gwell y môr â'i derfysg oedd ; 16
 Hoffach, melusach no mel
 Rhwyfaw o gyrhaedd rhyfel,
 Gan ffoi—troi, rhag briw traha,
 I wlad draw fa 'i ddystaw dda. 20

Pen cenedl i'r genedl gynt
 Difai oedd,—da fu iddynt ;
 Arweiniai hwy trwy rinwedd,
 I fyd o hawddfyd a hedd, 24
 O lid a rhoch “Gwlad yr haf”
 I dda Ynys ² ddianaf,
 Ac i gainc ³ o FFRAINC yn ffraw,
 I roi sail i breswylaw. 28

Pa dafod ffraeth all draethu,
 Fyth y blinderau a fu,
 I'n tadau,—gwaeau ag oedd
 Neu antur eu helyntoedd? 32
 Pwy yn ôl rêd i'w holrhain
 Trwy INDIA ac ASIA gain,
 Ac hefyd glan afon DANAW
 Hen, RHIN enwawg droiawg draw, 36

¹ Gwel Trioedd v. *Cambrian Register*, t. d. 162.

² Prydain, Trioedd iv. *Cambrian Register*, t. d. 162.

³ Armorica. Trioedd iv.

Hyd wen gain FRYDAIN, dda fri,	37
O boenus DDEPHROBANI ?	
Trwy ddiffaeth eu taith hyd dir—	
O anialdaith canoldir !	40
Creigiau a mynyddau maith	
Llugiant hollalluogwaith ;	
Nadredd rhyfedd yn rhwyfaw,	
Plethu neu lechu wrth law ;	44
A gwylltion filod gellytydd	
Yn eu rhwysg yn chwyrn a rhydd.	
Dirfawr bob awr yn ddibaid	
Hwy d'ranent am drueiniaid,	48
Yn barod i ddod ar ddyn,	
I'w falu mál prif elyn.	
Llawer noson â bron brudd,	
A'r dŵr oer ar eu deurudd,	52
O wir frwyn, tan lwyn o'r fro,	
Canwaith bu 'n tadau 'n cwyno ;	
Wrth weled fod caledi	
O fewn eu rhan fwy na rhí.'	56
Ond weithiau yn niwedd dwthwn,	
I droi 'n felus boenus bwn,	
Un yma a thraw yn llawen,	
A'i law lwys dan bwys ei ben,	60
A'i fwriad i ddifyru	
Wedi darfod diwrnod du,	
Adroddai, tra rhai yn rhês,	
Gyda gwên ryw hên hanes ;	64
Yna canu, yn llu llon,	
Ban allent fwyn bennillion.	

Eu tŷau gwnaent o wiail 67
 Da, ac o dyweirch a dail
 I'w cadw rhag drwg o'r coedydd
 Yr nôs,—a'u diddos liw dydd.
 Y berth a roddai borthiant,
 Ffrwythydd ar goedydd gant ; 72
 Gwinwydd a grawn llawn lluniaeth,
 Cnau ac afalau yn faeth.
 Cyrchent a llament yn llon,
 I yfed ar fin afon ; 76
 A than graig saig felus oedd
 Helwriaeth i laweroedd.

Ceisiant er mwyniant mynych
 Gyryglau, neu gafnau, gwych, 80
 I fyned i afonydd
 Y wlad, ar doriad y dydd ;
 Rhai am dda helfa i'w hawl,
 Eraill am foriaw 'n wrawl 84
 Trwy y lli'—môr wysgi 'r ânt,
 Wel, rhyfedd màl y rhwyfant !
 Tonau gant rhwygant yn rhwydd,
 A diflin a diaflwydd. 88
 Y llynoedd sydd yn llawnion,
 A'r llaid o bysgodwyr llon,
 Trwy llynoedd rai rhedai rhwyd,
 Yna eraill genweiriwyd, 92
 Yn ol dala—gwledda 'n glyd,
 A llonfwyn mewn llawenfyd.

Wela ! draw, heb fraw, heb frâd, 95
 Lu ystwyth mewn dôl wastad
 Yn chwareu yn wych eres,
 A chyflym, mewn grym a gwres ;
 Rhai oedd am rediad drwy 'r ddol,
 Rhai traws am faen neu 'r trosol ; 100
 Yno dir neidiai ereill,
 Pan codyma 'n llu wnai 'r lleill,
 I bob oedran, dyddan daeth,
 Ryw addas chwareuyddiaeth. 104

Os byth flinder, trymder trwêch,
 A dig ar ol hir degwch ;
 HU GADARN, barn wrth eu bodd
 Wnai â medrus ymadrodd, 108
 Gan ymliw â gwyn amlwg,
 Am bob gau neu droiau drwg ;
 Os amser cyfyngder caeth,
 Siriol y rho'i gysuriaeth. 112
 Weithiau y gwnaent bennaethiaid
 Eistedd ar orsedd wrth raid
 I adrawdd, neu ro'i, dedryd
 Am nam, neu am gam a gwŷd. 116

Ar eu taith hirfaith ei hyd,
 Beunydd caent wên, neu benyd ;
 Weithiau caent lon hinon hâf
 Ac weithiau hîn o'r gwaethaf ; 120
 Weithiau do'i gwlaw, neu laith da,
 Waith arall lwyth o eira ;

Weithiau hylig goedwig gâs 123
 Elynawl, llawn galanas,
 Lle clywid llais cryglais crôch,
 Gwaedd wchw, a gweiddi och ! Och !
 Weithiau ddolydd gweunydd gwiw,
 Tirion glwyslon, teg, glasliw, 128
 Llawn adar cerddgar mewn cân,
 A dyfais mainlais mwynlân.

Teithient—deuent o'r diwedd
 Hyd fôr gwyll, tawch, hyll, di hedd, 132
 Ar ei fin er ei fin floedd,
 Llawen cartrefai 'r lluoedd,
 Tros amser llawer lleuad,
 Tra oer laith cyn troi o'r wlad. 136
 Ond un dydd gwelwyd Hu 'n dod,
 Wr da yn llawn myfyrdod,
 Allan o'i gaban mewn gwêdd
 Ddwys, amlwg, brudd a symledd. 140
 A'i dda agwedd, swyddogion
 O gywir fryd ger ei fron,
 Tawel i le uchel ânt
 Lu hardd yn ol eu hurddiant. 144
 Chwai y dyfalai filoedd,
 A chais wŷch—Ba achos oedd ?

Hu 'n ol eistedd o hono
 Ar fryn lled uchel o'r fro, 148
 Araethiai màl hyn wrthynt
 Yn dda, hardd, am newydd hynt :

CYWYDDAU.

127

“ Wela ’r awr ar ol aros	151
Lawer dydd newydd a nôs,	
A gwelwch fod argoelion	
I forïaw hwnt o’r fro hon ;	
Daeth ddoë neu echdoë, i ni	
Hanes a dâl ei henwi ;	156
Ein morwyr wrth ymwriaw,	
Yn drwm gyda ’r tonau draw,	
A yrwyd i ryw oror	
Eres a mād, dros y môr ;	160
Sef i hysbys ynys wen,	
Dawel, a maesydd diēn,	
Goror māl ein goror gynt,	
Hylawn a da ei helynt.	164
Bore dreneydd ein bwriad	
O lu ! yw morïaw i’r wlad ;	
Barod byddwch y bore,	
O un llais pawb yn eu lle,	168
Er hwyliaw i’r môr heli,	
Yn llon fyw ar gefn y lli’ ;	
A’r sawl yn wir breswylïant	
Hyn o wlad ein carïad cânt ;	172
Arhosant wrth eu rheswm,	
Mewn mynydd, gweunydd neu gwm ;	
Ninnau a nawf yn uniawn,	
Y tonau—pe gwaeau gawn,”	176

Pan derfyn ar hyn wnai Hu,
Haiachan, gan lonychu,

O fodd hwy wnaent ufyddhâu,
Yn llariaidd ei holl eiriau. 179

Y bore a ddaeth—wybr oedd wych,
Eglurwen a dysglaerwych ;
Tra haul araul yn eres
Syllu ac yn taenu tês ; 184
Ar unwaith môr a wenai,
A thawel pob awel ai ;
A'r adar yn ddarparawl,
Gaed ar waith gyda 'r wawl ; 188
Aethai y traeth oll weithian,
Er y dydd, màl pe ar dân ;
Troi a galw ar eu gilydd,
A mawr sŵn wrth y môr sydd ; 192
“ Heliwn,” meddynt, “ yn hwylus,
Rhedwn a brysiwn heb rûs,
I'n llongau,—na ollyngwn
I'w hynt y cyfleusdra hwn.” 196

Yn y fan y môr ai 'n fyw—
Gwiwdeg yr olwg ydyw !
Cynnal mae longau ceinwch,
Mewn hardd drefn ar ei gefn gwych, 200
Nes llon fyned o honynt
Heb anhwyl i ben eu hynt ;
Ac i'r hysbys ynys ânt,
Yno calonawg glaniant. 204

CYWYDDAU.	129
<p style="text-align: center;">HU GADARN sylwai arni, Er gweled hardded oedd hi, A chan weled hardded hon, Y golwg ai i'w galon. " O diodid," dywedai " Wyt Ynys felus ddi fai ; Deuwch fy lluoedd diwyd, Hon bau yw 'r oreu 'n y byd."</p>	<p>205</p> <p>208</p> <p>212</p>
<p style="text-align: center;">Yna bloeddient yn unawl Oreu modd ryw eiriau mawl. Clywai nef eu llef yn llwyr, Uwch huan entrych awyr.</p>	<p>216</p>
<p style="text-align: center;">Erbyn hyn aent gyda Hu Trwy ofal i gartrefu, Y wlad newydd ddedwydd dda, Bur iesin wlad o'r brasa'.</p>	<p>220</p>
<p style="text-align: center;">Hu 'n awr eu dysgu a wnaeth, Waith arwŷn amaethwriaeth,¹ Tori coed, a throi tیرهdd, Hau, llyfnu, a gyru gwedd.</p>	<p>224</p>

¹ Trioedd lvi. Gwel *Cambrian Register*, t. d. 163.

Ond gan fod afancod ¹ fil,	225
Anhapus flinion epil,	
Llu anwar yn y llynoedd,	
Diffaith eu gwaith,—hyllig oedd.	228
Cywir lu o lanciau 'r wlad,	
Gyrchent er mwyn eu gwarchad ;	
Gan geisio pren Ywen wych,	
Llafnyn hanerllath llyfnwych,	232
Gwedi ei fwydo 'n gadarn,	
Waith doeth, â chig eitha' darn.	
Bellach pan hwy a'i bacha,	
Wrth did o rawn cryf brith, da ;	236
Rhoddid y rhaff graff yn grôg,	
Beunydd wrth ychain Banog :	
Yr Afanc pan gwanc a gai,	
Yr abwyd oll a reibiai.	240
Yna 'r ddau ych gwych nid gwan,	
Yn hyll a'i tynai allan ;	
Ac yn y fan cai 'n ei fol,	
Drasyth a miniog drosol.	244

¹“The inhabitants of those places where they (the Alligators) abound are very industrious in catching and destroying them. Their usual method is by a casonate, or piece of hard wood sharpened at both ends, and baited with the lungs of some animal. The casonate they fasten to a thong, the end of which is secured on the shore. The Alligator on seeing the lungs floating on the waters, snaps at the bait, and thus both points of wood enter his jaws in such a manner, that he can neither shut nor open his mouth. He is then dragged ashore, when he violently endeavours to rescue himself, while the Indians bait him like a bull, knowing that the greatest damage he can do is to throw down such, as for want of care, or agility do not keep out of his reach.” Gwel, *Encyclopædia Britannica*, dan y gair *Erpetology*.

Modd ¹ i'w ddal a'i ddialu	245
Fal hyn a ddyfalai Hu.	
Pan yn llanc—afanc ² pur fawr,	
Coeg-falch, mileinig, cegfawr,	248
Yn "Ngwlad yr Haf" a grafai,	
Fin y llyn o fewn y llai ;	
Pan trwy 'r llai coddiai i'r clawdd,	
O'i rag y lle a rwygawdd ;	252
Yna'r llyn ³ ar led rhedodd,	
Tros y wlad, mewn anfad fodd,	
Nes dychryn pob dyn a da,	
Weithiau rhag eu dyfetha.	256
Yn y man ai fwy na mwy	
Ar redeg i gau 'r adwy ;	
A'r Afanc, er ei ryfyg,	
Hu, meddir, i dir ai dyg ;	260
A'r llyn erbyn hyn o waith,	
Sylwir na thores eilwaith.	

Yr Ynys hwy a ranant	
Mewn hedd,—ac felly mwynhant	264

¹ Trioedd xvii. Gwel, *Cambrian Register*, t. d. 160.

² "They (the Alligators) have been observed to raise a small hillock near the banks of the river ; and after hollowing it out in the middle, to collect a quantity of leaves and other vegetable matter, in which they deposit their eggs." Gwel, *Encyclopædia Britannica*, dan y gair *Erpetology*.

³ Trioedd xix. "Among the three primary achievements of the Isle of Britain is mentioned the prominent oxen (Buffaloes) of Hu the Mighty drawing the Crocodile (Alligator) of the lake to land, and the lake broke out no more.." Gwel, *Cambro Briton*, cyf. i. t. d. 127. Hefyd, "An Historical Relation of the Island of Ceylon," gan ROBERT KNOX, Llund. 1681.

Wlad yn fras, heb lidiog fron, 265
 Neu gulaidd a throm galon,
 A Hu a ganai¹ yn gynnil,
 Ganiad fyddai fad i fil; 268
 Parod oedd mâl prydyddwr,
 Ar daith hyd ymylau dwr.
 Canai weithiau ddrwg hynod,
 Oedd ar y ddaiar i ddod; 272
 Hon pob gwynfyd a ga'i,
 Y genedl daroganoi.

PRIODASGERDD.²

YR AWEN i MARIA,
 Un fwyn ddoeth, bid cân fain dda.
 DAFYDD! hir iechyd yfwn
 I'w rhan hi o'r gwydryn hwn; 4
 Ac i OWEN bid Cywydd,
 Hynaws fab, llwyddiannus fydd;
 Yn fedrus âg aur fodrwy
 Gan JOHN LLWYD eu hunwyd hwy 8
 Ef budd, bid iddynt dda 'r byd,
 Etifedd ac iechyd hefyd.

ARDEB FY MAM.

ARDEB fy mam, fwynfam fach,
 Gwiw lun! ni bu ei glanach;

¹ Trioedd xcii. Gwel, *Cambrian Register*, t. d. 163.

² Cyfansoddwyd y Briodasgerdd uchod, yn nghymdeithas y Parch. D. CHARLES, wrth yfed iechyd ei chwaer MARIA, ar ol ei phriodi âg OWEN RICHARDS, Ysw.

Mam ELEN, mam GWEN :—ei gwedd ! 3
 Rhifyr hwn, yn llun rhyfedd ;
 Mam fad Offeiriad y Ffydd,
 A'r difyr *Banker* DAFYDD. 6

ANERCHIAD I'R PARCHEDIG WALTER DAVIES ;

Sef Gwallter Mechain, ar ei fuddugoliaeth ar faes yr Awen.

“CURWR Eisteddfod CORWEN,”¹
 Ac yna 'n y BALA 'n ben
 Neb trech no GWALLTER MECHAIN,
 Ni fu trwy holl GYMRU gain ; 4
 Ac heddyw nid byw un bardd,
 Heb ryfyg, ond E 'n Brif-fardd.

ANERCHIAD I'R PARCH. W. JONES,

Pan yr anfonodd at y Bardd i ofyn iddo roddi ei enw i lawr i dderbyn cyfrol o'i bregethau.

GOBETHIAF y caf, teg hyn,
 Deilwng iaith gwerth ei dilyn ;
 Iaith eglur, iaith bur i'r bardd,
 O'th enau ; nid iaith anhardd ; 4
 Brawddegau, bàneu heb wall,
 Da eiriau hawdd eu deall ;
 Geiriau byrion dynion doeth,
 O wirddysg, llawn synwyrddoeth. 8

¹ Cynnalwyd Eisteddfod Corwen, Mai 12, ac Eisteddfod y Bala Medi 29 a'r 30ain, 1789.

Nid rhai hirion dyfnion dwl,
 Difudd heb ynddynt feddwl.
 Wyf ddystaw am d' athrawiaeth,
 Di wall yw, bwyd cryf a llaeth. 12
 Boed ddifeth mál pregethwr
 Yn llaw Duw, daranlyd wr !

ACHAU.

"Nid oes genyf chwaeth at olrhain achau."—Dyfyniad o lythyr y Parch.

D. Silvan Evans, (*Dantei Las.*)

MEWN achau gorau a gaed,
 Pwy a wŷr am neb purwaed ?
 Llauer un ar y llawr noeth
 Yn y gofal heb gyfoeth, 4
 Sydd o waed uwch gwaed rhai gwyr,
 Gwych olwg, ac uchelwyr.
 Cei DAN bach, mewn hen achau,
 Orthrymwyr, gwyr cyfrwys gau ; 8
 Beilchion llofruddion y fro,
 Bradwyr heb wyneb wrido ;
 A gwyr o enwau mil gwaeth
 A chwydda Lyfr Achyddiaeth. 12

MARWNADAU.

MARWNAD YR ARGLWYDDES COFFIN GREENLY, (Llwydlas.¹)

Y Don :—"Cwmpiad y Dall."

"Hon oedd yn llawn o weithredoedd da, ac elusensu y rhai a wnaethai hi."—ACT. IX. 36.

"Like flow'rs we bloom and die, and as a shade
We flee away; or like a leaf we fade."—T. S. ALLEN.

PRUDD yw 'm calon yn fy mron,
Prudd ddigon fy meddyliau ;
O farw LLWYDLAS, enaid gu,
Fu 'n harddu 'r Eisteddfodau ; 4
Och ! mae heddyw yn ei bedd
Tan gloion angeu 'n wyw ei gwedd,
Nid gyda ni yn cynnal gwledd,
CYLCHWYL-WLEDD y FENNI. 8
Mud ei thelyn yn y plas,
Mud ei cherdd nefolaidd flas ;
Darfu adlais, hyfryd ias,
Llais LLWYDLAS o'r llwyni. 12

¹ Yr uchod ydoedd y Farwnad fuddugawl yn Eisteddfod y Fenni, 1842.

Uwch ei bedd wyl llawer bardd, 13
 Ac yno tardd ystyriaeth
 Fod is y ddn ALAWYDD dlos
 Oedd eos ei chenhedlaeth ; 16
 Un a ganai gerdd mor fwyn
 Gyda 'r delyn, mammaeth swyn,
 Nes gwelid pawb mdr llon a'r wyn
 Y Gwanwyn irlaswedd ; 20
 Dysgedig oedd a chall a doeth,
 OFYDDDES fwyn ag awen goeth ;
 Hi garai 'r Gwir, a'i degwch noeth,
 Uwch cyfoeth a mawredd. 24

Cynllun oedd i ferched gwlad,
 O bob ystad, i'w dilyn ;
 I'w thad a'i mam oedd ufydd ferch,
 Llawn traserch, er yn blentyn ; 28
 Bore-godai gyda 'r wawr
 I ddarllen yn ei BIBL mawr,
 Gan dreuliau llawer dedwydd awr 32
 Mewn dwysfawr fyfyrion ;
 Gwedi hyn ai at ei gwaith
 Er gwaeledd iechyd, saldra maith ;
 "A FYNNO DUW BID : " hyn oedd iaith, 36
 Ac araith, ei chalon.

Teilwng LLWYDLAS gwlad ar WY
 O ganiad mwy rhagorawl
 Noc allaf roi, neu 'r uchaf feirdd ;
 Neu 'r cynfeirdd pe 'n bresennawl ; 40

YR ARGLWYDDES COFFIN GREENLY. 137

Ah ! llawer gwaith ar lechwedd bryn, 41
 Wrth làn y môr, neu fin rhyw Lyn,
 Y gwelwyd hi, mewn myfyr syn,
 Yn derbyn gwybodaeth 44
 O law anian yn mhob lle,
 Tros wyneb byd hyd entrych Ne' ;
 O'r Dwyrain, Llewin, Gogledd, De,
 Trwy 'r äang Grë'digaeth. 48

Yn gywir iawn oedd, gywrain un,
 Y tynai lun y meusydd ;
 Ac ar y ddôl llun gwartheg gwâr,
 Llun geifr draw ar greigydd : 52
 Llun defaid ; llun merch ieuanc lôn
 A'r wÿn yn chware ar ael y fron ;
 Llun gwlad a thref, llun llong ar dôn,
 Llun afon gwyllt rediad ; 56
 Ac yna, gwedi porthi ei dawn,
 Gofalai am y tlawd prydawn ;
 Rhoi bwyd o'i flaen ; rhoi coed, glo, mawn,
 Yn brydlawn ; rhoi dillad. 60

Yn iaith esmwyth IDAL fras
 Hi, LLWYDLAS, oedd gyfarwydd ;
 Ac felly 'n iaith y Sais a'r Ffranc,
 Er pan yn ieuanc ddedwydd ; 64
 Ond os oedd hoff eu hieithoedd hÿy
 Gan LLWYDLAS, öos glenydd GwY,
 Eto hoffai 'n hiaith yn fwy,
 O! mwyfwy o lawer : 68

Y mae 'r Gymraeg o dlysi 'n llawn, 69
 Yn ngwaith y bardd mae 'n felus iawn,
 O wefus merch o ddengar ddawn,
 Mwyn, serchlawn, mae 'n wiwber. 72

Ond er ei doniau o bob rhyw,
 Trwm ydyw clywed beunydd,
 Nas gwelir yn y FENNI mwy,
 Tra WYSG a GWY 'n afonydd. 76
 Mae hi 'n y byd tragwyddawl draw,
 Uwch cystudd, galar, ofnau, braw,
 Ag euraidd delyn yn ei llaw,
 Mwyn alaw 'n llawn moliant : 80
 Ust ! cân y SANT gân newydd bêr,
 Mewn gwlad goruwch yr haul a'r ser,
 Heddyw 'n nghôr yr engyl têr,
 Côr seinber gogoniant. 84

MARWNAD WILLIAM OWEN PUGHE, YSW.
 D.C.L., F.A.S. (Idrison.)

Tragwyddawl trig ei Addysg.

BID arnat, GADEB IDRIS ! gwmwl dro,
 A niwl caddugddu, yn gorchuddiau yth ben ;
 A thywell nos yn hudd fâl galar wisg,
 Oblegid ar dy odrau di, man yr 4

¹ Ganwyd y DR. PUGHE, yn Tŷ-yn-y-Bryn, Ilandfhangel Pennant, yn Meirion, Awst 7, 1769 ; bu farw Mehefin 8, 1835.

Anadlodd gyntaf elfen byw, yn swrth 5
 Ddisymwth cwmpodd athraw mawr ein hiaith.
 O freuder einioes dyn! mae hiraeth trwm,
 A galar ar ei ol,—y Cymro gwiw! 8
 Galara enaid CYMRU; ac ar glawr
 Y mynydd noeth, a bryn, a dyffryn bras
 Dolefir gwae! Yr adsain clywir hi
 Drwy galon LLOEGR, ac yn ALBANIA dir. 12
 O GADER IDRIS idd y WYDDFA falch,
 O ARAN BENLLYN i BUMLUMON faith,
 O FON hyd WYNEDD, a phellafodd GWENT,
 Cymro a etyb Gymro, "O fy nhad!" 16
 Neu "O fy mrawd!" neu "O y Doethawr PUGHE!"

Cawr oedd mewn dysg, a doeth yn iaith ei wlad,
 Mâl tystia ei Eiriadur gwych. Oedd hoff
 Ei glywed lawer gwaith, mewn cywrain fodd, 20
 Yn olrhain gwreiddyn gair Cymraeg; ac, O!
 Mâl y dadglymai ddrys glwm yr iaith;
 Ei debyg ef am hyn ni fu, ni fydd.

Nid llai ei glod am ei wybodaeth bur 24
 Mewn hanesyddiaeth. Ato cyrchent gwyr¹
 Dysgedig PRYDAIN, màl at Dderwydd call,
 I dderbyn addysg am ei chenedl gynt,

¹ATO CYRCHEM, &c. Cyfeiriad at Syr Walter Scott; Robert Southey, Ysw.; Archddiacon Cox; Sharon Turner, Ysw.; G. Chalmers, Ysw.; Parch. W. Warrington; Parch. W. Gunn; ac amrai ereill, y rhai a ymgynghorent âg ef mewn perthynas i hanesyddiaeth, &c.

O amser HU i lawr hyd awr y frad ¹ 28
Pan lās LLYWELYN ² yn y FUALLT droch.

Dyrodwyd iddo ddawn, ac iaith, a dysg
Y Cynfeirdd, màl rhoddi mewn rhyw lestr mawr
Tryloew ddiliau mêl, gwaith llawer haid. 32
Astudiaï eigion nos eu hawdlau hwynt,
I ganfod tarddiad y gysefin iaith;
A rhyfedd màl y treiddiaï feddwl cudd
Prydyddiaeth eirian y cynoesoedd myg! 36

Gwiw oedd ei ddawn! Coll Gwynfa MILTWN
fardd,³

Y prif o feirdd ei wlad am ddwyfawl gân,
Trwy ddwys fedrusrwydd a Gymreigiodd ef.
Gorchestwaith HEBER hefyd, bardd o fri,⁴ 40
A fedd y Cymro yn ei iaith ei hun,
Gan yr un gwr. Nod gwaith ein hynaif feirdd,⁵
Trwy ei ddiwydrwydd, ceir yn iaith y Sais.
Pallai yr Awen fau pe soniwn am 44

¹ O AMSER HU, &c. "Tair ciwdawd addwyn Ynys Prydain. Cyntaf oeddynt genedl y Cymry, a ddoynt gyda Hu Gadarn i Ynys Prydain; sef ni fynai efe wlad a throedd o ymladd, ac ymlid, eithr o gyflawnder ac yn nhangnef," &c.—*Tricoedd*.

² PAN LĀS LLYWELYN; sef Llywelyn Tywysawg olaf y Cymry, yr hwn, drwy frad, a laddwyd yn Muallt, swydd Brycheiniog, yn y flwyddyn 1282.

³ COLL GWYNFA MILTWN FARDD; cyfleithad o *Milton's Paradise Lost*.

⁴ GORCHESTWAITH HEBER; sef *Heber's Palestine*.

⁵ NOD GWAITH, &c. Cyfeiriad at ei gyfleithad o waith Llywarch Hen, Taliesin, &c., idd y iaith Seisoneg.

Ei waith yn llwyr,—HU GADARN ac y BARDD;¹ 45
 Neu am y MABINOGION, chwedlau hen,²
 Pa fodd y tynai hwynt i oleu dydd;
 Ni pherthyn hyn i gân; nac adrawdd chwaith⁴
 Y nifer mawr o Gyhoeddiadau teg³
 A gynnwys ôl ei law, a delw 'i ddysg.

HANBYCH WELL, fy ngwlad! MEIRION! hanbych
 well!

Hoff bid y dydd y ganwyd mab o lin 52
 Y Cymry hen i dragwyddoli eu hiaith!
 Addurn ei wlad, IDRISON! tra bo gwaed
 Yn ffrwd yn ngwythi Cymro, enwir di;
 Tra chlywir gair Cymraeg mewn gwlad a thref, 56
 Dy enw di, IDRISON! parchus fydd.⁴
 Tra CHADER IDRIS, ac ei chreigiau serth,
 Tra MWYNGIL⁵ yn bwrlymu is ei throed,
 A thra DYSYNI⁶ yn adlef idd ei gân; 60
 Byw fyddi byth, IDRISON! yn ein cof.
 Bu SALESBURY⁷ o dy flaen; bu DAVIES, gwr⁸

¹ HU GADARN, &c. Cywydd o III. Caniad, gan Idrison: Llun-
 dain, 1822. *Y Bardd*, cyfieithad o awdl arddunawl Gray, a
 elwir y *Bardd*. The Bard; an ode, by Gray.

² Y MABINOGION, y rhai a gyfieithwyd gan y Doethawr Pughe idd
 y iaith Seisoneg.

³ Sef y Monthly Magazine, Cambrian Register, Cambro-Briton,
 Cambrian Quarterly Magazine, y Greal, &c.

⁴ Enw benthyciawl y Doethawr Pughe.

⁵ MWYNGIL; llyn yn ymyl Cader Idris.

⁶ DYSYNI; afon yn rhedeg heibio y tŷ y ganwyd y Doethawr
 Pughe ynddo.

⁷ BU SALESBURY; sef William Salesbury, cyfieithydd y Testament
 Newydd i'r Gymraeg, ac awdur y Geiriadur Cymreig a gyhoeddwyd
 o dan ei enw.

⁸ BU DAVIES; sef y Parch. Dr. John Davies, o Mallwyd, awdur y
 Geiriadur Cymraeg a Lladin.

Dysgedig yn ei oes; bu GWILYM,¹ llawn
 O aidd o blaidd ein iaith; bu WALTERS, MAWR² 64
 Ei lafur oedd; ond ti, IDRISON! ti
 Wyt arnynt oll yn frenin, ac yn ben.
 Mâl y rhagora athraw uchel ddysg,
 Ar ei ddysgyblion ieuaine eiddil ddawn; 68
 Neu fâl rhagora celfydd, cywrain wr,
 Medrusdoeth yn ei swydd, ar weithiwr brydd;
 Ti yr un wedd rhagoraist arnynt hwy.

O GADEB oesawg uchel drum! mawr yw 72
 Dy fri yn mysg colofnau nef. Ti dros
 Byth a sefi, gan anfarwoli prif
 Seronydd.³ Anfarwoler gydag ef
 Y prif Gymreigydd. Mwy na enwer di 76
 Heb gofiaw am y gwr.

Y Doethawr PUGHE!

Fy nghyfaill! anwyl iawn oedd genyf gynt
 Dy araeth fwyn; ac eistedd wrth dy draed 80
 I wrandaw ar dy lais. Hyn ni chaf mwy;
 Ond cofiaf di mewn syndawd, gyda pharch,
 Tra rhed fy ngwaed. Ac nid anghofia neb
 Y meddwl uchelma wr oedd genyt ti 84

¹ BU GWILYM; sef Thomas Gwilym, meddyg, o Drefriw, awdur y Geiriadur Lladin a Chymraeg, a gyhoeddwyd ar yr un pryd, ac yn yr un llyfr, ag eiddaw y Doethawr Davies.

² BU WALTERS, &c.; sef y Parch. John Walters, awdur y Geiriadur Seisoneg a Chymraeg, yn y flwyddyn 1794.

³ Y PRIF SERONYDD; sef Idris.

Am bawb ond un ; am hwnw nid oedd gair ; 85
 Am ROBIN DDU o FON,¹ ac IOLO fardd,²
 Ac OWAIN MYFYR,³ ti a gerit son,
 Gan eu canmoli gyda haeddawl glod. 88

Nid rhyfedd ar ei ol bod arwyl tost,
 Mòr anwyl genym oedd. Pan gwymppodd ef,
 Prif golofn iaith y Cymry idd y llwch
 A lethrid. A phwy ar ei ol a fydd ? 92
 Ei drech ni fu o barth gwybodaeth mewn
 Cof Clyw⁴ ei wlad. Ac nid ymdrechodd neb
 Fâl yr ymdrechodd ef i ddwyn ein iaith
 I sylw y byd. O GYMRY ! cofiwn hyn. 96

Trwy BRYDAIN FAWR, yn ALLMAEN, ac yn
 FFRAINC,
 Ei enw hysbys yw i wyr o ddysg.
 TRAGWYDDAWL TRIG EI ADDYSG, ei grëad
 Ef ei hun ; fynon gref yn bwrlwm byth. 100

Hen ein cenedl ni ; ac hen yw ein iaith,
 Ceir gwreiddiau hynaf ieithoedd byd yn hon.
 Na choller hi rhag ofn coll fo gwaeth ;
 Ein iaith pe collem, pand diogel yw ? 104

¹ AM ROBIN DDU o FON ; sef Robert Hughes.

² IOLO FARD D ; Iolo Morganwg, sef Edward Williams.

³ OWAIN MYFYR ; Owain Jones, Ysw., o Thames Street, Llundain,
 yr hwn a gyhoeddodd ar ei draul ei hun, y "Myvyrian Archæology."

⁴ COF CLYW ; oral tradition. Gwel cof yn Ngeiriadur y Doethawr Pugh.

Ein cenedl mwy ni rifid byth yn mysg 105
 Cenedloedd byd. Gelyn ei genedl yw
 Y Cymro ffals ni charo iaith ei wlad.
 Ond bydded byw, tra byd, yr iaith Gymraeg, 108
 A thra bo daiar, cof am Ddoethawr PUGHE ;
 Ac os i NANTGLYN, lle yn huno mae,
 Y rhodia bardd ar ddamwain at ei fedd
 I syllu ar y llwch, ei wely oer, 112
 Dynesed at y fan yn barchus brudd,
 Ac aed yn ol yn llawn o fywiawg aidd,
 Gan godi, mál y gwnaeth, Cofadail hardd
 Mwy oesawl noc y marmawr, neu y pres. 116

Y byd yw bedd enwogion wyr, nid oes
 Dim rhaid wrth faen cerfiedig uwch eu llwch ;
 Y parch sydd iddynt, ac eu clodfawr waith,
 Yw eu COFADAIL, nid oes eisiau mwy. 120

Er byred einioes dyn, eto mewn un
 Oes fer gall enill enw na fydd marw byth.

MARWNAD IFOR CERI,¹

Sef y Parchedig JOHN JENKINS, M.A., Periglor CERI, yn swydd TREFALDWIN, yr hwn a fu farw Tachwedd 30fed, 1829, yn lx mlwydd oed.

Gwr da a fawr gerid oedd
Yn deilwng drwy'r ardaloedd ;
Caredig, cywir ydoedd,
Haelionus, croesawus oedd.

IEUAN GLAN GBEIRIONTDD.

TAN YWEN hen gorweddwn, min yr hwyr,
Pan Haul olwynawg parth ei lewin dŷ
Yn llwybraw, gan belydru goleu prudd,
Cyd-rhwng y ceinciau, dros y Fonwent las. 4
Yr awel oedd orlwythawg màl o fêl
A roddid iddi ar ei hynt gan fân
Ac amlw flodau. Hefyd mwyn oedd llais
Yr adar cân o lawer llwyn a pherth 8
Yn odli mawl. Er hyn fy ysbryd oedd
Môr drist wrth ystyr y dystawrwydd llwyr
Oedd yn y bedd, nas medrwn er un dim
Roi clust i anian gan feddyliau trwm. 12

¹ Ganwyd gwrthrych y Farwnad hon yn CILBRONAU, yn mhlwyf LLANGOEDMOR, ger tref ABERTEIFI. Yr oedd ganddo ef bedwar brawd; eithr efe oedd y mab hynaf. Cafodd ei ysgoliaeth yn yr Ysgol Ramadegawl Eglwysig yn NGHAEFFYRDDIN, ac oddi yno pan yn 19eg oed aeth i Goleg Iesu, RHYDYCHAIN, ac yn mhen amser symudodd oddi yno i Goleg MERTON, hefyd yn RHYDYCHAIN. Gwel ei hanes yn *The Cambrian Quarterly Magazine*, cyf. ii. t. d. 88, gan WALTER MECHAIN, a'r *Gwyltiedydd*. Gwel hefyd y *Cylchgrawn*, t. d. 338.

Ehedwn yn fy mryd dros oesoedd gynt,
 Adgofiwn rai oedd enwawg yn eu dydd
 Am eu doethineb er llesääd i ddyn ;
 Ac eraill am eu rhwysg mewn brwydrau drud, 16
 Nes crynu o deyrnasoedd rhag eu grym.
 Pa le y maent ? pa le y dewr ? y doeth ?
 Mâl gwan a ffol yn gyd-radd yn y bedd.

Tra syniwn hyn,—y nos ei mantell dew 20
 A godai uwch y byd, gan guddiaw haul
 A dydd o olwg dyn. Ac mâl gan fraw,
 Yr ednaint oll eu pènau cuddient, ond
 Yr adar cyrff, o dan eu hesgyll clyd. 24
 Ar hyn tebygwn ganfod gwrthrych du,
 A ! duach noc y nos, yn agosâu,
 Dan wylaw megys RACHEL am ei phlant.

Endewwn dro mewn dychryn dwys, a braw, 28
 Mâl gwrych fy ngwallt yn sefyll ar fy mhen ;
 Mdr groes i ddynawl oedd y golwg hwn ;
 Amcanwn ffoi, oferedd oedd y cais,
 Ni allwn ffoi. Ac, och ! yn nes y daeth, 32
 Nes oeddwn megys marw rhag ei drem ;
 Ymaflai yn fy llaw, angeuawl wasg,
 Bythni anghofiaf y gafaeliad llaith.

“Dyred AWENYDD ! dyred ar fy ol,” 36
 (Mewn llais cwynfanus y dywedwyd hyn,)
 “Myfi yw AWEN, cyfod ar dy draed
 A dilyn fi.”

Ar hyn mewn arswyd chwith, 39
 Dilynwn hi, yn araf ac yn llesg,
 Trwy ganol teyrnas ANGEU hyd nes troi 41
 At fedd,—lle safai, ac y canai hyn :

“ Anghofia, FARDD ! y meirw gynt oedd yn
 Dy fryd dan frig yr YWEN draw. Cwsg un 44
 Islaw y maendo hwn,—adgofia ef,
 Dy gyfaill IFOR CERI ac oedd yn ail
 I IFOR HAEL mewn hælder. Herwydd hyn,
 Iawn y gelwid ef yn IFOR. Ei dŷ byth 48
 Oedd dŷ agored i holl feirdd y wlad,¹
 Ac i bob medrus gerddawr. Yno hoff
 Eu gweled hirnos gauaf cylch y tân,
 Yn llawen wledda ar ddanteithion pêr 52
 Yr AWEN a melusion CERDD a THANT.
 Mŵr groes yn awr ! anwadal yw y byd,
 Byr a brau llawenydd dyn ;—darfu cân,—
 Ni welir IOAN mwy yn mysg y byw, 56
 Mae yn ei fedd un wedd ag IFOR HAEL.

¹ Arferai pob Gwyliau Nadolig agoryd ei dŷ am bythefnos i dderbyn, a chroesawu, beirdd a cherddorion. Mewn cyfeiriad at hyn y dywedodd y diweddar Barchedig WALTER DAVIES, sef GWALLTER MECHAIN:—

Llios afaeth yn llys IFOR
 Dystawodd, ciliodd y Côr ;
 Côr o feirdd ; cyrf o wrddas
 Llawn eu bloedd ; llu'n ei Blâs ;
 Y CYNFEIRDD yno canfum,
 Ac un o'i feirdd gwan a fum.

O galar ! lle bu GWYLIU
 Llon a hedd, i'n llawenhau ;
 Bellach ! y WLEDD a ballawdd,
 I dorf y nwyf darfu nawdd !
 Yn lle GWLEDD, GORSEDD a GAWR,
 Mae iâs iaen yn mis Ionawr.

Ac màl y canai PRYDYDD HIR¹ ac ef 58
 Yn rhodiaw tir MAESALEG²,—dywed beirdd
 Am CERI,

‘Y llwybrau gynt lle bu'r gân.’ 60
 Er hyny llawenhäant bod mab yn fyw
 I IFOR CERI. Hwn, màl bu ei dad,
 Ei ddelw yw, a fydd wladgarwr cryf.

Cwsg IFOR ! cwsg yn dawel yn dy fedd, 64
 Dy fab a gwblhäa y gwaith oedd yn dy
 Fryd ar gwblhau.”

Prin canodd hyn cyn dod

O ALAR a adwaenwn wrth ei gwisg
 Wrth wawr y Lloer pryd hyn yn tori trwy 68
 Y cwmwl du. Mòr farwawl oedd ei gwedd ;
 Mòr llaes ac mòr aferw, oedd ei gwallt ;
 Nes codi arswyd newydd yn fy mron.
 Ei llygaid oedd ddiysgawg yn ei phen, 72
 A llèn o brudd-der drostynt, mægys pan
 Oguddier ser gan gwmwl teneu gwÿn.
 Pan at y bedd y daeth, o gam i gam,
 A dwylaw plèth màl un mewn gwasgf drom, 76
 Yn synllyd safai dros fynydau maith ;
 Ond yn y màn yr hidlai dagrau dros
 Ei gruddiau llwyd ! ac heb ymattal mwy,
 Dywedai :— “ A ! du gyfrwng yw y bedd, 80

¹ Y Parchedig EVAN EVANS, bardd rhagorawl, ac Ysgolhaig uchel o GEREDIGION, Awdur *De Bardis Dissertatio, Specimens of the Antient Welsh Bards translated into English* ; ac o eraill weithoedd.

² MAESALEG, Trigfa IFOR HAEL, bardd yr hwn IFOR oedd DAFYDD AB GWILYM. Bu iddo ef farw yn ddiblant. Cafodd IFOR CERI un mab.

Yn cuddiaw byd anghysbell nas gŵyr dyn 81
 Am dano ddim, neu ail i ddim, nes êl
 Ei hun drwy borth y bedd, lle cyrhaedd pawb.
 Dy gyfaill ddoe oedd lawen yn ei dŷ, 84
 Yn lloni ei gymdeithion oll â gwên
 A charedigrwydd na anghofir rhawg.
 Heddyw yn y llwch y gorwedd ; cyn hir
 Gorweddi dithau megys ef. Nid oes 88
 Na dawn, na dysg, na dim a achub dyn
 Rhag crafanc angen, er pan brofwyd ffrwyth
 Y gwaharddedig bren yn EDEN gynt.
 Dy unig gysur wrth dramwyaw byd 92
 O wae, mewn hiraeth am gyfeillion gwiw,
 Yw meddwl am y dydd y gweli hwynt
 Mewn bythawl fyd, lle na fydd marw mwy.
 Mâl cyfyd Haul o groth y dywell nos 96
 Yn deg ysplan, heb gwmwl ar ei ffrîw ;
 Neu màl yr adfyw yn y ddaiar laith
 Yr had a defir iddi ; yr un wedd
 Y meirw oll, pawb yn ei gorff ei hun, 100
 Yn fyw a adgyfodant."

“Gwyn eu byd

Pryd hyn,” (gwrthebai llais LLAWENYDD yn
 Y Nef,) “a gaffont ran yn nheyrnas DUW, 104
 Lle y dysgleiriant y cyfiawnon màl
 Yr Haul, heb ofni machlud ar
 Eu gwynfyd pur. Gogoned lu ! cânt yn
 Eu dwylaw Balmwydd tîrf ; a newydd gân 108
 Uwch caniad angel fydd eu cerdd, sef mawl
 I DDUW. Ac ynddo yr ymddigrifant byth
 O un llawenydd i lawenydd mwy.”

Pan glywais hyn,—Mòr ddedwydd, meddwn,
fydd 112

Eu cyflwr hwynt, heb angen yn eu plith,
Heb ing heb boen ! Ac wrth ymsynied ar
A glywswn oll ar làn y bedd,—y wawr
Yn decach noc y gwelawn hi erioed 116
A godai yn y dwyrain fyd gan ddwyn dydd.
Y ser o un i un, gan ddilyn nos,
Yn swrth y cilient i lochesau gwŷll ;
A minnau truan oeddwn wrth y bedd 120
Neb ond fy hun, yn wlyb gan wlith y nef,
Yn oer, yn wir frawychus ar ol nos
Mòr chwith.

Gan dafu golwg ar y màn 124

Lle gorwedd IFOR CERI, ymaith trown
Mewn myfyr dwys gan rodiaw tua thref.

Gwae fi ! nad allwn lwyr adgofiaw pa
A glywais cydawl nos. Am nad yw hawdd 128
Digoned hyn a gofiais, er mòr fyr
I barchu cof ein cyfaill IFOR byth.

MARWNAD MAB BRUTUS.

Yr ateb i lythyr Mr. D. OWEN, (*Brutus*), Prif Olygydd "YR HAUL," yn rhoddi hanes am glefyd a marwolaeth ei fab hynaf.

A MI ar lan gwyllt afon HYFER,
O dan goedwen dderwen hen,
Yn edrych ar y dwr crisialaidd
Yn bwrlymu gyda gwên ;

Gwelwn fachgen yn brasgamu 5
 Tuag ataf oddi draw ;
 Tros y weirglawdd yn prysuraw
 Gyda llythyr yn ei law. 8

Ar ol i'r llythyr ddod i'm dwylaw,
 Adwaenwn law hen gyfaill cu,
 "Paham," ebwn, "y mae 'r llythyr
 "O LANYMDDYFRI 'n ei ddu?" 12
 Yna agawr, dechreu darllen,
 A darllenwn newydd prudd ;
 Nes dyfalwn weled BAUTUS
 A'r dagrau 'n hidl dros ei rudd. 16

Ni ddarllenodd neb un llythyr
 Mwy cwynfanus, naddo erioed ;
 Llythyr tad yn rhoddi hanes
 Am ei fachgen ugain oed, 20
 Yn ymdrechu gydag angeu,
 Ac yn yr ymdrech yn gwanhâu ;
 Gweled llygaid byw yn pylu,
 Ac yr anadl yn byrhâu. 24

Dim ond croen yn cuddiaw 'r esgyrn,
 A'r chwys yn ffrydiaw drwy y croen ;
 A chwsg ni roddai gymhorth iddo,
 Ond chwanegai at ei boen. 28
 Y mae 'r peswch yn cynnyddu,
 A thrwy bob cymmal gwayw maith ;

Rhwnc ei wddf sydd yn boenus, 31
A chwŷs ei ddwylaw 'n oeraidd laith.

Trwm y newydd, Brutus anwyl,
Fod dy fab dy yn y bedd ;
Ond da 'r newydd ydoedd clywed
Iddo hunaw 'n llawn o hedd ; 36
Mewn hedd a Duw drwy waed y cymmod,
Nid mewn hedd â byd a chnawd ;
A bod Iesu yn y cyfwng
Iddo 'n gyfaill gwell no brawd. 40

Mâl blodeuyn yn y bore
Yn gwenu ar yr haul ysplan,
Gan ryw law yn cael ei friwaw,
Yna gwywaw yn y fan : 44
Felly TOMAS yn y bore
O môr siriawl oedd ei wedd !
Cyn haul einioes gyrchu 'r entrych,
Wele TOMAS yn ei fedd. 48

MARWNAD MORWR,

Sef mab Mr. D. SALMON, o'r LLYSTIN, NANHYFEE.

Y Duw Creawdydd tir a môr,
Efe sy DDUW, Tragwyddawl IOR ;
Efe yw Tad holl ddynawl ryw,
Ac wrth ei blant trugarawg yw. 4

Wrth ei orchymyn Ef y daw 5
 Mellt, taranau, gwynt a gwlaw ;
 Ac wrth ei air ardderchawg Ef
 Y tywyn Haul yn entrych nef. 8

E welir Duw trwy ei holl waith,
 Mâl Llywydd ei ragluniaeth faith ;
 Er hyn i ddyn dyryslyd yw
 Ffyrdd ei ragluniaeth o bob rhyw. 12

Mae llawer mam yn wylaw 'n brudd,
 A'r dagrau 'n hidyl dros ei grudd ;
 Dywedyd mae â thoddaidd lef,
 " Mòr chwerw yw rhagluniaeth nef." 16

Mae llawer plentyn yr un wedd
 Yn wylaw 'n chwerw ar ael y bedd ;
 Gan holi yno'n drist, " Paham,
 " Y buost farw fy anwyl fam ?" 20

Mae llawer ffordd i byrth y bedd,
 Trwy dân a dwr, a miniawg gledd ;
 A thrwy glefydon blinion iawn,
 Neu ddamwain fach ; ac ymaith awn. 24

Ffordd o ddewisiad Duw y sydd
 I bawb a fu, y sydd, neu fydd ;
 Ar fôr, neu dir, fâl myno Duw,
 Bydd terfyn einioes pob dyn byw. 28

Mewn monwent las o harddbryd wedd, 29
 Gwel yr amaethwr màn ei fedd ;
 A'r morwr yntau, yn drist, yn llon,
 Gwel ef ei fedd goris y dòn. 32

Nid cloch y Llan, ond cynhurf gwynt,
 A'r mor tymhestlawg, rhuawg hynt,
 Yw clul y morwr ar y daith
 Pan èl ei gorff i'w feddrawd llaith. 36

Fy nghyfaill Salmon, calon friw,
 Wylaw ar ol dy fab nid gwiw ;
 Rhodd Duw oedd ef a'i alw a wnaeth,
 Gwir morwr oedd, i'w fedd yr aeth. 40

MARWNAD ROBERT WILIAM,¹

Bardd ac Amaethwr o'r PANDY ISAFF TRYPRIHWEDOG, ger y BALA, ac Athraw
 Barddonawl yr Awdur.

O ROBERT màe oer uban
 A llais trist yn Nhre' a Llan,
 O dy fod yma 'n dy fedd
 Yn y gweryd yn gorwedd ; 4
 Ochain sydd im' o'th achos
 Och ! beunydd yn nydd a nos.

Da genyf oedd dy ganiad,
 Fardd arafaidd mwynaidd màd, 8
 Dyddan y rhoddaist addysg
 I rai a dderbyniai ddysg ;

¹ Bu farw Awst, 1815.

A mynych rhoist i minnau
 Yn fwyn o'r ddysgeidiaeth fau,
 A thra bo chwyth byth bythawl
 Dy awen f' awen a fawl. 11

Ar ol im' fod yn rhodio
 Dros enyd o'r hyfryd fro, 16
 Daethum wrth ryw ymdeithio
 I'r PANDY i'w dŷ, do, do ;
 Ar fwriad fel arferol
 Gweled y Bardd hardd i'm hól 20
 O draw a'i ddwylaw ar led
 Yn fy ngalw am fy ngweled ;
 Er dysgwyl mewn hwyl am hwn
 Ow ! alar, ef ni welwn. 24
 Och ! newydd achwyn awen
 Hyll yw ein pŷd, colli 'n pen
 O ! chwithdod syndod im' son,
 Farw prif-fardd o FERRION. 28

Aethum oddiyno weithian
 Yn ewybr a'm llwybr i'r Llan
 At y bedd, rhyfedd yr hynt,
 I'w holi am ei helynt. 32
 Er aros yn wir oriau,
 Yn hir hir nes cwbl hwyrhâu,
 Gan ateb nid atebodd
 I mi air, Och ! marw oedd. 36

O trymaidd a fydd tramwy	37
I'r PANDY, o'ch fi ! i mi mwy	
Ni chaf hwn, och ! fi hyny,	
O waëw dwys ! o fewn ei dŷ ;	40
Diammau ei fyn'd ymaith	
I dŷ 'r bedd, diwedd ei daith,	
O'i fyned i'r nef hefyd	
Ac E' yn Fardd, gwyn ei fyd.	44

GWLAD FY NGENEDIGAETH.

Pennillion a gyfansoddwyd yn Haf y flwyddyn 1819, pan oedd IOAN TEGID, brawd awenyddol i'r awdur, yn bwriadu gadael gwlad ei enedigaeth, a myned i ymsefydlu yn yr India Ddwyrainol. Yr amcan oedd denu y Bardd godidog hwnnw i beidio ymadael â Gwlad ei enedigaeth, trwy ei ddarlunio fel yn cwynfian yn y modd canlynol, yn y fro estronawl honno.

“ TRWM yw f' enaid, trwm yw f' yspryd,	
Trom yw 'nghalon fach bob ennyd,	
Gan ryw alar oer a hiraeth,	
Am hen Wlad fy Ngenedigaeth.	4

Anwyl gwin, ac anwyl arian,	
Anwyl haf, ac awyr fwynlan,—	
Ond anwylach im' nag unpeth	
Bryniau Gwlad fy Ngenedigaeth.	8

Hyfryd iawn yw gwel'd yr haulwen	
Yn ymdorri draw o'r Dwyrain ;	
Etto gwell f'ai golwg eilwaith	
Ar hen Wlad fy Ngenedigaeth.	12

GWLAD FY NGENEDIGAETH.

157

Fel yr hydd am ddwr y dyffryn, 13
 Fel yn ol ei fam yr oenyn,
 Cwynaf finnau 'n fawr fy alaeth,
 Am hen Wlad fy Ngenedigaeth. 16

Beth i mi yw mwyth ddanteithion?
 Beth i mi yw maith oludon?
 Beth y byd a'i holl arglwyddiaeth,
 Maes o Wlad fy Ngenedigaeth? 20

Pe bawn frenin ar yr INDIA,
 Neu drigolion holl EWROPA,
 Dim i mi f'ai pob dyrchafiaeth,
 Maes o Wlad fy Ngenedigaeth. 24

Ym mha le y mae 'n ymsymmud
 Hen gyfeillion mwyn fy i'engetyd?
 B'le mae 'n trigo bob anwylbeth?
 O! yn Ngwlad fy Ngenedigaeth. 28

B'le mae 'r tŷ, a ph'le mae 'r aelwyd
 Fu im' hygar, lle fy magwyd?
 B'le mae ffynnon pob rhagoriaeth?
 O! yn Ngwlad fy Ngenedigaeth. 32

B'le mae 'r ardd, a ph'le mae 'r caeau,
 Lle y buais gynt yn chwaraeu,
 Heb na gofal na gwanobaith?
 O! yn Ngwlad fy Ngenedigaeth. 36

- B'le mae 'r llwybrau fu'm yn rhodio, 37
 Lawer gwaith dan beraidd byngcio,
 Oll yn llawn o'r awenyddiaeth?
 O! yn Ngwlad fy Ngenedigaeth, 40
- B'le mae 'n byw 'r genethod difyr,
 Rai a fedrant garu 'n gywir,
 Heb adnabod twyll na gweniaith?
 O! yn Ngwlad fy Ngenedigaeth. 44
- B'le mae 'n byw yr *un* anwylaf
 Ga's fy serch a'm cariad cyntaf?
 B'le mae hon yn marw o hiraeth?
 O! yn Ngwlad fy Ngenedigaeth. 48
- B'le mae 'r mân cyfeillgar hynny,
 Lle mae pawb fel o'r un teulu,
 Heb na chilwg nac ucheliaeth?
 O! yn Ngwlad fy Ngenedigaeth. 52
- B'le mae 'r haul a'r hwylus galon?
 B'le mae bwyd yn rhad i estron?
 B'le mae byw yn ol naturiaeth?
 O! yn Ngwlad fy Ngenedigaeth. 56
- B'le mae cynnal glân ddefodau,
 Iawn a didwyll fy hen dadau?
 B'le mae 'n byw yr hen Gymreigiaeth?
 O! yn Ngwlad fy Ngenedigaeth. 60

B'le mae 'r delyn bêr ei thannau ? 61
 B'le mae darllen mwyn gywyddau ?
 B'le mae 'r Awen a'r Farddoniaeth ?
 O ! yn Ngwlad fy Ngenedigaeth. 64

Crôg oedd telyn plant hen Sïon
 Ar y gwiail gynt ym MAB'LON,
 Mud y gân gan oeraidd hiraeth
 Am hen Wlad eu Genedigaeth. 68

Meddai meibion BABYLONIA,
 Rhowch in' ganiad, blant JUDEA ;
 Ebent hwy, Nid oes gerddoriaeth
 Maes o Wlad ein Genedigaeth. 72

Llawer gwaith dywedaf finnau,
 Awen, rho im' gân i'm genau,
 Ond atebai 'Does it' obaith
 Maes o Wlad dy Eenedigaeth. 76

Beth wna Bardd ar ddolydd INDIA ?
 Beth wna Bardd o'i wlad anwyla' ?
 'R Awen fwyn ni chân beroriaeth
 Maes o Wlad ei Genedigaeth. 80

Cwyno, nos a dydd yn ddibaid
 Yma 'r wyf ym mhlith estroniaid,
 Nid am aur na goruchafiaeth,
 Ond am Wlad fy Ngenedigaeth. 84

Mynych âf i ben y creigiau, 85
 Tro'f fy ngolwg, gyda dagrau,
 Dros y ce'nfor garw diffaith
 Tua Gwlad fy Ngenedigaeth. 88

Yna tyr yn friw fy nghalon,
 Gwel'd y môr a'i donnau mawrion,
 Rhyngof fi yn gwneyd ysgariaeth
 A hyfryd Wlad fy Ngenedigaeth. 92

Gwel'd y môr a'i donnau 'n berwi
 Fel pe b'ai e'n ymhyfrydu
 Ei fod rhyngof fi ag odiaeth
 Anwyl Wlad fy Ngenedigaeth. 96

O ! na chawn adenydd c'lomen,
 Hedwn dros y moroedd llydain,
 I gael golwg ar gu helaeth
 Fröydd Gwlad fy Ngenedigaeth. 100

Mi orweddwn yno 'n dawel
 Drwy fy oes mewn caban isel ;
 Cyfoeth byd ni'm denai ymaith
 O hen Wlad fy Ngenedigaeth. 104

DANIEL DDU.

A T E B T E G I D.

“ I mi bu cyfeillion a'r rhywiog a chywir, yn deall cyfreithiau caredigrwydd, ac yn eu cadw yn fan ol ond un arbenig o blith y nifer, gan ragori arnynt oll mewn cyfeillach ataf, a yn gwfai eu blaenu belled ag y blaenynt hwy y sawl ag oeddynt o gyffredin serch tuag ataf.”

ST. CHRYSOSTOM.

DANIEL ! DANIEL ! paid a'th gynghor,
Nid oes achos d'wedyd rhagor ;
Byth ni wel yr INDIA helaeth
Fi o Wlad fy Ngenedigaeth. 4

Wrth im' ddarllen dy bennillion,
Gair GWLADGARWCH rwygai 'm dwyfron,
Fel nad allwn er dyrchafiaeth,
Adaol Gwlad fy Ngenedigaeth. 8

Dy resymau ýnt mor gryfion,
Maent i mi mál dur-forthwylion ;
Peraist im' er pob ystyriaeth,
Fyw yn Ngwlad fy Ngenedigaeth. 12

Oni b'asai i'th fwyn bennillion
Dreiddio draw trwy giliau 'r galon,
Buaswn i, wrth bob argoeliaeth,
Yn mhell o Wlad fy Ngenedigaeth. 16

Pan ofynwyd i mi gynta'
A awn o'm gwlad i fyw i'r INDIA,
D'wedais awn ;—ond eto hirâeth
Oedd am Wlad fy Ngenedigaeth. 20

Barnu 'r oeddwn i, pryd hwnw, 21
 Mai o FEIRION gwell im' farw,
 Na gwel'd plant yr hen waedoliaeth,
 Yn gwerthu Gwlad eu Genedigaeth. 24

Gofid enbyd oedd i'm calon
 Weled Cymry 'n troi yn Saison,
 Gan anghofio iaith dda odiaeth,
 Iaith hen Wlad eu Genedigaeth. 28

Onid trwm fod Cymro 'n gallu
 Gwadu iaith ei fam anwylgu,
 Gwadu 'n hyf, er ei Gymreigiaeth,
 Ow! hen Wlad ei Enedigaeth. 32

Awn i blith yr Indiaid gwylltaf,
 Awn i bellder gwledydd poethaf,
 Cyn y gwadwn fy nghym'dogaeth,
 Neu iaith Gwlad fy Ngenedigaeth. 36

Cymro! Cymro! gwaeddaf allan,
 Iaith dy fam pan oeddit faban,
 Hono cara mewn mabolïaeth
 Gyda Gwlad dy Enedigaeth. 40

Tra fo môr, a thra fo mynydd,
 Tra fo 'n llif yr afonydd,
 Na foed Cymro mewn gelyniaeth,
 A hen Wlad ei enedigaeth. 44

GWLAD FY NGENEDIGAETH.

163

Merched Cymru, mwyn galonau, 45
Glân o bryd a gwedd a geiriau ;
Cerwch iaith eich mam yn helaeth,
Hefyd Gwlad eich Genedigaeth. 48

Nid oes mwynach peth na chlywed
Iaith Gymraeg o enau merched ;
Y Gymraes, a fyddo famaeth,
Cofied Wlad ei Genedigaeth. 52

Pan feddyliwyf fi am FEIRION,
BALA bach a'r hen gymdeithion,
Glynu 'r wyf, mâl oenyn llywaeth,
Wrth hen Wlad fy Ngenedigaeth. 56

O ! mae f' enaid yn ymlynu
Wrth anwylyd lân yn NGHYMRU ;
Gwn na fyn, mwyn yw ei haraeth,
Wadu Gwlad ei Genedigaeth. 60

Gyda hon mae fyddlawn galon,
Gyda hon mae geiriau mwynion,
Pwy rydd imi bob cysuriaeth ?
Hon a Gwlad fy Ngenedigaeth. 64

Gallwn fyw ar ben y mynydd,
A byd gwael o ddydd bwy gilydd,
Gyda hon, a'r Awenyddiaeth,
Yn hen Wlad fy Ngenedigaeth. 68

Parchu 'r ydwyf ferched Saison, 69
 Ni chant genyf eiriau duon ;
 Ond pwy bia y rhagoriaeth ?
 Merched Gwlad fy Ngenedigaeth. 72

Bellach, bellach, rhaid im' dewi,
 Mae fy nghalon oll yn lloni ;
 Ymaith, ymaith, pob hudoliaeth
 A'm dwg o Wlad fy Ngenedigaeth. 76

DANIEL DANIEL ! y mae f' awen
 Wrth ei bodd yn fywiog lawen,
 Am ei bod yn cael magwraeth
 Etto ' Ngwlad ei Genedigaeth. 80

Aed i'r INDIA 'r sawl a fyno,
 A phob llwyddiant a'i canlyno ;
 Ceisiaf finnau gael bywiolaeth
 Yn hen Wlad fy Ngenedigaeth. 84

Gwlad Eifengyl, gwlad yr Awen,
 Goreu gwlad o tan yr haulwen,
 Gwlad yn profi gwên rhagluniaeth,
 Hon yw Gwlad fy Ngenedigaeth. 88

YMLADD CRESSI, A.D. 1346.

Cyflwynedig i WENTYEN GWENT.

I like the Leeke above all hearbes and flowers;
 When first we wore the same, the field was ours;
 The Leeke is white and greene, whereby is ment,
 That Britaines are both stout and eminent;
 Next to the Lion, and the Unicorne,
 The Leeke's the fairest emblyn that is worne.

HARLEIAN MSS.

YN ymladd CRESSI¹ gwnaed Gorchestion
 Gan y Cymry, medd hanesion ;
 O'u blaen gan boethed yr ymladdfa
 Y cwypodd Brenin gwlad BOHEMIA ; 4
 Ar ei helm y caed tair pluen
 Mewn euraid grib, â'r gair ICH DIEN.

CADWGAN FOEL, â chalon lawen,
 Ac yn ei law grib tair pluen, 8
 A gerddai at Dywysawg CYMRU,
 Ar ol y frwydr, i'w anrhegu
 Gan roddi iddo 'r grib tair pluen,
 A'i godidawg air ICH DIEN. 12

CADWGAN FOEL, rhaid cofio hyny,
 Oedd yn Gadben ar y Cymry ;

¹“Yn y flwyddyn 1346, y bu ymladd Cressi, lle cafas y Cymry fawrglodd am ymladd yn lew gyda'r Tywysog Edward Ddu, ar pryd hynny y gwaeddodd y Cadben Cadwgan Foel ar y Cymry, a deisyf arwyn' gymeryd Cenhinen yn ei helmau, mewn cae Cenin yr ydoedd yr ymladd; a phan edrychwyd o bob tu, oeddynt oll onid naw a'r hugain yn y lle hynny, ar Saeson mewn rhan arall, lle nad oedd yr ymladdfa, a hynn a fu'r achos i'r Cymry wisgo Cenhinen.”

Llaw-ysgrifau IOLO MORGANWG, tu. dal. 65.

A thrwy y Cymry, nid y Saeson, 15
 O dan CADWGAN ddewrwych galon,
 GWENYNEN GWENT! ond i chwi holi,
 Yr ennillwyd ymladd CRESSI.

Pan ar ei fyddin bu i'r gelyn 20
 Wneuthur ymgyrch waedlyd gyndyn,
 Y Saeson oedd o bell yn gweled
 Yr ymladdfa waedlyd galed;
 GWENYNEN GWENT! heb le i helpu
 Yn y frwydr fechgyn Cymry. 24

Y maes oedd lawn o genin gwylltion,
 Myrddiynau ar fyrddiynau 'n dewion;
 Er mwyn gwybod gwedi 'r ymdrin
 Pa sawl Sais oedd yn ei fyddin, 28
 GWENYNEN GWENT! bu i CADWGAN
 Roi gorchymyn fâl hwn allan.

“Boed i'r Cymry yn fy myddin 32
 Yn eu helmau wisgo cenin,
 Yn eu helmau uwch eu talcen;
 Ond na wisged Sais geninen.”
 GWENYNEN GWENT! ni chafwyd dano,
 Ond naw ar hugain heb ei gwisgo. 36

Dyma 'r pryd dechreuwyd gwisgo
 Y geninen gan y Cymro;

Yn AGINCOURT fe 'i gwisgwyd gwedi 39
 Gan filwyr Cymru ar gais HARRI.¹
 GWENYNEN GWENT! er ymladd Cressi
 Gwisgasom genin ar wyl DEWI.

Maes pais arfau OWEN TUDUR
 Oedd wyrdd a gwŷn yn rhesi eglur; 44
 Ac ar ei darian lydan helaeth,
 Arwyddent wlad ei enedigaeth.
 GWENYNEN GWENT! O! cofied Cymro,
 "Cas ni charo'r wlad a'i maco." 48

Gwisged Sais rosynau cochion
 Yn blethedig a'r rhai gwynion;
 Gwisged Gwyddel ei Feillionen,
 A'r Ysgotiaid eu Hysgallen; 52
 GWENYNEN GWENT! y Cymro 'n llawen
 Ar wyl DEWI wisg geninen.

Gwŷn a gwyrddlas yw 'r geninen,
 Bonyn gwŷn, a gwerddlas ddailen; 56
 Y bonyn gwŷn sydd arwydd purdeb,
 A'r ddeilen werdd o anfarwoldeb;
 Y Cymry, o byddant bur i'w gilydd,
 A flodeuant yn dragywydd. 60

Cas gan elyn weled purdeb,
 Cas gan elyn weled undeb;

¹ Harri V.

Purdeb fyddo 'n nghalon Cymro, 63
 A chyda phurdeb undeb cryno,
 GWENYNEN GWENT ! tra 'r undeb fyddo
 Ni all gelyn drechu Cymro.

I bob Cymro mae 'r geninen
 Yn ei law yn llyfyr darllen ; 68
 Er haf a gauaf, gwynt ac oerni,
 Ei gwŷn fydd wŷn, a'i glas yn lesni ;
 GWENYNEN GWENT ! ac felly 'r Cymry,
 Er bob tywydd fyddant Gymry. 72

ALBERT TYWYSAWG CYMRU.

UN dydd ar godiad yr Haul,
 Y Beirdd a welwyd ar fryn ;
 Pob un yn wylaw yn drist,
 Yn gwedyd mewn geiriau fal hyn : 4

“ Bu in' Dywysogion fil,
 Gwyr dewrion oll mewn cad ;
 A'u henwau 'n anwyl y sydd,
 Pob enw yn iaith ein gwlad ! 8

Ond ALBERT, pa enw yw hwn ?
 Ac ef yw 'n Tywysawg yn awr ;
 Pe buasai 'i enw 'n LLYWELYN,
 Neu ARTHUR, fal hen ARTHUR gawr :—” 12

SUOGAN.

169

Ar hyn CADEIRFARDD a ddaeth, . . . 18
 Cyhoeddi Eisteddfod ei waith ;
 O'i amgylch ymgasglai y Beirdd,
 Mewn galar, a'u llygaid yn llaith. 16

Y PRIF-FARDD a wedai fâl hyn :—
 “ ALBERT yw testun eich cân ;
 Ni chawsom gwell enw erioed,
 Cymraeg, Cymraeg gloyw glân : 20

“ Ystyr AL yw *rha gorawl a gwych*,
 Boed hyn yn hysbys i fardd ;
 A BERT yw *berth*, gair Cymraeg,
 ALBERT, sef gwr hynod hardd.” 24

Y dagrau a'r galar, ar hyn,
 A gilient yn llwyr ac yn lân ;
 Nid ARTHUR na LLYWELYN, byth mwy ;
 Ond ALBERT yw testun eu cân. 28

SUOGAN ALBERT TYWYSAWG CYMRU.

Cwsg ! cwsg ! O cwsg yn awr,
 Blentyn bach ! Blentyn bach !
 Ganwyd ti 'n DYWYSAWG mawr,
 O uchel âch ! 4
 Mâe CYMRU 'n llawen drwyddi
 Am iti gael dy eni ;
 Mâe 'r AWEN a'r DELYN ar dân,
 A thi DYWYSAWG ! yw testun eu cân. 8

- Pe dysgit, Blentyn mād, 9
 Cyn bo hir, cyn bo hir,
 I siarad yn iaith y wlad
 Hen GYMRU dir ! 12
 Ennillet ti drwy hyny
 Galonau 'r dewrion Gymry :
 ALLMANAEG yw *Al*, enw hardd,
 A BERT yw *Berth*, gair Cymraeg, medd y
 Bardd. 16
- Boed iti, ALBERT ! gael
 Rhwydd-deb hynt! Rhwydd-deb hynt !
 A chalon wrawl hael
 Mâl ARTHUR gynt. 20
 O cofia am GYMRU dirion,
 Y Beirdd a'r Telynorion :
 Os gwnai di hyn, mawr fydd sôn
 Am danat ti o hil PENMYNYDD MON. 24
- Cwsg ! cwsg ! O cwsg yn awr,
 Blentyn bach ! Blentyn bach !
 Ganwyd ti 'n DYWYSAWG mawr,
 O uchel âch ! 28
 Mae CYMRU 'n llawen drwyddi
 Am i ti gael dy eni ;
 Mae 'r AWEN a'r DELYN ar dân,
 A thi, DYWYSAWG ! yw testun eu cân. 32

BARDD NANHYFER.

CENLLYSG yn gymmysg âg ôd—a gefais,
 A gofid a thrallod ;
 Tra bo chwÿth ni all fod
 Ar undyn fwy o ryndod.

GWRANDEWCH hanes bardd o Gymro,
 O Blwyf 'NHYFER yn swydd Benfro :—
 Ar fore gwlawog troai allan
 Ar ryw neges i GILGERRAN. 4

Y gwynt oedd lym, yn chwythu 'n oerlyd,
 A'r ffordd yn llawn o dyllau pydlyd ;
 Ni welodd neb erioed mewn unwlad,
 Un ffordd môr gas, ac môr anwastad. 8

Marchogai 'r bardd ar farch bach buan,
 Un gwrawl ôd, o'r enw BUNYAN ;
 Trechach march uwch pedair pedol
 Ni welodd neb ar ffordd na heol. 12

Ar ol cyrhaedd TRE GILGERRAN,
 Trwy 'r gwynt a'r gwlaw a'r baw a'r cyfau ;
 Y gwlaw a droes yn eira-claerwyn,
 A'r gwynt yn rhew-wynt caled cyndyn. 16

I'r FFOREST âi i gael ymgeledd,
 A'r gwynt-rhew 'n brathu penau 'i fysedd ;

Ni welwyd bardd, er gweled llawer, 19
Mewn cyflwr gwaeth no bardd NANHYFER.

Ar ol bwytta ac eistedd enyd,
Yn ol y mynai 'r bardd ddychwelyd,
Ond cyn iddo fyned neb pell
Oedd da cael lle 'n Mhlas y BRIDELL. 24

Da oedd iddo 'r noswaith hono
Fod y plas yn agos ato ;
Yr awyr oedd yn gogru 'r eira,
A'r gwynt a'i lluchiai draw ac yma. 28

Bore tranoeth, yn fore fore,
Mynai 'r bardd wynebu adre ;
Ofer hyn, nid oedd i'w weled,
Ond eira dwfn a rhew caled. 32

Yna 'r bardd heb fawr o gymhell,
Arosai eto 'n Mhlas y BRIDELL ;
Nid allai neb fod mwy croesawgar,
I'r bardd, no 'r gwr, a'i wreigdda hawddgar. 36

Y trydydd dydd a'r hin yn dadmer,
Y bardd âi ymaith i NANHYFER ;
Ond ni feddyliodd yn y bore,
Y gwaith a gawsai 'n cyrhaedd adre. 40

Ymboeni 'n fawr wnaeth ef a BUNYAN 41
 I ddringo i fyny rhiw CILGERRAN ;
 Am hanner milldir dda, o leia',
 Y ffordd oedd lawn o luchfeydd eira. 44

Ond, megys llong o flaen ei hwyliau,
 Ai BUNYAN trwyddynt hyd ei 'sgwyddau ;
 A'r gwynt yn cario yr eira beunydd,
 Eirwlaw oer ar ei adenydd. 48

Ar ol cefnu ffordd CILGERRAN,
 " Awn adre bellach, anwyl BUNYAN,"
 Ebai 'r bardd gan ddechreu lloni,
 Gwedi cael ffordd ABERTEIFI. 52

Os oedd hi 'n ddrwg ar ffordd CILGERRAN,
 Yr oedd hi 'n waeth o hyny allan ;
 Y gwynt yn chwythu 'n gryfach gryfach,
 A'r eira gwyn yn ddyfnach ddyfnach. 56

A'r bardd yn dal ei ddwylaw 'n ddibaid,
 Rhag i'r eirwlaw lenwi ei lygaid ;
 A'i wisg yn troi, er gofid iddo,
 Megys llurig dew am dano ; 60

Ymlaen âg ef, ar gefn BUNYAN,
 Mâl gwr arfawg ; ond yn fuan,
 Wele 'r ddau, mewn trom ymladdfa ;
 Dros eu penau yn yr eira. 64

Os bu yn galed arnynt yma, 65
 Nid oedd hyn ond un ymladdfa ;
 Yn lle UN ymladdwyd degau
 Cyn gallael croesi PEN Y CRUGIAU. 68

Lluchfa, lluchfa, ydoedd beunydd
 Ar draws y ffordd, fâl bryn neu fynydd ;
 Nid oedd gobaith gweled cartre,
 Hyd nes cyrhaedd ALLT FELINDRE. 72

Ni ddaeth gwr yn iach o ryfel,
 Na morwr chwaith i'r porthladd tawel,
 Yn llawenach yn ei galon
 No 'r bardd o ganol ei beryglon. 76

Bu yn wir mewn cyfyng-gynghor
 Ar y nawfed dydd o CHWEFROR ;
 A'r flwyddyn oedd, mâl gwypo 'r cywrain,
 Un mil, wyth gant, a saith a deugain. 80

Y G O G.

CYFIEITHAD.

Hail, beauteous stranger of the wood,
 Attendant on the spring ;
 Now heaven repairs thy rural seat,
 And woods thy welcome sing. *

BRUCE, KINROSSIRE.

BYDD lawen Gog ! ti ddoist o bell,
 Do, atom wanwyn eto,
 Par 'toi a wnaeth y nefoedd fry
 Wyrdd-lwyni it' breswyllo. 4

Pan welom ni y llygad dydd, 5
 Am danat pawb ddysgwyliant ;
 Ai wrth seren yn y nèn
 Y gwyddost pan flodeuant ? 8

Pan ddeui di i mewn i wlad,
 Mae'r wlad yn llawn o flodau ;
 A'r adar trwy yr awyr faith,
 Yn pyncian eu caniadau. 12
 A'r plant wrth gasglu 'r blodau mân,
 Mòr llawen ýnt o'th weled !
 A phan y clywont hwy dy lais,
 Hwyt geisiant dy ddynewared. 16

Ond rhyfedd yw pan weli di
 Y pŷs yn teg flodeuo,
 Ffoi a wnei i arall wlad,
 Er mwyn cael gwanwyn yno. 20
 Mewn gwanwyn byth y ceri fyw,
 Ac nid mewn Haf, na Gauaf ;
 Ac o'r holl adar sydd yn bod,
 Tydi raid fod ddedwyddaf. 24

Och fi ! nad allwn, màl tydi,
 Gael byw mewn Gwanwyn beunydd,
 A chael esgyll, màl tydi,
 I'th ddilyn trwy y gwledydd ; 28
 Cawn wedi weled llawer gwlad
 Pan fyddai 'r wlad brydfertthaf ;
 A'r holl drigolion, fawr a mân,
 Yn llawenychu fwyaf. 32

AMSER.

A M S E R.

Tempus edax rerum.
OVID.

- AMSER a ehed—a ehed—
E a ehed yn gynt,
No thôn y môr, er cynted rhed—
Yn wyllt o flaen y gwynt. 4
- AMSER a ehed—a ehed
Yn gynt no 'r llong ar daith,
Pan yn gyflymaf hi a red
Dros donau 'r eigion llaith. 8
- AMSER a ehed—a ehed—
Yn gynt no 'r eryr cryf,
Pan fo â'i esgyll braidd ar led,
Yn dyscyn ar ei bryf. 12
- AMSER a ehed—mawr fy mraw—
No 'r fellten mae yn gynt,
Pan gwylltaf naid o'r Dwyrain draw
I'w gorllewynawl hynt. 16
- Cyflymach AMSER nas gall iaith
Adrawd gyflymed yw;
Ystyriwn bawb gan hyny 'n gwaith,
A'r modd y dylem fyw. 20
- Cyflymed ydym ar ein taith
Ag AMSER—onid gwir?
Ein cartref Tragwyddoldeb maith,
Lle byddwn bawb cyn hir. 24

Y B E D D.

CYFIEITHAD.

Das Grab ist tief und stille.

* * * VON SALIS.

DWEN yw 'r bedd a dystaw,
 O'i gylch cartrefa braw ;
 Mae 'n cuddiau mewn dirgelwch
 O'n gŵydd y byd a ddaw. 4

Ni chlywir cân yr adar
 O fewn i ardal bedd ;
 Ni welir yno 'n tyfu
 Y blodau hardd eu gwedd. 8

Y ferch a wyla 'n ofer
 Ar ol ei chariad cu ;
 Ni ŵyr ei llef alarus
 Y ffordd i'r beddrawd du. 12

Nid oes ar wyneb daiar
 I neb gysuron pur ;
 O fewn y bedd ceir gorphwys
 Oddiwrth y byd a'i gur. 16

Mae f' enaid am ehedeg
 Lle mae trigfanau hedd ;
 A'm corff yn chwennych gorphwys
 Am enyd yn y bedd. 20

Y CYNAUAF.¹

CAWSOM gnydau teg, toreithiawg,
 I'n llawenhâu, a'n cadw 'n fyw :
 A phwy, wrth edrych ar y meusydd,
 Na wél môr dda wrth ddyn yw Duw ? 4
 Mae 'r medelwyr â'u crymanau,
 Wrth yr ydau fore a nawn ;
 A phob ydlan, ac ysgubawr,
 Fydd eleni eto yn llawn. 8

Yn lle gwlaw a gwynt ystormus,
 Haul yn gwenu ar ein byd ;
 Yn lle gweithwyr gartre 'n segur,
 Pawb yn brysur gyda 'r yd : 12
 Yn lle newyn a drudaniaeth,
 Llawnder a digonedd sydd ;
 Yn lle tristwch, gwaedd a galar,
 Llawen floedd trwy gydawl dydd. 16

O môr dirion, hael, trugarawg
 Ydyw Duw, ein nefawl Dad ;
 Ond pwy sydd yn diolch iddo
 Am ei aml roddion rhad ? 20
 Llawenhâu am gael digonedd,
 Heb feddwl am yr hwn a'i rhoes,
 Ydyw arfer gyffredinawl
 Dynawl ryw o oes i oes. 24

¹ 1843.

Pa beth yw 'r achaws nad yw 'r Cymry 25
 Oll yn dân yn moli Duw,
 Am ei fendithion in' eleni
 Ydau, firwythau, o bob rhyw? 28
 GYMRY! GYMRY! rhoddwch heibiaw
 Eich gelyniaeth naill i'r llall;
 Ac addolwch Duw, fâl brodyr
 Gan roi heibiaw gwaith y Fall. 32

Trwm fydd dy weled ti, REBECCA! ¹
 Gyda 'th blant, bydd hyn cyn hir:
 Yn ngafael cyfraith mewn cadwynau,
 Yn gaethion mewn estronawl dir. 36
 Yna y dechreui feddwl
 Y drwg a wneist i'th wlad dy hun;
 Ond rhy hwyr bydd edifaru,
 A thi yn gaeth, yn wael dy lun. 40

YR IAITH GYMRAEG.²

GELYN YR IAITH GYMRAEG, dywed im' Pa ham
 Y mynit in' anghofiaw iaith ein mam?
 Nid yw y Saes 'neg, ddyn, ond iaith er doe,
 Tra mae 'r Gymraeg yn iaith er dyddiau Noe. 4

¹ Ysgrifenydd yr uchod pan oedd y "Beccas" yn terfysga yn y Deheudir.

² Yr uchod a gyfansoddwyd ar ol clywed Cyfaill o Esgobaith Llandaf, yn lladd ar yr Iaith Gymraeg, ac yn gweddiaw am ei difodiad. Y mae y Gân yn atebiad i'w wrthebion.

Y Saes'naeg sydd yn well, mwy perffaith iaith ; 5
Yn well ! mwy perffaith ! nid yw hyna 'n ffaith.

Gwell yw 'r Iaith Saes'naeg noc un iaith o'r byd ;
Taw ; geiriau benthg ei geiriau bron i gyd. 8

Saes'naeg, boneddig yw, yn haeddu clod ;
A hi mor glytiawg, Sut gall hyny fod ?
Boneddig yw 'r Gymraeg ; a'i geiriau pob yr un,
Ynghyd â'u gwreiddiau, ŷnt eiddo 'r iaith ei hun. 12

Ni chlywir yn Gymraeg ond swn Ch ac Ll ;
Melus yw 'r Saes'naeg ; ac mae 'n swniaw 'n well :
O taw a'th glebar ; ond it' ddal ar lais,
A si yr S y sydd o hyd yn iaith y Sais ; 16
Cei weled yn y fan mai llawer gwell
No si si yr S yw sain yr Ch a'r Ll.

Iaith y Sais, iaith prynu a gwerthu yw :
Ni thwyllai Sais un Cymro yn ei fyw ; 20
E bryn, e werth, â'r Sais mewn unrhyw ffair.
Mae 'n deall iaith y Farchnad air am air.

Y Cymry a'r Saeson gwell eu bod yn un :
Hwy allant fod er cadw eu hiaith eu hun. 24

Nid da bod droyiaith mewn un wlad fal hon,
Gad hebio 'r Saes'naeg, dysg Gymraeg yn llon.

Mynwn pe Saeson fyddai 'r Cymry oll :
Saeson fyddant pan êl eu hiaith ar goll. 28

Daw 'r dydd y try y Cymry yn Saisson pur : 29
Yn y dydd hwnw y try y mêl yn sur.

Mae ymdrech maur, yn wir mae llawer cais,
I gael gan Gymro ddysgu iaith y Sais. 32
Er maint yr ymdrech, ac er maint y cais,
Cymro fydd Gymro eto ; a Sais yn Sais.

Mae rhai Esgobion am ddiffoddi 'r iaith ;
Ai yn Llandaf mae 'r Esgob wrth y gwaith ? 36

Ni waeth i chwi am bwy yr wyf fi 'n son ;
Gwaeth fydd i'r wlad o FYNWY deg i FON.
Os ni chaiff Cymro bregeth yn y Llan,
Yn iaith ei hun ymedy yn y fan ; 40
A phwy nis gŵyr fod Cymro 'n caffael cam,
Pan ni phregethir iddo yn iaith ei fam ?

Gwyn fyd na chollai yr hen Gymry eu hiaith ;
Pe collent hi nid Cymry fyddent chwaith. 44

Ond penwn hyn o ddadl, mae yn hwyrhau,
Gan ofyn barn un arall uwch no ni ein dau ;
Esgob TY DEWI, gwr o uchel ddawn,
Yn deall y Gymraeg yn gywir iawn ; 48
Pregetha gartref ; a phan y bo ar daith,
I'r Cymry uniaith yn eu hanwyl iaith ;
Mae 'n wr o ddysg, yn deall llawer aeg,
Gofynwn iddo ef ei feddwl am Gymraeg. 52

Ni fyn efe yspeiliaw 'r Cymry hen 53
 O'u hanwyl iaith : mae 'n ateb gyda gwên :—
 " Eich iaith hen Gymry, denodd hi fy mryd ;
 " Iaith wreiddiawl yw, parhaed tra pery 'r byd. 56
 " EU HIAITH A GADWANT, medd TALIESIN fardd,
 " EU NER A FOLANT : dywediadau hardd.
 " Dywedaf innau yn ol ei eiriau ef,
 " Ac arnoch Gymry, dyscyned bendith Nef. 60
 " Eu hiaith a gadwant, er Saes'naeg a phob AEG. ;
 " A'u Ner a folant yn yr iaith Gymraeg."

DINYSTR SENACHERIB.

Cyfieithad o'r Saesoneg gan Lord Byron.

MAL blaidd ar y praidd y dyscynai yr Assyr
 Mewn glaswisg ac aur y pelydrent ei filwyr,
 Ydoedd llachar eu beri fal ser ar y lli'
 Yn y nos pan fo tonawg dwfn fôr Galili. 4

Mâl gwyrdd-ddail yn nechreu yr Haf yn y goedwig,
 Y llu oedd ar fachlud yr Haul yn weledig ;
 Mâl dail yn y goedwig, pan Hydref ar ddiwedd,
 Y llu ydoedd dranoeth mdr farw yn gorwedd. 8

Canys Angel Marwolaeth ar chwÿth a ehedai,
 Ac yn wyneb y gelyn wrth fyned anadlai ;
 A llygaid y cysglyd yn angeu a oerent,
 A byth eu calonau eu gwaith a anghofient. 12

Ac yno gorweddai y march ffroen agored, 13
 Ond mwyach ni ffroenai o awydd i fyned ;
 Ac ei ewin tro olaf y llawr a orwynai,
 Yn oer, fal môr hiffiant ar graig y dyscynai. 16

Ac yno gorweddai y marchawg yn angau,
 Ac y gwlith ar ei rudd, a rhwd ar ei arfau ;
 A dystaw pob pabell, dichwyf y baneri,
 Y picellau hyd lawr, a'r cyrn yn dystewi. 20

A gweddwon gwlad Assyr yn uchel a udant,
 Ac yn nheml Baal yr eulunod a dorant ;
 A chryfder yr Ethnig heb gleddyf yn hyrwydd
 A doddai mâl eira yn ngwyddfod yr Arglwydd. 24

CYMREIGYDDION LLUNDAIN.

Y pennillion hyn a gyfansoddwyd pan etholodd y Gymdeithas yr Awdur yn
 seilawd gohebawl, ac o herwydd iddi bleidiaw gyda'g ef yn hytrach no chyd a'r
 Parch. Bruce Knight, Canghellawr Llandaf, mewn perthynas i'r Llythraeth
 Gymreig.

TELYN y Cymry, tan nawdd Cymreigyddion,
 Fydd byw yn dragywydd, yn hen GYMRU dirion ;
 Ei hadlais a glywir ar finion afonydd
 Tra adlais mewn craig,—tra awel ar fynydd. 4

PENNILLION y Cymry, tan nawdd Cymreigyddion,
 A genir tra chanant dafodau dyniadon ;
 Lle gwelir y delyn rhwng dwylaw y Cymro
 A'r tannau yn chwareu,—pennillion fydd yno. 8

LAITH yr hen Gymry, tan nawdd Cymreigyddion,
 Fydd byw ar y tafawd, tra thafawd gan ddynion ;
 Darllenir Cymraeg yn ngwaith y Cymreigydd,
 Tra llong ar y môr,—tra blodau ar feusydd. 12

ARFERION y Cymry, tan nawdd Cymreigyddion,
 A gedwir yn barchus o barch i'r hen Frython ;
 Ni dderfydd y delyn tra Cariad a Galar,
 Ni dderfydd Cymraeg nes darfod y ddaiar. 16

LLYTHYRAETH GYMREIG, tan nawdd Cymreigyddion,
 A 'sodir ar sylfaen na syfla gelynlion ;
 Gall KNIGHTIAID y byd ymgodi ac erlid,
 Tan nawdd Cymreigyddion diogel fydd TEGID. 20

Y TELYNAWR IEUANC.

Telynwyr ieuanc, mab i Robert Hughes,¹ o'r Bala, pan ar fin ymadaw â'i fam yn Llundain, i fyned gyda'i dad drwy Loegr a Chymru, i ddangaws ei fedrusrwydd ar y delyn, yn y flwyddyn 1838, a gipiodd i'fyny ei delyn, a chyfansoddodd yn ddiaymwyth dôn alarus, cwynfanus, a thoddedig dros ben. Y llythrennau canlynawl a gyfansoddwyd ar ol ei glywed yn ei chware ar ei delyn fach, ac am y mesur y mae yn cyfateb i'r dôn.

O, Fy Mab ! anwyl fab ! paham mae dy ruddiau
 Heddyw yn ddagrau ? O ! dywed paham ;
 Ni 'th welais o'r blaen mewn cymmaint gofidiau,
 Yr achaws o'th flinder mynega i'th fam. 4

¹ Yr oedd Robert Hughes, â'i deulu, yn byw yn Llundain y pryd hwn. Dywedir i'r Telynwyr ieuanc fodd yn America, trwy gwym-paer o hono allan o'r cwch pan ar un o'r llynau yno.

O Fy Mam ! anwyl fam ! yr wyf yn galaru 5
 Wrth feddwl ymadael â thi, O, fy mam !
 Er mwyn chware 'r delyn trwy LOEGR a CHYMRU ;
 Canys pwy fal tydi a'm cadwa rhag cam ? 8

O, Fy Mab ! cymmer galon, mae genyt ti ddoniau
 I roi bywyd i'r delyn, er syndawd y wlad ;
 Derbyniad a gai mewn trefydd a Llanau,
 Ac i'th gadw rhag cam cai noddod dy dad. 12
 O, Fy Mam ! anwyl fam ! mae 'r delyn yn ateb,
 Er mwyned fy nhad, onid mwynach fy mam ?
 Er hoffed ei wên pan fo lonaf ei wyneb,
 Eto pwy fal tydi am cadwa rhag cam ? 16

Y LLEUAD.

O LEUAD arianaidd ! môr deg yw dy lwybr,
 Môr loyw a harddwych wrth dramwy y wybr ;
 Er hyny os creffir, er teced wyt, DDUWIES !
 E welir rhai brychau yn duaw dy fonwes. 4

Un modd os edrychir i mewn i ddynoliaeth,
 E welir rhai beiau, rhyw anaf, ysywaeth ;
 A ! rhaid yw cyfaddef na welir gwir burdeb
 Yn nim, ac yn neb, ond yn Nŵw Tragwyddoldeb. 8

Y TAIR NWYD ; LLAWENYDD, GALAR, A CHARIAD.

Y Dôn,—Y Dderwyn.

PAN fo pur LAWENYDD yn llenwi fy mron,
 Mae f 'ysbryd yn uchel, a'm calon yn llon ;
 Mae'r awel môr bêr ; mae y meusydd môr fwyn ;
 A'r oriau yn ehedeg, màl niwl dros y twyn. 4

Am hyny, GYFELLION ! boem lawen, a doeth ; 5
 Dymunach LLAWENYDD, a gwell no 'r aur coeth :
 A dedwydd y teulu lle mae hwn i'w gael,
 Rhydd gysur i fynwes yr uchel a'r gwael. 8

Môr groes ydyw GALAR, mae hwn yn pruddhau
 Fy ysbryd a'm calon, nas medraf fwynhâu
 Un ddyddan gyfeillach, na gair yn ei bryd ;
 Na 'r awel na 'r meusydd ; na dim yn y byd. 12
 Am hyny, GYFELLION ! aed galar o'n bron,
 Ac ynddi llettyed LLAWENYDD yn llon ;
 A'r awel fydd bêr, ac y meusydd fydd mwyn,
 A'r oriau a hedant, màl niwl dros y twyn. 16

I gynnal LLAWENYDD, doed CARIAD â'i wên,
 Ac yna môr ddedwydd fydd ieuanc a hên ;
 Eu cartref hwy ydyw y fonwes lân bur ;
 Gadawant yr euawg ; ni hoffant y sur. 20
 Am hyny, GYFELLION ! dechreuwn mewn pryd
 I garu ein gilydd yn gywir i gyd :
 Ac yna môr felus fydd oriau ein hoes,
 Er hedeg yn gyflym hwy hedant heb loes. 24

LLYN TEGID.

Awn i rodiaw at y LLYN,
 Plant y BALA bach,
 Lle y buom ni cyn hyn,
 Plant y BALA bach. 4

Pereiddiach yw ei ddwr no gwin, 5
 Ac iach yr Awel ar ei fin.
 Ac O ! mor hyfryd yw yr hin,
 Plant y BALA bach. 8

AWN i rodiaw i'r Ro WEN,
 Plant y BALA bach :
 Tesawg yw yr Haul uwch ben,
 Plant y BALA bach ; 12
 Mae 'r wŷyn yn chwareu ar y Bryn,
 A'r gwartheg blith yn brithiaw 'r LLYN ;
 A llon holl anian gyda hyn,
 Plant y BALA bach. 16

AWN i rodiaw i'r CAE MAWR,
 Plant y BALA bach ;
 Ar y glaswellt dros un awr,
 Plant y BALA bach ; 20
 Mae y briallu heddyw 'n hardd,
 Felly y rhosyn yn yr ardd,
 O ! clywch bellach rybudd bardd ;
 Plant y BALA bach. 24

Ni chawn rodiaw yma 'n hir,
 Plant y BALA bach ;
 Y mae hyn yn ddigon gwir,
 Plant y BALA bach ; 28
 Bèr ein hoes,—a llawn o fraw,
 Màl oes yr wŷyn yn chwareu draw ;
 Machluda 'r Haul,—a'r nos a ddaw,
 Plant y BALA bach. 32

Bèr yw oes pob rhosyn gardd, Plant y BALA bach ;	33
Bèr yw oes briallu hardd, Plant y BALA bach :	35
A bèr yw einioes pob dyn byw, Er maint ei rwysg,—un marwawl yw, Cyn hir fe fydd fâl rhosyn gwyw ; Plant y BALA bach.	40

YMWELIAD Y BARDD.

I DREF y BALA yr aeth y Bardd I edrych am ei Dad ; Aeth dros y tŷ, a thrwy yr ardd Gan waeddi, “ O FY NHAD !	4
Nid yw fy Nhad yn un rhyw fân, Os nad yw yn y bedd ;” Atebai careg iddo yn wân, Dywedai, “ Yn y Bedd !”	8

Pa le mae GWEN, fy anwyl GWEN, Fy chwaer ! Pa le 'r wyt ti ? Od wyt yn fyw, anwylaf GWEN, O dywed, “ Wele fi !” Ni chlywaf lais, mawr yw fy mraw ; Wyt tithau yn y bedd ? Atebai 'r gareg oedd gerllaw, Dywedai, “ Yn y Bedd !”	16
--	----

YMDDYDDANION FY MAM.

189

Fy Mam ! fy Mam ! anwylaf Fam, 17
 A roist im' faeth a mag ;
 O dywed im', fy Mam ! paham
 Mae 'r gadair hon yn wag? 20
 Gwae fi, fy Mam ! fy Mam ! fy Mam !
 Wyt tithau yn y bedd ?
 Éto 'r GAREG—ATEB am
 Hatebai : “ Yn y Bedd ! ” 24

Mae 'r tŷ yn dywyll drwyddo draw,
 A'r ardd â'i blodau 'n wyw ;
 Na 'm Tad, na 'm Mam, na 'm chwaer gerllaw,
 Ni welaf mwy yn fyw. 23
 Maent hwy yn cysgu 'n min y Llyn¹
 Mewn gwely pridd eu Tri ;
 Mi wylaf dro wrth feddwl hyn,
 Mae hiraeth arnaf fi. 32

YMDDYDDANION FY MAM.²

HWN ! fy Mam, pa edn yw ?
 O Hedydd yw,
 Fy Mab, eheda fry i'r entrych draw,
 Pob bore gyda 'r wawr, tan foli Duw
 Yn felus iawn ; ac yn ei ol ni ddaw 4
 I'r ddaiar mwy, hyd nes gorpheno ei gân :
 Gan ddysgu dyn mai ei ddyledswydd yw

¹ Llyn Tegid. Yn Monwent Llanyceil y claddwyd hwynt.

² Gwel bennillion i'r un perwyl gan y diweddar Mrs. Hemans, a G. W. Doane. Mae yr uchod wedi ei gyfieithu i'r Seisnaeg gan y diweddar Barch. Ed. Davies, Kerry.

Pob bore, ar ol ymolchi yn lân, 7
 Gwir wneuthur coffa am ddaioni Duw ;
 O fy Mab ! tebyga di yr Hedydd ar ei daith,
 Yn wresawg bydd mewn gweddi, cyn dechreu diu
 [o'th waith.

Hwn fy Mam, pa edn yw ?
 Colomen fach,
 Fy Mab, yn trydar wrthi ei hun, 12
 Un fodd a'th nain, neu ti pryd nad wyt iach ;
 Colomen hoff ! mdr hardd ei lliw a'i llun !
 Mdr ffyddlawn idd ei chymhar hefyd yw ?
 Fy Mab, na thafia gareg at ei phen : 16
 Mae mdr ddiniweid ! O gad iddi fyw,
 Na chlwyfa hi, goddefa hyn o sen.
 O fy Mab, tebyga di y wâr Golomen hon,
 O hyd mewn diniweidrwydd, a thawel fydd dy
 [fron. 20

Hwn ! fy Mam, pa edn yw ?
 O Alarch gwyn,
 Fy Mab ! o ddn i ddn yn nofiaw 'n hardd,
 Nes cyrhaedd tawel ddwr o tan y bryn,
 Lle cân ei farwnad uwch no 'r mwynaf fardd, 24
 A llais melusach noc erioed o'r blaen :
 Ac yna gorwedd ar ei wely llaith
 I farw, ac ei esgyll gwyn ar daen :
 Mâl hyn yr Alarch a derfyna ei daith : 28
 O fy Mab ! tebyga di yr Alarch. Yr un wedd
 Mwy nefawl boed dy eiriau, wrth nesu at y bedd.

MERCH IEUANC YN Y DARFODEDIGAETH.

PAN welais hi ar ben yr allt,
 Yn rhodiaw drwy y coed,
 Coch oedd ei gwrid dan fodrwy gwallt,
 Ac ysgafn oedd ei throed ; 4
 Oedd hardd o gorff, oedd deg o bryd,
 Yn EFA 'n ngolwg bardd ;
 Oedd degweh bro, oedd degweh bryd,
 Mdr hynod oedd o hardd. 8

O graig i graig, o lwyn i lwyn,
 Y rhodiai dros y bryn,
 Gan dafu llawer golwg mwyn
 Yn llon tuag at y Llyn ;¹ 12
 A'r Llyn oedd ddysglaer is ei throed
 A thawel fal mewn hun,
 Lle gwelai ddelw 'n nghanol coed
 A'r ddelw oedd ei llun. 16

Edrychai dro, ond meddwl prudd,
 Rhyw feddwl am y bedd,
 A daflai dristweh dros ei grudd,
 Nes newid lliw ei gwedd ; 20
 Dywedai,—“ A ! y cysgod draw
 A ddwg i'm henaid loes,
 E dderfydd tdc, mae tòn gerllaw,
 Mâl hyn terfyna oes. 24

¹ Llyn Tegid.

192 **MERCH IEUANC YN Y DARFODEDIGAETH.**

Ac megys tòn o flaen y gwynt Yn claddu 'r cysgod draw.	25
Daw angeu—daw, mae ar ei hÿnt, Yn fuan hefyd daw.”	28
Rhy wir ei gair—anwylyd wèn ! A gwèn mewn glendid moes, Ei gyrfa buan ddaeth i ben, Bu farw 'n mlodau 'i hoes.	32

MERCH IEUANC YN Y DARFODEDIGAETH

WETH edrych ar ei delw hardd, Ei llygaid, ac ei gwèn ; Meddyliwn am flodeuyn gardd Cyn henaint oedd yn hen.	4
Ni welodd hi flynyddoedd gwae, Er hyny gwywa 'i gwedd ; Mâl y blodeuyn plygu y mae Cyn henaint tua 'r bedd.	8
Nid ÿnt ei llygaid hanner byw, Ac angeu ynddynt sydd ; A gwrid ei grudd anwadal yw Yn symmud nos a dydd.	12
Ei thirion wèn, Angeles wèn ! A ddwg i gof y bardd Am freilw ¹ gwyw yn plygu ei ben Cyn llechu 'n llwch yr ardd.	16

¹ *Breilw*, rhos, rhosyn, *Lîb. Land.* Gwel *Brail* yn *Davies' Welsh Botany*.

CAN I GARIAD.

193

Môr hoew flwyddau bach yn ol, 17
 Môr ysgafn ar ei throed ;
 Ar ael y bryn, ar waelawd dôl,
 Yn hoewaf un o'i hoed : 20
 Ond heddyw braidd y symmud gam
 Gan wayw megys cledd ;
 Ei dewis waith, yn mraich ei mam,
 Yw dangaws man—ei Bedd. 24

CAN I GARIAD.

CYFIEITHAD O WAITH ANACREON.

CARIAD unwaith aeth i chwarau
 Ar ei daith i blith rhosynau ;
 Ac yno 'r oedd heb wybod iddaw
 Wenynen fach yn ddiwyd sugnaw. 4

Wrth aroglï o hono' n hoyw
 Y rhosyn hwn, a'r rhosyn acw ;
 Y wenynen fach a bigai
 Ben ei fys ; ac ymaith hedai. 8

A gwaeddodd yntau rhag ei cholyn,
 A chan y poen ag oedd yn dilyn ;
 At ei Fam y gwnai brysuraw,
 A'r dagrau tros ei ruddiau 'n llifaw. 12

Gwaeddai, Mam ! yr wyf yn marw : 13
 Brathwyd fi yn arw arw,
 Gan ryw sarff hedegawg felen ;
 A'i henw, meddynt, yw Gwenynen. 16

Ebai GWENER, os Gwenynen
 A'th bigodd di môr drwm, fy machgen !
 Pa faint mwy y saethau llymion
 A blenaist ti yn llawer calon ? 20

FY NGHARIAD.

Gwyw calon gan hiraeth.—DIAR.

MAE 'Nghariad yn wên ail gwynder y lili,
 A'i llygaid yn llôn a llym fâl y peri ;¹
 Gwridawg ei deurudd, màl breilw² ar gafod ;
 O seren ! y bore yn nghanol rhanod. 4

Mae 'Nghariad yn serchus, ac er fy moddloni,
 Rhydd fywyd i'r delyn, rhydd gân er fy lloni ;
 Mae 'n rhyfedd o gywrain, yn llawn o ragorion,
 Yr unig a garaf yn mhlith daiarolion. 8

Mae 'Nghariad yn gywir, ei geiriau a gredaf,
 Ei llaw ar ei dwyfron, a'i dagrau a gofiat ;
 Mae meddwl am dani yn lloni fy nghalon,
 O ! ffynnon dedwyddyd mewn byd o ofalon. 12

¹ Par, a spear. *Ar ladd lladd llachar ar bâr beri.* GWALCHMAL.² Breilw : rhoeyn.

GOFYNIAD Y BARDD.

Prysured AMSEB ar ei daith, 17
 Na boed yr amser ddim yn faith,
 Im' glywed eto ddengar iaith
 ELEN, ELEN WIW ! 20

Cryf yw cariad, trech no 'r bedd,
 Er dwr, er tân, er miniawg gledd ;
 Byw o hyd a wna yn ngwedd
 ELEN, ELEN WIW ! 24

GOFYNIAD Y BARDD.

Elen gu lawen ! goleud—siriawl,
 Pen seren yr hollwlad ;
 Deg wryf moes dy gariad,
 A'th law wen, i fardd o'th wlad.

O ELEN fwyn ! O ELEN hardd !
 A wnaï di wrandaw cwyn y Bardd,
 Y sydd yn gofyn gair i ti,
 A wyt ti yn fy ngharu i ? 4

Mae llawer mab, a'i fron yn brudd
 O'th achaws, ELEN ! nos a dydd ;
 Mae un yn gofyn gair i ti,
 A wyt ti yn fy ngharu i ? 8

Clyw ocheneidiau mil a mwy,
 A gwel galonau briw tan glwy' ;
 Clyw fil yn gofyn gair i ti,
 A wyt ti yn fy ngharu i ? 12

ATEB ELEN.

197

Iachâa fy mriw, O ! ELEN fwyn ; 13
 Iachâa fy mriw, O ! clyw fy nghwyn ;
 Iacheir fy mriw pan gwiriech di
 Dy fod ti yn fy ngharu i ? 16

Ni elli, ELEN ! er dy ddawn,
 Iachâu ond un, a hyny 'n iawn,
 Mae un yn gofyn gair i ti,
 A wyt ti yn fy ngharu i ? 20

ATEB ELEN.

O ! taw y Bardd, yn fuan taw,
 Ti godaist yn fy mron i fraw,
 Nid yw fy nghalon ddim yn ddur
 I friwo 'r Mab a garo 'n bur.

Mi welais i, er peri poen,
 Lawer blaidd mewn gwisgad oen,
 A llawer mab, mewn llawer gwlad,
 A'u bron yn llawn o dwyll a brad. 8

Da iawn gan Fardd yw canmawl merch,
 Hoff iawn gan Fardd yw denu serch,
 A gadael merch yw hoffder Bardd,
 I wywo fal blodeuyn gardd. 12

Ond gwna adduned bur i mi,
 Dy fod ti yn fy ngharu i,
 Ti gai fy llaw, a'm calon, clyw,
 I tithau 'n bur tra fyddaf byw. 16

HIRAETH-GAN.

MEDDYLIAF fi am **GYMRU** lon,
 Ei dynion a'i mynyddoedd ;
 Ac ni anghofiaf, nos na dydd,
 Ei threfydd na 'i dyffrynoedd : 4
 Meddyliaf hefyd am y fan,
 Yn ymyl glan yr afon ;
 Lle mae hi 'n byw, anwylaf ferch,
 A ddygodd serch fy nghalon. 8

Er na chaf weled mwy fy ngwlad,
 Na mam, na thad, na chyfaill ;
 Gan mai fy nhynged i a fydd
 I rodiaw gwledydd eraill : 12
 Meddyliaf eto am y fan,
 Yn ymyl glan yr afon ;
 Lle mae hi 'n byw, anwylaf ferch,
 A ddygodd serch fy nghalon. 16

Ni byddaf ddedwydd, yn fy myw,
 Mae 'm bron yn wyw gan hiraeth ;
 Wrth feddwl beunydd am fy ngwlad,
 Hen wlad fy Ngenedigaeth ; 20
 Ac wrth feddwl am y fan
 Yn ymyl glan yr afon ;
 Lle mae hi 'n byw, anwylaf ferch,
 A ddygodd serch fy nghalon. 24

Y FERCH O'R DDOL.

199

Ond os daw byth newidiad rhod,	25
A diwrnod i'm gael rhyddid ;	
Os pell y ffordd, os drwg yr hin,	
Mi rodiaf fin LLYN TEGID ;	28
Ac mi a chwiliaf am y fan,	
Yn ymyl glan yr afon ;	
Lle mae hi 'n byw, anwylaf ferch,	
A ddygodd serch fy nghalon.	32

Y FERCH O'R DDOL.

Pwy welaf ar y llechwedd draw	
Yn rhodiaw 'n araf brudd,	
A llyfryn bychan yn un llaw ;	
Llaw arall ar ei grudd ?	4
A ! dacw 'r mán lle cenais gynt	
Yn iach i ferch o'r Ddol ;	
Pan o fy ngwlad yr eis im' hynt,	
Heb obaith dod yn ol.	8

A'i gwir y gwelaf ar y bryn	
Y fwyn gariadlawn ferch ;	
Yn darllen gwaith ei bardd fâl hyn,	
Er ail-ennynu serch ;	12
Gan sengi lle y sengwn i	
Tro olaf ar y rhiw ;	
Pan oedd fy llygaid oll yn lli,	
A'r galon hon yn friw ?	16

CI DEON BANGOR.

Gerllaw Coedwig Deon Bangor Fawr yn Ngwynedd y mae cerffidolw ci anferth.

YN mhob gwlad ceidwad coedwig
 Gwych, yw ci crych dewrwyd dig ;
 O'i le edrych am ladron : hyd angeu
 Dengys ddannedd gwynion, 4
 Lladroniaid haid ! o'r wlad hon
 Ciliwch ; neu gwae i 'ch calon.

Y GOLOMEN A'R TEITHIWR.

GOLOMEN fwyn ! pa le mae 'th gymmar,
 Gan dy fod mdr drist yn trydar ?

Y GOLOMEN.

RHYW heliwr creulawn, marwol ergyd,
 Ai ddryll a laddodd fy anwylyd. 4

Y TEITHIWR.

PAHAM na ffoi di i'r gweirgloddiau,
 Rhag dygwydd iddo 'th saethu dithau ?

Y GOLOMEN.

NI allaf ffoi, hawdd ydyw peri
 Mae fy nghalon drom ar ddri. 8

Y SABBATH.

CYFIEITHAD.

A GADWO 'r Sabbath dedwydd yw,
 Caiff wythnos wrth ei fodd i fyw;
 Aiff tranoeth at ei waith yn llon,
 Heb feddwl prudd i flino 'i fron. 4

Ond camdefnyddiaw Sabbath Duw
 Rhagflaenawr o ryw ddrygfyd yw;
 Er cymmaint fydd yr elw 'n awr
 Ymaith yr aiff fal gw lith y wawr. 8

Y GWIR.

PE pallai natur, pe gwisgid haul mewn du
 Y ser un wedd, a'r holl blanedau lu;
 Y GWIR a safai 'n ffyrf mewn harddwch noeth,
 Yn burdeb oll, mál aur puredig coeth. 4
 Tros byth y saif yr un, yn ddigynnewid un,
 Y GWIR bydd gyfaill im', drych wyt o Dduw ei Hun.

IDD (YN AWR BARCH.) DANIEL SILVAN EVANS,

(*Daniel Las*,) ar ei fynediad i Goleg Dewi Sant.

LLONA byth o'th fodd yn LLANBEDR : as gen
 Ni chei; dysg yn hyfodr,
 Ac am dy ddysg, a'th gymmedr,
 Mawl DDUW, nid PAWL, ac nid PEDR; 4

A LLEWYLYN,¹ llew olwg,
 A'i drem a'th gadwo rhag drwg.
 Bydd isel, gochel bob gwŷd,
 Boddia Dduw, a bydd ddiwyd. 8

YR AWEN DRIST.

DYWED imi, fwynaf Awen,
 Ar hyd y nos,
 Beth yw 'r achos nad wyt lawen?
 Ar hyd y nos, 4
 Dyma 'r achos, anwyf Ioan,
 O fy ngalar, a fy nghwynfan,
 Aeth dy galon fach i rywfan
 Ar hyd y nos. 8

Dywed imi, Awen fwynlan,
 Ar hyd y nos.
 Beth yw 'th feddwl di am rywfan,
 Ar hyd y nos, 12
 Monwes gynhes merch o GYMRU
 Yw y rhywfan, ni wiw gwadu,
 Lle mae 'th galon fach yn nythu
 Ar hyd y nos. 16

¹ Y Dr. Llewelyn, Deon Tŷ Dewi, a Phrif Athraw Coleg Dewi Sant.

CARN INGLI A THEGID.

CARN INGLI,¹ a THEGID, pumthegfed o Dachwedd,
 A fynent gyfarfod â'u gilydd un waith ;
 Cychwynodd CARN INGLI yn fore o gartref,
 Marchogodd ei farch gan ddechreu ei daith ; 4

LLYN TEGID gwnai yntau y cwmwl yn gerbyd,
 Ac ymaith yn fuan yr âi ar y gair ;
 Am bump o'r prydawn, fe glywid dywedyd,
 Mae'r ddau yn ciniawa draw yn LLWYN GWAIR. 8

PENNILLION I ANERCH YR ARGWYDDDES HALL,
 (Gwenynen Gwent.)

CANWN oll yn hollawl lawen,
 Ar hyd y nos,
 Ac yn gynhes i GWENYNEN ;
 Ar hyd y nos, 4
 Haedda gân gan Gymreigyddion,
 Gyda bloedd o eigion calon ;
 A sain telynau 'r telynorion :
 Ar hyd y nos. 8

GWENYNEN GWENT yw 'r testun ini,
 Ar hyd y nos,
 Pwy na chana gerddi iddi,
 Ar hyd y nos ? 12
 Moeswch, Feirdd ! eich mel-ganiadau
 A'r telynwyr eich telynau ;

¹ Sef y Parch. J. Hughes, yr hwn a gymmerodd ei enw barddonawl oddi wrth y mynydd Carningli y sydd yn gyfagos i Llwyngwair, lle y dygwyddodd efe a'r Awdur giniawa Tachwedd 15, 1844.

Y BRAWD CAREDIG.

A'r datgeiniaid ! unwch chwithau 15
Ar hyd y nos.

Eto ganiad i'n GWENYNEN,
Ar hyd y nos,
Gyda gwëad egni Awen ;
Ar hyd y nos, 20
Hi yw mamaeth iaith ein tadau ;—
Teilwng gwaeddi o'n calonau,
GWENYNEN GWENT, a'r Eisteddfodau !
Ar hyd y nos. 24

Y BRAWD CAREDIG.

PAN oeddwn mewn blinder heb gyfaill gerllaw,
A phobpeth yn gwgu o'm deutu ;
Y byd ydoedd dywyll, màl cwmwl llawn gwlaw,
A phobpeth yn bygwth fy nrygu ; 4
Ceis llythyr o bell o'r INDIA ei hynt,
A'm gofid oddiwrthyf a giliai ;
Yn blÿg yn y llythyr derbyniwn gan' punt,
A'mcalon o'm mewn a lesmeiriai. 8

Fy mrawd a'u danfonodd o'r INDIA bell draw,
Pan oeddwn yn nghanol fy nhlodi ;
Yn awr y mae pob un am siglo fy llaw,
A minnau yn pallu ei rhoddi. 12
Mi gofïaf fy mrawd a'r hen amser gynt,
A'r dydd pan âg ef ymadewais ;
A chofïaf y llythyr yn cynnwys can' punt,
A'r dydd pan yr arian a rifais. 16

CYFIEITHAD.

OES neb yn meddu ar allu, dawn neu serch,
 I wneuthur rheol ar ewyllys merch ?
 Os dywed *gunaf*, hi *wneiff*, diogel yw ;
 Os dywed *na*, ni *wneiff* er un dyn byw.

CYFIEITHAD.

PE bawn mdr dal a'r nefoedd draw,
 A gallael cuddiaw 'r môr â'm llaw :
 Fy nhaldra yw 'r enaid mau ei hun,
 Nid wrth ei gorff mae mesur dyn.

BORE MIS EBRILL.

ADERYN bach a gân yn fwyn,
 A pheraidd iawn o ganol llwyn ;
 Ond genyf fi nid oes llais cân,
 Ond cryg ysgrêch fâl cre y frân. 4

Aderyn bach yn llawen iawn
 A gan o'r bore glas hyd nawn ;
 Ond genyf fi nid oes llais cân,
 Ond cryg ysgrêch fâl cre y frân. 8

Mae yr aderyn bach yn llon,
 Heb wae na galar dan ei fron ;
 Am hyny cân ei gân mdr fwyn,
 Mdr llon a llawen yn y llwyn. 12

Ond pe 'm calon fyddai yn iach, 13
 Fâl calon yr aderyn bach ;
 Ymdrechwn ganu 'r fynyd hon,
 Mâl yr aderyn calon lon. 16

O'r holl adar sydd yn byw,
 O'r ehedydd at y dryw ;
 O'r gigfran groch hyd at y frân,
 Ni chlywaf un heb ganu ei gân. 20

Mae cân gan adar o bob rhyw,
 O'r ehedydd at y dryw ;
 O'r gigfran groch hyd at y frân,
 Ond genyf fi nid oes un gan. 24

CAN O DDIOLCHGARWCH

I'r diweddar George Bowen, Ysw., Liwyngwair, pan yr anrhegodd y Bardd â
 Threwlwech.

RHODD i'm dwylaw i a ddaeth,
 Sef, rhodd a'm gwnaeth yn holliach ;
 Rhodd oedd hi mewn gwisg o blwm,
 Ond odid plwm LLANFYRNACH.¹ 4
 Ond beth bynag am y plwm,
 Yr oedd yn drwm o drewlwech ;
 Am hyn o rodd, Pa beth a wnaif ?
 Dangosaf ddiolchgarweh. 8

Gwel tu dal. 218.

CAN DROS UN MEWN CARIAD, &c.

207

Mae yr Awen wrth ei bodd, 9
 Am gaffael rhodd mdr haelwych ;
 Oblegid dod i'r bardd o'i wae,
 Dywedyd mae yn fynych ;— 12
 “ Yr ydoedd BOWEN yn wr mwyn
 I gofiaw trwyn y prydydd ;
 Ac am ei waith, yn ngwydd y wlad
 Gwnaf iddo ganiad beunydd.” 16

CAN DROS UN MEWN CARIAD.

MAE 'n nghalon i yn glaf a gwân,
 O hiraeth mawr am MARY ANN ;—
 Nis gallaf fi ond wylaw 'n chwerw,
 A hithau draw yn Llwyn y Bedw. 4

Ni welais i mewn tref na LLAN,
 Un ferch mdr deg a MARY ANN,
 O'i chariad hi 'r wyf bron a marw,
 A hithau draw yn Llwyn y Bedw. 8

Mae hi yn wir yn un mdr hardd,
 Uwch law darluniad awen bardd ;
 Gwyn fyd y dydd, pan welaf hwnw,
 Y daw hi 'n ol o Lwyn y Bedw. 12

Y GWLADGARWR A'R MILWR.

CAIFF y dyn gwladgar ei glod yn mhob gwlad,
 Ac aml i ganiad i'w foli ;
 Lle bynag bo milwr, dyn gwrawl mewn câd,
 Caiff hwnw yn wastad ei enwi. 4

Tra 'r byd, OWAIN MYFYR ! a Chymro i'w gael, 5
 D 'enw fydd diwael ar dir ac ar ddwr :
 Tra rhed afon Dyfrdwy, gwirionedd hyn yw,
 Dy enw fydd byw, OWAIN GLYNDWR. 8

MARY BOWEN.

BYWYD hir i MARY BOWEN,
 Bywyd difyr, bywyd llawen ;
 Bydded iddi gaffael hefyd
 Llawnder byd, a gras, ac iechyd. 4

Bydded iddi gaffael dyddiau
 Wrth ei bodd, yn llawn mwynderau ;
 A bydded iddi gael priodi
 Gyda gwr yn llawn daioni. 8

Boed duwioldeb iddi 'n harddwch,
 A gwneuthur da ei mawr hyfrydwch ;
 Boed iddi fendith y tylodion,
 A chael ei pharchu gan y mawrion. 12

ATEB MARY BOWEN.

TEGID, Athraw 'r Celfyddydau,
 Doeth a helaeth yw dy ddoniau ;
 Boed it' lwyddiant a bendithion
 Yn dy waith yn dysgu dynion. 4

AR FARWOLAETH MAM LEWIS WILLIAMS, YSW. 209

Rhwyd bysgotta gwna ei thaenu, 5
Pysgod mawrion ddelo iddi ;
Megys PEDER yr Apostol,
Traetha 'r gwir yn gall, yn wrol. 8

Llawn o saethau boed dy gawell,
Gloywon, llymion, O fy Nghyfaill !
Rhai 'n a deimler gan laweroedd
Trwy arddeliad cryf y nefoedd. 12

AR FARWOLAETH MAM LEWIS WILLIAMS, YSW.

{ Bron Wnion, Dolgellau.

Nid hir, yn wir, yw dyddiau dyn i fyw,
Yr amser hwyaf, mál mynydyn yw ;
O herwydd hyn, fy nghyfaill, gwed paham
Y byddi fwy na mwy mewn galar am dy fam ? 4

Mewn oedran teg y rhoed hi yn ei harch,
Tan amdo gwŷn, heb neb yn fwy ei pharch ;
Nid marw a wnaeth, ond huno 'n Iesu GRIST,
Hi ddeffry eto, cred ; Pa ham y byddi drist ? 8

Dy fam, os gwelaist yn ngwaelodion bedd,
Ti, a'i gweli eto 'n nhrigfanau hedd ;
Ei hysbryd hi a hedodd fry at Dduw
A'i marwawl gorff o'r bedd, a gyfyd eto 'n fyw. 12

DYHUDDIANT W. B. GWYN, YSW., PILRHOTH,

Yn Mhlwyf Llanguin, ger Caerfyrddin, ar ol marwolaeth ei wraig.

Ti, gollaist, Gwyn ! y golled fwyaf mawr
 A ellit golli ar wyneb daiar lawr ;
 Ti gollaist wraig rinweddawl, mam dy blant,
 Un oedd o fil, ni dd 'wedaf un o gant. 4
 E ellir canu hyn goruwch ei bedd,
 Lle cwsg ei chorff yn dawel, ac mewn hedd :
 " Duwioldeb oedd ei harddwch, ac ei rhan,
 Un dduwiawl gartref, duwiawl yn mhob man, 8
 Hi hoffai son am waith Calfaria fryn,
 Mae 'r gwr a'r plant, yn dystion byw o hyn.
 Mâl gwraig, fâl mam, oedd dyner iawn a mwyn ;
 A'r tlawd, a'r gwan, gai ganddi wrandaw 'i gwyn.¹²
 Un ddiwyd oedd, gwybodus o bob gwaith ;
 Pan segur oedd, nid segur ydoedd chwaith."

Ti gefaist golled, Gwyn ? ond na fydd drist,
 Nid marw a wnaeth, ond hunaw 'n Iesu Grist. 16

GEIRLYFR

Y Parchedig Morris Williams, M.A. Amlwch.

Llyfr yw, ac ôl llafurwaith,
 Llyfr i'n hoes, lleufer ein hiaith ;
 Llyfr ac ynddo bob llafuriaeth sy hen,
 Un swm a'n tafodiaith. 4

I A N N.

“Ni chaif Tegid fy ngweld i yn fy millad bryntion” ebai ANÚ, ac ymaith á hi.

A ái di ymaith, ferch fwyn lân,
Cyn i TEGID, wneuthur cân ;
Os brwnt dy ddillad, gwael eu llun,
Nid felly ANN wyt ti dy hun. 4

ABERGWEYN,¹ NEU SIOMEDIGAETH UN MEWN
CARIAD.

ABERGWEYN meddyliais unwaith,
ABERGWEYN, meddyliais eilwaith,
Oedd o drefydd CYMRU 'n harddaf,
Ac i'm meddwl yr anwylaf. 4

Yno 'r oedd y ferch a garwn,
Yn ei chymdeithas hi ymhoffwn ;
Byddai 'm llygaid yn sirioli
Wrth feddwl am y dydd priodi. 8

Ond fe 'm siomwyd, mawr fy siomiad,
Myfi 'n wr ni fynai 'm cariad,
Yn chwerw troes ei geiriau melus,
A'i golwg serchawg yn anserchus. 12

Gwedi hyn ar ben yr heol,
Edrychwn arni a gwyneb siriol, -
Gan obeithio y cawswn innau
Olwg siriol ganddi hithau. 16

¹ Abergweyn, *vulgo* Abergwaun, neu Abergwaen, sef Fishguard,
yn sir Penfro.

Yn lle hyn, cyn pen mynydyn 17
 Ei golwg hi oedd golwg gelyn ;
 Ni fynnai hi im' edrych arni,
 Rhagor tōri gair mwyn wrthi. 20

ABERGWEYN a garwn gynnau,
 Tref y carwn ei heolau,
 Sydd yn awr yn gwgu arnaf,
 Yn nōd y ceryg m̄an y cerddaf. 24

Ni welaf mwyach harddwch arni,
 Ni chaf mwyach fwyniant ynndi ;
 A hyn oblegid nad ennillais
 Serch a chariad merch a gerais. 28

GLAN Y CAFN.¹

Mi ganaf fi, cyn profi dafn,
 Am LAN Y CAFN heno ;
 Er mwyn im' gofiaw 'n ngwlad y Sais
 Y groesaw gefais yno. 4
 Er teithiaw llawer tref a Llan,
 A gweled dyddan ddyinion ;
 GLAN Y CAFN, lle bach hardd,
 A gar y Bardd o'i galon. 8

Mi ganaf eto, 'n ol cael dafn,
 Am LAN Y CAFN ganiad ;
 Lle cefais groesaw ddyddiau hir,
 A phrofi cywir gariad : 12

¹ Glan y Cafn, swydd Fynwy, lle cafodd y Bardd groesaw a charedig-
 rwydd mawr dros ben, ag ef yn afiach yn Eisteddfod y Fenni, 1840.

GWAITH PLWM LLANFYRNACH.

213

Yno cefais, fore a nawn, 18
 Y bwrdd yn llawn danteithion,
 Ac yno hefyd wely clyd,
 Ac iechyd o'm clefydon. 16

I DANIEL DAVIS bid pob llwydd
 I LYDIA rwydd ei chalon ;
 Ac i MARG'ET bach eu merch,
 Eu hunferch a'u gofalon. 20
 Bydded iddynt gael o hyd
 Dedwydd-fyd yn eu cartre',
 Un twtiach tŷ, neu lanach gardd,
 Ni welodd bardd yn unlle. 24

GWAITH PLWM LLANFYRNACH.¹

Bu mŵn LLANFYRNACH amser hir,
 Yn gudd yn nhir y ddaiar ;
 Ond nis bydd felly ddim yn hwy,
 Mae 'r byd yn fwy deallgar. 4
 Yr elfen ddwr fu 'n rhwystr tŷn,
 Er 's llawer blwyddyn bellach ;

¹ Yn *Llanfyrnach* y mae hen waith plwm ; ond oblegid y dwfr yn boddï y gwaith, ni chaed erioed nemawr, os dim, elw oddiwrtho. Rhai blynyddoedd yn ol, cafwyd yn y pwll ddau ddernyn bathawl yr hen Roegiaid ; ac y mae yn draddodiad fod y Rhufeiniaid wedi bod yn gweithiau y plwm hwn. Dydd Llun y Sulgwyn, Mai 27ain, 1844, rhoddwyd ciniaw i'r dwylaw oll, gan y diweddar Oliver Loyd, Ysw. o Aberteifi, yr hwn wedi iddo gymmeryd y gwaith mewn llaw, a lwyddodd, trwy wneuthur peiriant cyfaddas, i ddyspyddu y dwfr, ac ar yr achlysur hwnw, y cyfansoddwyd, yn ddifryder, set yw hyny, yn ddifyfyr, y pennillion uchod.

OLIVER LOYD a wrhaeth ei ran 7
I'w ytu o LLANFYRNACH.

Llwyddiant byth i'r mwynau plwm,
Yn bennaf plwm LLANFYRNACH ;
OLIVER LOYD boed ef yn llon,
A thrwyddo 'n gyfoethocach. 12
Mawr yw y son am fŵn swydd FLINT,
Gwerth llawer punt yr wythnos :
Mae mwn LLANFYRNACH llawer gwell,
Medd pawb yn bell ac agos. 16

Ond i'r holl weithwyr yn gyttun,
Pob un i weithiau 'n gywir ;
O LLANFYRNACH, pob rhyw awr,
Am gyfoeth mawr e glywir. 20
Wrth weithiau 'n ddiwyd ac yn llon,
Mâl dynion gyda 'u gilydd ;
Ceir clywed beunydd, o ben i ben,
“ Gwél, fachgen, wyth'en newydd ! ” 24

Bydd son bellach, yn mhob rhyw iaith,
Gan bawb am waith LLANFYRNACH ;
“ Gwelwch fŵn OLIVER LOYD,
Ni chaed erioed mo 'i burach ; 28
Rhaid ini anfon am y plwm,
Mae 'n llawn, mae 'n drwm o arian.”
Hyn fydd siarad pob tref a gwlad
A'r farchnad, ac yn mhobman. 32

THOMAS MARSDEN¹ a haedda glod,
 A byw a bod mewn hawddfyd ;
 Mae wrth y gwaith yn fawr ei gur,
 Heb fod yn segur fynyd. 36
 Mawr oedd clod hen FYRNACH Sant,²
 A chlod ei blant drwy 'r gwledydd :
 Dy glod LLANFYRNACH ! byth fo mwy,
 Trwy 'r plwm,—a thrwy dy grefydd. 40

DANIEL DDU.³

Briw yw fy mron gan frath a chur,
 Uwchlaw brathiadau 'r llymaf ddur ;
 Wrth glywed fod y Bardd yn glaf :
 Os marw a wneiff, pa beth a wnaif ? 4

Trom yw fy nghalon, hyn a wn,
 O glywed heddyw 'r newydd hwn :
 “ Och ! DANIEL DDU, *dy frawd, sydd glaf,*”
 Os marw a wneiff, pa beth a wnaif ? 8

Gwan yw ei gorff gan boen dihedd,
 Nychu y mae gan newid gwedd ;

¹ Golygwr y gwaith.

² *Sant Byrnach*, yn hytrach *Brynach* : gwel *Rees' Welsh Saints*. Y mae llawer eglwys wedi ei chyflwynaw i Sant Brynach ; ac yn mhlith ereill eglwys Nevern. *Nanhysfer* oedd yr enw : gwel Farwnad Trahaearn a Meilyr yn y *Myvyrian Archaeology*, cyf. i. tu dal. 192. Yn y plwyf hwn y mae Llun croes mewn craig, ac hefyd ffynon a phistyll, a elwir wrth yr enw Byrnach ; megys, *Croes Byrnach, Ffynon a Phistyll Byrnach*.

³ Ysgrifenydd y llinellau uchod yn ol darllen llythyr a derbyniwyd Rhagfyr 16, 1888, o Lanbedr, yn cynnwys y geiriau athrist “ Daniel Ddu is dangerously ill, and reduced to a skeleton.”

O DANIEL DDU ! fy mrawd yn glaf ! 11
Os marw a wneiff, pa beth a wnaef ?

Yr Awen fwyn, och'neidiai hon
Oddiar ei gorsedd yn ei fron ;
Cydgwyna â mi ei fod yn glaf ;
Os marw a wneiff, pa beth a wnaef ? 16

O GEREDIGION ! pwy a chwârdd
Yn ol y newydd am dy fardd ?
Dy DDANIEL DDU ! mae hwnw 'n glaf :
Os marw a wneiff pa beth a wnaef ? 20

Ein Duw ! estyna di ei oes,
Bydd iddo 'n feddyg dan ei loes ;
Iachâa y Bardd sy heddyw 'n glaf :
Os marw a wneiff, pa beth a wnaef ? 24

MYFYRDAWD PLENTYN.

CYFIEITHAD.

MAE 'r diwrnod prysur bron a darfod,
Ar nos dywell sydd yn dyfod ;
Gweddiâf Dduw im' diogelu
Tra bwyf yn y gwely 'n cysgu. 4

Mi wn na fum môr. dda, môr ddiwyd,
Ag y dylaswn fod bob mynyd ;
Bum rhy ddysmal, ac yn rhy lawen,
Hyn beth nid yw yn gweddu ar fachgen. 8

Os gwelaf, ARGLWYDD, ddiwrnod arall, 9
 Na byddwyf byw mdr ddrwg, mdr anghall ;
 Yr Hwn am adar a ofali,
 Ar weddi plentyn a wrandewi. 12

CLYCHAU YR EGLWYS.

EFELYOHIAD.

CLYWCH, O clywch o NEVERN draw,
 Mor fwyn yw clychau 'r Eglwys,
 Mor felus ar y ddol gerllaw
 Yw gwrandaw clych Paradwys. 4
 Clywch, O clywch, mwyn yw eu llais
 Yn galw i addoli,
 Awn ninnau oll i dŷ ein Duw,
 Da ydyw mawl a gweddi. 8

CARIAD DUW.¹

Duw cariad yw.—1 IOAN, iv. 16.

PE bai 'r moroedd, a'r afonydd,
 A'r ffynonydd o bob rhyw ;

¹ "The following lines are said to have been written by a person commonly esteemed an *absolute idiot*. A ray from the sanctuary revealing the mercies of redemption, as well as of creation, must surely have gleamed across his darkness. :—

' Could we with ink the ocean fill,
 Were the whole earth of parchment made,
 Were every single stick a quill,
 And every man a scribe by trade :
 To write the love of GOD above,
 Would drain the ocean dry.
 Nor could the scroll contain the whole
 Though stretch'd from sky to sky.'

Essay on the habitual exercise of Love to God, by J. J. Gurney,"
 Note, page 31.

"A happiness that often madness hits on which reason and sanity
 could not so prosperously be delivered of." ANON.

Gyda'r llynoedd, gwlaw a gwlihoedd,	3
Oll yn inc o dduaf lliw ;	
Pe bai llyfr maint y ddaiar,	
Llawn dalenau gwynion mawr ;	
Pe bai pinau ysgrifenu	
O rifedi gwellt y llawr ;	8
Pe bai pawb o feibion ADDA	
A fu ar y ddaiar las,	
Yn 'sgrifenu ynddo 'n fedrus	12
Am faint cariad Duw a'i ras ;	
Pe cäent oll mewn llawn tawelwch	
Oes METHUSELAH i fyw ;	
Pe pob moment llenwid dalen	
Ganddynt bawb am gariad Duw :	16
Blinai 'r llaw ! darfyddai 'r pinau !	
Y dalenau äent yn friw ;	
'Spyddai 'r inc cÿn gellid olrhain	
Anfeidroldeb Cariad Duw.	20
Dros holl oesoedd tragwyddoldeb,	
Nis gall holl Angelion Nef,	
Mwy no dyn, er maint eu doniau	
Gael pen draw i'w gariad Efr.	24

Y FERCH DLAWD DDUWIAWL, A'R DI-DDUW
VOLTAIRE.

BRAS GYFIEITHAD.

Yon Cottager, who weaves at her own door,
Pillow and bobbins all her little store,
Content tho' mean, and cheerful if not gay,
Shuffling her threads about the livelong day,
Just earns a scanty pittance. * * *

COWPER.

Y FERCH sy dlawd, mewn bwthyn tlawd yn byw,
Ac eto yn ofni, ac yn caru Duw ;
Yn gwëu bob dydd eirionwe,¹ oriau maith,
Clustog a phlethwëyll, ei thaclau at ei gwaith, 4
Yn foddllawn er yn dlawd ; a'i thŷ yn wag a noeth,
Yn trin ei hedau, gan wëu yn gywrain ddoeth,
Ei hennill, bychan yw, er hyny 'n hwyr brydnawn,
Pan el i'w gwely, hi gwsg yn esmwyth iawn, 8
Heb ofni lleidr i dðri i mewn i'w thŷ,
A chariaw ymaith drysorau gwerthfawr cû.
Mae ganddi hi 'n ol ei sefyllfa wael,
Wybodaeth ddigon, a chalon wresawg hael. 12
Nid llawer iawn a wŷyr, ond gŷyr hi hyn,
Mai gorphwys mae ar LAWN Calfaria fryn
Am gael maddeuant rhad, a gwisg i'w henaid noeth,
Hyn beth ni wŷyr VOLTAIRE, yr Atheist poeth. 16
Ei thrysawr hi, i'w lloni ar ei thaith,
Yw BIBL DUW, a'i addewidion maith,
Dedwydded yw ! er gwaeled yw ei gwisg,
VOLTAIRE ! truaned yw er cymmaint yw ei ddysg. 20

¹ Eirionwe, a eilw y Sais yn *Lace*, sef Godreuwe, a ddefnyddia merched ar odrau addurn i'w capiau, ac i ereill wisgoedd.

Canmolir ef, efallai 'n hir dros oesoedd maith, 21
 Pan yn ei fedd, a hyny am ei waith ;
 Pan na fydd neb yn cofiaw am y ferch,
 Na 'i bwthyn tlawd, a roes ar IESU ei serch. 24
 Mil dedwyddach hi, pan roir ei chorff mewn arch,
 Noc ef, Anffyddiwr, er maint ei glod a'i barch.

PLANT.

Yr adar o'r unlliw a hedant i'r unlle.—DIAR.

PLANT fyddant eto byth yn blant,
 Pe byddai gant o honynt ;
 Ac i ddywedyd air o wir,
 Nid hawdd y dofir mo 'nynt. 4
 Gwelodd plentyn res o blant
 Yn y pant, yn chwarau ;
 Ac at y plant yn fawr ei chwant,
 I'r pant y rhedodd yntau. 8

Y GOLWG CYNTAF.

Yr olwg gynta 'r welais
 Hyfrydaist, gwynfydaist f'ais.
 CIWYDD Y DRINDOD.

PAN gyntaf y 'th welais, yn uniawn ti gipiaist
 Fy nghalon o'm monwes i'th fonwes dy hun ;
 Adfera hi 'n ol, neu rho 'th galon am dani,
 Mae dwy it' yn ormod, a minnau heb un, 4
 Fy nghalon yn ol i mi oni roddi,
 Neu 'th galon am dani ; neu 'th serch am fy serch,
 Marw a fyddaf yn llencyn digalon,
 O herwydd creulonder lladrones o ferch. 8

MAB FFYNON DRUDION, GER LLANWNTA,
DYFED.

YN iach, fy Nhad a'm Mam anwylaf,
Mae fy llong yn gweiddi am danaf ;
Yn iach, fy Mrodyr a'm Chwiorydd,
Byddaf ar y cefn-for dreneydd. 4

MORWR wyf yn morio i'r INDIA,
I blith yr Indiaid i farchnata ;
Os pell yw 'r ffordd, trwy ferwawg eigion,
Mordaith yw wrth fodd fy nghalon. 8

Pan eis o'r blaen, Duw oedd fy noddwr,
Mae Duw yn caru noddi morwr ;
Ac fel o'r blaen, a Duw yn geidwad,
Dychwelaf eto yn ol i'm henwlad. 12

Mynych iawn ar frig y wendon,
Daw i'm meddwl FFYNON DRUDION :
Ac yn fy nghwsg, ar gefn y weilgi,
Rhodio 'r wyf ar hyd y perci. 16

Digon ydyw hyn o'm hanes,
Ar y cefnfor mae fy neges ;
Yn iach, yn iach, Paham yr oedaf ?
Mae 'r llong a'r llanw 'n galw am danaf. 20

I. U. Y.¹

GWNEWCH i mi glust-bib o FEIDRUM hyd NEVERN,
 A swniaf yr *u* nes ei chlywed yn uffern ;
 Rhwng *i*, a rhwng *o*, bu i *u* gael ei geni,
 Yn swniad yr *i* daw i'ch cof eich rhieni. 4
 Rhwng *i* a rhwng *o*, medd Ficar Llanrhian,
 Chwi ellwch gael allan swn *u* yn lled fuan ;
 A pharodd im' hefyd ddywedyd hyn i chwi,
 Fod *y*, a bod *i*, a'u seiniau yn *sundry*. 8

PENNILL

A gyfansoddwyd wrth edrych ar dri ardeub o blant y diweddar Sir J. J. Guest,
 Bart. M. F. a'r Arglwyddes Charlotte E. Guest.

DEDWYDD EM yw diniweidrwydd,
 Gwyn eu byd a'u meddant hi !
 Ei llun a dynwyd yn gyfarwydd,
 A chywir iawn yn ngwedd y tri. 4
 Yno bydded yn wir drefnus,
 Yn EM loyw-hardd o hyd ;
 A MARIA, IVOR, GWLADUS,
 Fyddant ddedwydd. Gwyn eu byd ! 8

FY NGHARIAD.

GWELAIS gynnau ar wâr y dyffryn
 Un yn chwareu ar ei thelyn ;

¹ Ysgrifonodd Cyfaill o blwyf Meidrum, lythyr at yr Awdur, i ofyn iddo pa wahaniaeth swn neu sain, oedd rhwng I, U, Y, gan erchi cael atebiad i'w ofyniad mewn llythyr. Dywedai bod dadlu mawr gwedi bod rhyngddo ef a chyfaill ynghylch iawn seiniaid y llythyrenau uchod. Ond yn gymmairt ag y gwyr pawb na ellir anfon seiniaid unrhyw llythyren mewn llythyr, nac un math o swm, neu sain, arall mewn llythyr, rhoddwyd yr atebiad uchod i'r gofyniad.

Un rinweddawl a serchiadus, 3
 Un fedrusaidd a gwybodus ;
 Un heb gilwg, dyner galon,
 A'i chlod yn fawr gan ei chym'dogion ;
 Yn gwneyd pob lle yn ail i'r Ne',
 Ei chartre yn enwedig : 8
 Dyna 'r ferch a aeth a'm serch,
 Un lawn swyn traserch ferch foneddig !

CYMDEITHAS CYWEIRDEB ABERBANC.

Boed i gymdeithas ABERBANC
 Gael parch pob merch, a pharch pob llanc :
 A'i chyfreithiau yn cael mawrhäad
 Gan bob teulu trwy ein gwlad. 4

Cymdeithas sydd yn ABERBANC
 Er mawr lles merch, a mawr lles llanc ;
 Wrth ei chyfreithiau, os gwnant fyw,
 Cânt glod gan ddyn, a pharch gan Dduw. 8

Mae anniweirdeb yn mhob gwlad
 Yn warth i'r fam, yn warth i'r tad ;
 A'r plentyn gordderch bychan gwan,
 Os byw a fydd, gwarth fydd ei ran. 12

Tra fyddo byw, (can's gŵyr paham,)
 Ni all gwir garu ei dad na 'i fam ;
 Pan enwir hwynt, yn lle mawrhäad,
 Ammharch a'rydd i'w fam a'i dad. 16

Plant glân Briodas parch a gânt, 17
 Os parchu eu hunain hwy a wnant ;
 Anrhydedd ydynt hwy i'w gwlad,
 A chysur mawr i'w mam a'u tad. 20

Merched CYMRU, a thithau 'r llanc,
 Parchwch gymdeithas ABERBANC :
 Er mwyn eich hun, eich gwlad, a'ch Duw,
 Mewn anniweirdeb na wnewch fyw. 24

TREGWYNT.

YN ABERMAWR mae 'r môr mewn dig
 Yn lluchiau ceryg beunydd ;
 Ac yn eu chwydu hwynt o'i fol
 Yn llwythi ar ol eu gilydd. 4
 Mae yn gormesu ar y tir,
 Ac os gadewir iddo,
 Yn mhen can' mlynedd, neu yn gynt,
 Fe lwnc TREGWYNT i'w ginio.

CYMMERADWYAETH NODWEDDIAD.

GWELL cael tystiolaeth un gerllaw,
 No chael tystiolaeth gwr o bell ;
 Hyn yw fy meddwl i, a'm barn,
 Am hyny cais yr un sydd well. 4
 Os ceir yn wir dystiolaeth dda,
 O'r lle mae 'r dyn ei hun yn byw,
 No chael tystiolaeth un o bell,
 Mil gwell, a mwy boddhâawl yw. 8

YR YWEN.

O YWEN werdd ! a blenais i fy hun
 Ger afon Isis, yn fy monwent wleb ;¹
 Lle gwelir ar ol llifeiriant cryf
 Y dwr yn toi y beddau. Owyd dy frig 4
 Idd y wybren frŷ ; tafll dy gysgawd gwŷll
 Gan noddi beddau, hyd nes del yr awr
 Y clywir llef archangel Duw â llais
 Udgor nef, goruwch holl feddau y byd, 8
 Yn galw i farn. Pren ydwyd ti
 Yn haeddu parch yn mysg holl brenau y maes ;
 Na thorer di i lawr gan law neb gwr,
 Ond byth chwareuant dy gangenau tirf 12
 Yn y tymhestlawg wynt ; ac arno gwên.

Na wywed byth dy ddail ; ond byddant fâl
 Yn awr yn iraidd byth. Yr ydwyd ti
 Yn mhlith y meirw yn dy wyrddlesni teg 16
 Yn arwydd anfarwoldeb. Arnat ti
 Pan syllo dyn wrth araf rodiaw rhwng
 Y beddau oll pâr iddo gofiaw ei
 Gartref wlad ; lle tyf pren y bywyd wrth 20
 Ffrwd o ddyfroedd dysglaer yn Ngwynfa Duw
 Mâl dywed y DADGUDDIAD. * *

¹ Sef monwent St. Thomas, Rhydychain.

MARTHA OWEN.

Gair o ddiolch am bŵr o fenyg.

MARTHA OWEN, fwyn a pharchus,
Eto MARTHA wir drafferthus ;
Mae fy nghalon byth yn llawen
Pan glywaf sôn am MARTHA OWEN. 4

MARTHA OWEN, pan y'th welais,
A ni yn blant, myfi a'th gerais
Pan yr oeddit, anwyl MARTHA,
Yn yr ysgol yn y BALA. 8

Rhaid anghofio pob gwrthwyneb,
Rhaid anghofio cripio 'r gwyneb ;
Cripio 'r gwyneb a wnai bachgen,
Pan yn mreichiau MARTHA OWEN. 12

Rhaid anghofio 'r dagrau heilltion
A redent dros dy fochau cochion :
Pan oedd JOHN, yn llawn cynddaredd,
Yn cripio 'th wyneb â'i ewinedd. 1
6

Tyner iawn oedd oedran MARTHA
Pan yn ysgol tref y BALA ;
A thyner iawn fy oedran innau,
Pan y'm cipiet rhwng dy freichiau. 20

Er dy ddigio mwy noc unwaith, 21
 Trwy fy mod yn fachgen diffaith,
 It' gofynaf, MARTHA fwyngu,
 Onid oeddit yn fy ngharu ? 24

Ceraist fi a'th gariad cyntaf,
 Do, a'th gariad pur boreuaf.
 Y mae 'r cariad hwnw 'n para
 Yn dy fonwes eto, MARTHA. 28

Gyraist imi, o dy gariad,
 Bâr o fenyg o'th wneuthuriad,
 Minnau 'n wir a'u gwisgaf beunydd
 Nes cael genyt fenyg newydd. 32

BEDD-ARGRAFFIADAU.

BEDD-ARGRAFF DANIEL DDU,

Yn Monwent Pencareg, ger Llanbedr Pont Stephan.

DONIAWL oedd ef, ein DANIEL DDU ; heb ryfyg
Un o Brif-feirdd CYMRU :
Yn y bedd mae 'r Bardd a fu,
Yn y llwch yma 'n llechu. 4

BEDD-ARGRAFF Y DR. RICHARD DAVIES,

Esgob Tŷ Dewi.¹

ESGOB oedd EF o ddysg bur, a Duwiol
A diwyd mewn llafur ;
Gwelir byth, tra 'r YSGRYTHYR,
Ol gwiw o'i ofal a'i gur. 4

BEDD-ARGRAFF TELYNAWR DUWIOLO O LANOFOR.

MOR ddedwydd y byddai wrth chware ei delyn ;
Ei ofid a'i alar a fföent yn llwyr ;
Mae telyn mewn teulu yn hyfryd offeryn,
Llawenydd a chysur a rydd fore a hwyr. 4

¹ Bu farw y Dr. Richard Davies, yn y flwyddyn 1581, ac a gladdwyd yn Eglwys Abergwili. Yn y flwyddyn 1849 gosodwyd ar fur y ganghell, uwch ben ei fedd, Gwyddfaen hardd a drudfawr er coffadwriaeth parchus am dano, gan y gwir Barchedig yr Esgob Connop Thirwall, D. D., ac ar y gwyddfaen mae y Bedd-argraff uchod.

Os telyn ddaiarol a gafodd ef yma, 5
 Wrth farw fe gafodd nef delyn, gwiw fraint ;
 I DDUW ac i'r OEN, â bloedd HALELUIAH,
 Mae heddyw 'n cydganu âg engyl a saint. 8

BEDD-ARGRAFF HEN GYMRO HAEL,

Cyfaill tlodion ei gymmydogaeth.

OEDD i dlawd yn frawd cywir fron—iddynt
 Bu 'n noddwr mwyn tirion ;
 E ddygai iddynt ddigon
 O fwyd, wr llwyd! gwyneb llon. 4

BEDD-ARGRAFF MR. W. JONES,

Telynwr yn Llys Llanofor.

YNOM y gwnaethai ennyn,—olynol
 Lawenydd diderfyn ;
 Neud alaw mwyn ei delyn
 Oedd mawl i DDUW ; mêl i ddyn ! 4

BEDD-ARGRAFF LE GONIDEC.¹

DY enw LE GONIDEC, a daenir mwy
 Mewn mawl am danat sonir ;
 Trwy 'th waith maith, tra môr, tra thir,
 Iaith fâd dy wlad a ledir. 4

Awdur gramadeg a chyfieithydd y Testament Newydd i'r Llydaweg.

ARALL.

COLOFN LE GONIDEC a welwch !—un
 Oedd lawn o wladgarwch ;
 Athraw gwlad LLYDAW mewn llwch
 Ei fedd yma canfyddwch. 4

ARALL.

GEIRIADUR mād a Gramadeg,—a'r BIBL
 I'r bobl yn Llydaweg,
 Ydynt waith LE GONIDEC,
 A'i Gofodail, adail deg. 4

BEDD-ARGRAFF HANBURY S. HALL, YSW.¹

• MAL blodeuyn teg mewn gardd,
 “ Yn y gwanwyn oll yn hardd,”
 Ond cyn yr haf, mewn mynyd awr,
 A llaw yn cael ei dori i lawr ; 4
 Efelly HANBURY, diwrnod du,
 Gobaith ei rieni cu ;
 Yn ngwawr ei oes, gan nychdawd mawr,
 Buan torwyd yntau i lawr ; 8
 Ond angau a'i cymmerodd ef
 I'w adblanu yn y nef.

¹ Mab Syr Benjamin a'r Arglwyddes Hall, Llanofor, yr hwn a fu farw Chwefror 11, 1845, yn y 19eg flwyddyn o'i oed.

BEDD-ARGRAFF Y PARCHEDIG ENOCH THOMAS,

Periglawr Morfil, Swydd Penfro.

PEN gyrfa ddaiarawl y bugail,
 Pen gyrfa ei braidd yr un wedd,
 Gwedi gorphen eu gwaith, ac eu llafur,
 Yn gorphwys yn ngwaelawd y bedd. 4
 Ond eto nid bythawl gorweddant
 Yn ngwaelawd eu beddau, gwir yw ;
 Daw dydd yr agorir y beddau,
 A hwythau ail welir yn fyw. 8

DIWEDD PAWB.

CYFIRITHAD.

NID yw o werth yn awr i ti,
 Pa fodd y'th barchwyd yn y byd,
 Neu pwy dy deulu uchel âch,
 Neu pwy roes it' fagwraeth glŷd ; 4
 O dy gorff, yn awr nid oes
 Ond tŵr o llwch. Hyn oll y sydd
 O'th unwaith gorff. Mae oll yn llwch
 Ac mál yr wyt, pob balchddyn fydd. 8

BEDD-ARGRAFF AR UN A FU FARW YN
 DDISYFED.

AETH i'w fedd yn sydyn iawn,
 Mál dyn i'w wely dydd prydnhawn ;
 Ac yn ei wely gwaelod bedd
 Caiff gysgu 'n dawel, ac mewn hedd. 4

BEDD-ARGRAFFIADAU.

Ond gwedi hepiant ennyd awr, 5
 Cwyd yn fore, gyda 'r wawr,
 Y dydd pan ddaw y meirw 'n fyw,
 Wrth floedd a llef Arch-angel Duw. 8

BEDD-ARGRAFF.

Y MOROL ni wiw am MARI, prudd wyf,
 Y pridd sy drosti ;
 Wele 'r fan wylo 'r wyf fi,
 Ar ei hôl ddagrau heli. 4
 Pwyllaf cyn rhoi cam pellach
 O'r bedd mi glywaf air bach :
 "Bore a hwyr bydd barod
 Daw dwthwn y doi dithau i'r beddrod, 8
 Cais ffydd fywiol nefol nôd,
 Yn IESU cyn dod isod."

BEDD-ARGRAFF TAIR CHWAER.¹

YMA gorwedd tair chwiorydd
 Gyda 'u gilydd yn y bedd ;
 ANN a JANE a RUTH anwylaf,
 Tri blodenynd hardd eu gwedd. 4
 Mae 'n dor-calon i rieni
 Golli eu plant o un i un,
 Duw a'u rhoes, ac EF a'u piodd ;
 Ac EF a'u galwodd ato ei HUN. 8

¹ Merched Capt. James, Aberteifi.

BEDD-ARGRAFF JANE THOMAS,¹

Penyralt, Abergwili.

JANE yw 'r gyntaf un a gladdwyd
 Yn y fonwent, o'r oes hon,
 Os claddwyd ynddi ryw oes arall
 Bu oesoedd maith yn fonwent lon ; 4
 Heb lais galar ynddi i glywed,
 Heb un deigr ar y wedd,
 Hyd nes claddwyd JANE anwylaf
 Pan ei dodwyd yn y bedd. 8

¹ Claddwyd Jane Thomas yn monwent Llanffangel-uwch-gwili, y cyntaf un a gladdwyd yno am rai can-rifoedd yn ol tŷb y gymmydog-aeth.

EMYNAU.

BUGEILIAID BETHLEHEM.

BUGEILIAID BETHLE'M wrth eu gwaith,
Lliw nos yn llu.—
'Ngwylid eu dadellau maith .
O ddefaid gwynion gnu, 4
A welent ryw oleuni mawr,
Mwy no dysgleirdeb bore wawr,
O'r nefoedd yn pelydru i lawr
Nes troi yn olau 'r tywyll du. 8

Ar hyn hwy glywent angel Duw,
A chawsant fraw ;
Yn mwyn lefaru yn eu clyw,
Yn eglur, a gerllaw ; 12
“ Nac ofnwech fi,” atebai Ef,
“ Y bore hwn yn METHLE'M dref
Y ganwyd i chwi FRENIN nef,
Ewch ! chwi ai cewch mewn peresb
[draw.” 16

A chyda 'r angel, Wele 'n fyw
Yn entrych nef,
Angelion fyrdd yn moli Duw
Yn llon â llafar lef. 20

Testun eu cân, hyfryted yw, 21
 Sef Duw; nef; daiar; dynawl ryw:
 Cydgan eu cerdd, Bechadur! clyw;
 "Ganwyd IESU yn METHLE'M dref." 24

BETHLEHEM.

AM BETHLEHEM mae sôn
 O oes i oes o hyd,
 Am eni ynddi hi
 IACHAWDWR mawr y byd; 4
 Fe glywyd cân Angelion Nef
 Goruwch y man lle ganwyd Ef.

Er creedigaeth byd
 Ni chlywyd tebyg gân 8
 A glywyd y pryd hwn
 Gan yr Angelion glân;
 Cyfarchent Nef a dynawl ryw,
 Ar enedigaeth gwir FAB DUW. 12

DYDD NADOLIG.

DAETH Angelion in' â newydd,
 Newydd da, llawenydd mawr;
 Fod in' GEIDWAD wedi ei eni
 Er achubiaeth llwch y llawr. 4
 Oll ynghyd, o un fryd,
 Canwn fawl i BRYNWR byd.

MAWL.

O MOLWN DDUW ar ddiwedd dydd
 Am gariad, gobaith, ac am ffydd ;
 Os gwnawn yn ol ei eiriau EF,
 Ein tywys gwnaiff o'r byd i'r Nef. 4

DYDD GWENER Y CROGLITH.

GWELWCH IESU yn hoeliedig,
 Draed a dwylaw ar y grôes,
 Rhwng dau leidr yn grogedig,
 Yn dyoddef angeu loes, 4
 Pa fath olwg, &c.
 A ganfyddwch yr awrhon ?

Chwi a welwch, os edrychwch,
 Ein Mechnïydd, gwir F'AB DUW, 8
 Yn rhoi iawn dros ein pechodau ;
 Ac yn marw i'n gael byw ;
 Diolch iddo, &c.
 Byth am farw trosom ni. 12

DYDD GWENER Y CROGLITH.

Psalm xxii.

I Fy NUW, fy ngadael, Pa 'm y gwnaist,
 A mi 'n ofidus iawn !
 Yn bell oddiwrthyf sefi Di
 Nos, bore, a phrydnawn. 4

- 2 Ar hyd y dydd, cwyno yr wyf,
Ond Ti ni chlywi ddim ;
A thrwy y nos, er maint fy nghri,
Dy nodded ni ddaw im'. 5
- 7 Edrych y mae pob un a'm gwêl,
Ar fy ngofidiau hyn ;
Ysgydwant ben, gwatwarant Fi,
Gan graffu arna'i 'n syn. 8 12
- 8 Dywedant wrthyf yn eu cás,
Yn Nuw gobeithiodd Ef ;
Ond Duw i'w achub Ef ni ddaw,
Ni wrendy ar ei lef. 16
- 9 Fy lladd a wnant, a rhanant hwy
Fy nillad yn eu mŷsg ;
Bwriant goelbren i wybod pwy
A gaiff feddiannu 'm gwisg. 20

DYDD Y PASC.

BYTH fendigedig fyddo 'r dydd,
Y daeth ein HARGLWYDD IESU 'n rhydd
O afael angeu cryf a'r bedd :
Fe gafodd fuddugoliaeth lawn, 4
Cafodd Cyfiawnder hollawl Iawn,
Yn NGHRIST mae Duw a dyn mewn hedd.

DYDD Y PASC.

CODODD IESU GRIST o'r bedd, Haleluiah!
 Cadwn heddyw sanctaidd wledd; Haleluiah!
 Llawenhawn! ein cân a fydd, Haleluiah!
 "Crist o rwymau'r bedd yn rhydd." Haleluiah! 4

Cân o fawl canasom ni, Haleluiah!
 Am angeu 'r groes ar Galfari; Haleluiah!
 Heddyw canwn yn ein gwledd, Haleluiah!
 Am fuddugoliaeth ar y bedd. Haleluiah! 8

Ni allwn heddyw fod yn drist, Haleluiah!
 Adgyfododd IESU GRIST: Haleluiah!
 Uffern gwedi ei maeddu sydd, Haleluiah!
 Ac angeu wedi colli 'r dydd. Haleluiah! 12

YR EFANGYLYDD.

Mor weddaidd ar y mynyddoedd yw traed yr hwn sydd yn efangylu, yn cyhoeddi
 heddych. ESAY lii. 7.

O ARGWYDD DDUW, ein IOR, a'n nerth,
 MDR brydferth yn ein bröydd,
 Wrth gyhoeddi geiriau 'r nef,
 Yw traed yr efanglydd. 4

Cyhoeddi mae ef newydd da,
 I wneyd plant ADDA 'n ddedwydd;
 A'r hwn a greddo 'r newydd da,
 Byw fydd ef yn dragywydd. 8

ESCYNIAID CRIST.

ESCYNODD IESU CRIST i'r nef, Haleluiah !
 Ennilodd fuddugoliaeth gref; Haleluiah !
 Mae 'n HARCHOFFEIRIAD mawr yn fyw, Haleluiah !
 Yn eistedd ar ddeheulaw Duw. Haleluiah ! 4

Y PRYNWR.

O lafur ei enaid y gwel, ac y diwellir. *ESAY III. 2.*

O LAFUR ei enaid y gwel,
 Diwellir ein PRYNWR a'n BRAWD,
 Gogoniant tragwyddawl a gaiff,
 Am ddyoddef o hono 'n y cnawd; 4
 Llawenydd diderfyn a fydd,
 Gorfoledd anfeidrawl ei faint,
 Dadseinia trigfanáu y nef,
 Gan beraidd ganiadau y saint. 8

PRYNEDIGAETH.

UFYDD-DAWD IESU CRIST ein BRAWD,
 A'i ddyoddefiadau maith,
 A wnaethant in' gyfiawnder pur,
 Nefolaidd dwyfol waith. 4

Dysgleiriach noc yr haul uwch ben,
 Yn ei gyfiawnder EF,
 Y gwelir lluoedd dedwydd hardd
 O fewn i deyrnas nef. 8

YR ARCHOFFEIRIAD.

Gan fod i ni Archoffeiriad mawr, yr Hwn a seth i'r nefoedd, Iesu; Mab Duw,
glynwn wrth ein proffes. HEB. iv. 14.

MAE ini ARCHOFFEIRIAD MAWR,
Yn eiriol yn y nef;
Ateb i'n gweddiau a gawn
Trwy ei eiriolaeth Ef. 4

Mewn hyder awn at orsedd gras,
Mewn ffydd o flaen ein Duw;
A glynwn wrth ein proffes mwy,
Mae 'r IESU eto 'n fyw. 8

GWEDDI.

DYFOD atat gan gyffesu
Fy mhechodau 'r wyf, fy NUW!
Maddeu imi, er mwyn IESU,
Fy nghanweddau o bob rhyw. 4
Maddeuant, ARLWYDD,
Hyn ofynaf bellach mwy.

Mewn trugaredd, mewn tosturi,
Arnaf edrych, ARLWYDD MAWR! 8
Gwel fy ngwaeledd, clyw fy ngweddi;
Dangos im' ddaioni 'n awr:
Fy enaid wrthyt
A ddysgwylia am gael gras. 12

LLEDAENIAD YR EFENGYL.

HOLL dylwythau 'r ddaiar faith,
 O bob rhyw wlad, a phob rhyw iaith,
 A glywant bawb yn iaith ei hun,
 Am iachawdwriaeth Duw i ddyn. 4

LLEDAENIAD YR EFENGYL.

AED Efengyl trwy eithafoedd
 A phellderoedd daiar lawr,
 A'r byd fyddo, mál y nefoedd,
 Oll yn un llawenydd mawr; 4
 Doed yr Iuddew, 'r Twrc, a'r Pagan,
 IESU ! i gredu ynot TI ;
 Mál y clywir trwy 'r holl ddaiar
 Pawb â'u cân am GALFARI. 8

YR EFENGYL.

MÆ hyfryd lais efengyl fwyn
 Yn canmawl gwerth yr lawn,
 Ac yn cyhoeddi 'r newydd da,
 Bod iachawdwriaeth lawn. 4

O ! clyw, bechadur, clyw ei llais,
 Dy wahawdd mae i'r nef ;
 Trwy beri iti droi at GRIST
 A chredu ynddo EF. 8

Y BABELL BRIDD.

"I feel my earthly tabernacle getting so fragile, that I am scarcely fit for anything."—*Dyffyniad o lythgr cyfnewill.*

Fy mhabell bridd a syrth i lawr,
 I lawr i'r llwch y dysecyn hi ;
 Pa le 'r pryd hwnw, f'enaid byw !
 Pa le 'r pryd hwnw byddi di ? 4
 Pan rhoir fy nghorff yn ngwaelod bedd,
 Myfi fy hun, er hyn fydd byw :
 Fy nghorff nid yw ond pabell im',
 Myfi fy hun yr enaid yw. 8

Byd mawr tragwyddawl sydd o'm blaen,
 Gwae a dedwyddwch ynddo sydd :
 Caf ynddo fyw. Os byw mewn gwae 12
 Mòr anoddefawl fywyd fydd.
 Ond credu 'r wyf air IESU GRIST,
 Y caf ddedwyddwch trwyddo EF ;
 A byw 'n y byd tragwyddawl draw,
 O gyrhaedd gwae, yn nheyrnas nef. 16

Y BABELL BRIDD.

MALURIO i'r bedd y mae y babell bridd,
 Malurio i'r bedd, i'r bedd, o ddydd i ddydd ;
 Ond ail-gyfodir hi mewn arall wedd,
 A CHRIST yw 'r HWN a'i cyfyd hi o'r bedd. 4

GWEDDI AM ADFERIAD HEDDWCH CYD-RHWNG
CRISTIONOGION.

ARGLWYDD, adfer i ni heddwch
 Yn lle ymryson, llid a chas ;
 Boed gelynion y gwirionedd
 Gael eu darostwng gan dy ras ; 4
 Pâr fod cariad rhwng Crist'nogion,
 A brawdoldeb heb un gwg,
 Darfydded cynhen, ac ymryson,
 Dygasedd a phob bwriad drwg. 8

Mae dy air yn air o heddwch,
 Ond yn ein llaw bu 'n finiwg gledd,
 Brawd yn erbyn brawd yn ymladd,
 O ARGLWYDD DDUW adfer a hedd ; 12
 Pâr fod heddwch rhwng eglwysi,
 Pâr fod brawd yn caru ei frawd ;
 Os oes rhyfel, boed in' ymladd,
 Yn erbyn cythraul, byd a chnawd. 16

Y PECHADUR.

PAHAM bechadur, p 'am o hyd
 Ar fyw 'n annuwiol mae dy fryd ?
 Heb ofni syrthio i dy fedd,
 Cyn meddu cymmod Duw na 'i hedd. 4

Ai am ddyfyrwch gwag y byd,
 Y colli di dy enaid drud ?
 Ai gwell yw poenau uffern drist
 No chaffael rhan yn Iesu GRIST ? 8

Olyw, adyn, yr Efengyl wiw, 9
 A gwel anfeidrol gariad Duw ;
 Er maint yw 'th ofid ti a'th glwy,'
 Mae yma ddigon i ti mwy. 12

EMYN LUTHER.

Eine feste Burg ist unser Gott

CYFIEITHAD.

Ein noddfa gadarn ydyw 'n Duw
 Ac Ef yw 'n hamddiffynfa :
 Efe a'n gweryd ni bob cam,
 O'r drwg sydd am ein difa. 4
 Y gelyn hen, y sarff mewn bâr,
 Sydd i'n yn darpar galar ;
 Ei nerth sy fawr, a'i ystryw heb
 Ei ail ar wyneb daiar. 8

Pe 'n llawn y byd o'i ddeiliaid drwg
 Llawn gwŷn, a gwg, i'n cynllwyn ;
 Nid ofnem hwynt, ein gwaith a lwydd,
 Mae 'r ARGELWYDD yn ein hamŵyn, 12
 Os ef ei hun, eu llywydd ffrom,
 Annelai atom saethau :
 Niwaid ni chaem, gorchfygem ef,
 Can's gair Duw nef yw 'n cleddau. 16

Trwy 'n nerth, a'n gallu ni, a'n grym
 Ni lwyddem ddim i'w erbyn ;
 Mae UN a ymladd dros y gwàn
 Pwy yw EFE ? a'n diffyn ; 20

Sef IESU GRIST ; ac EF yw 'n PEN, 21
 Ein CADPEN, ac ein HARGLWYDD :
 Ennill y maes ; a'i nawdd i'r gwàn
 Fydd darian rhag pob aflwydd. 24

Gair Duw a saif, hwy welant hyn,
 Er maint yw eu cynddaredd,
 Mae genym Hwn, a'i gysur Ef
 Yw 'n tangnef a'n gorfoledd. 28
 Cymmerent 'n cyrff, a'n gwragedd glan
 Ein plant a'n tiroedd hefyd,
 Ni fyddant gwell, cawn eto fyw
 Yn nherynas Duw mewn eilfyd. 32

MAWL I DDUW.

Clod a mawl i'r ARLWYDD DDUW, Haleluiah !
 Am fendithion o bob rhyw ; Haleluiah !
 Ond yn benaf moler Ef, Haleluiah !
 Am foddion gras, a gobaith nef. Haleluiah ! 4

Clod a mawl o hyd, o hyd, Haleluiah !
 I WAREDWR mawr y byd ; Haleluiah !
 Cyfaill pechaduriaid yw, Haleluiah !
 Canwn iddo tra fo 'm byw. Haleluiah ! 8

Unwn oll mewn nefawl gân, Haleluiah !
 I'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan : Haleluiah !
 Tri yn Un, ac Un yn Dri, Haleluiah !
 Iachawdwriaeth i'n Duw ni. Haleluiah ! 12

DAIONI DUW.

Nid yw 'r mor, a'i lawnder mawr,
 Ond fal dyferyn,
 Wrth fôr maith daioni Duw ;
 Môr maith diderfyn ! 4
 Yn dylifaw i lawr i'r byd,
 O'r nef i ddynion ;
 Minnau o hono 'n yfed sydd
 O hyd yn gysson. 8

Y DUWDOD.

"Yr yntyd a ddywedodd yn ei galon, Nid oes un DUW." PSALM xiv. 1.
 "Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffrfafen sydd yn mynegi gwaith
 ei ddwyllaw Ew." PSALM xix. 1.

MAE 'r holl gre'digaeth faith
 Yn dangaws in' fod Duw,
 A dywed yn ei hiaith,
 Mai HOLLALLUAWG yw : 4
 Y byd, yr haul, y lloer a'r ser,
 Ei waith ef ýnt, TRAGWYDDAWL NER !

Nis gellir gwadu Duw,
 Annuwiawl fyddai 'r iaith, 8
 I bawb mdr amlwg yw,
 Ond edrych ar ei waith :
 Mae Duw ! mae Duw ! un Duw byw sydd
 Medd myrdd o fydoedd nos a dydd. 12

PLANT YR YSGOL.

CRIST a gâr â'r cariad puraf, <i>Câr cywir yw,</i>	
Uwchlaw brawd a'r chwaer anwylaf, <i>Câr cywir yw.</i>	4
Cyfaill yw mewn cyfyngderau, Cyfaill yw yn caru maddeu, Gyda'g Ef nid ofnaf angau. <i>Câr cywir yw.</i>	8
Cyfaill yw i bechaduriaid, <i>Câr cywir yw,</i>	
Ef yw gwrthrych hoff fy enaid, <i>Câr cywir yw,</i>	12
Gall cyfeillion byd gyfnewid, Gan roi imi boen a gofid ; Mae IESU GRIST yn ddigyfnewid. <i>Câr cywir yw.</i>	16

LLEDAENIAD YR EFENGYL.

CYFIEITHAD.

"From Greenland's icy mountains,"

HARR.

O YNYS IA fynyddig, O'r INDIA, gwrel wlad, Lle tawl ffynonau AFFRIG Eu tywawd aur yn rhad ;	4
--	---

O finion hen afonydd,	5
O ddolydd palmwydd fr,	
Y gelwir arnom beunydd	
I ddwyn eu gwlad i'r gwir.	8
Pwy dda os per awelon	
Dros CEYLON 'chwaif yn hael,	
Pa les olygfa dirion,	
Tra dyn ei hun yn wael !	12
Heb les er mewn tyneri,	
Rhoir rhoddion nef ar daen,	
Tra 'r Pagan, yn ei ddellni,	
Yn crymmu i bren a maen.	16
A allwn ni a brofodd	
Ddoethineb Duw nacâu	
I dywyll rai o'n gwirfodd	
Roi lamp i'w goleuhâu ?	20
Iechineb ! pawb cyhoedded,	
Cyhoedder fore a hwyr,	
Nes i bob cenedl glywed	
Am y MESSIAH yn llwyr.	24
Dos wynt ! â'r newydd allan,	
Chwi ddyfroedd yr un pryd,	
Nes fâl môr harddwych llydan	
Y töa wyneb byd ;	28
Nes tros hil ADDA ddedwydd	
Yr OEN, er marwawl glwy',	
Yn FRENIN, CREWR, GWR'EDYDD,	
Mewn hedd deyrnasa mwy.	32

YR EMYN

A ddarlênir, neu a genir, yn nghorff y gwasanaeth o urddaw Gweinidogion yn ol trefn Egiwys Loegr.

"Come Holy Ghost our souls inspire,
And lighten with celestial fire."

CYFIEITHAD.

TYRED i'n plith, O YSBRYD GLAN !
Goleua ni â'th nefawl dân.
 Enneiniawg YSBRYD ydwyf ti,
Saith barth o'th radau rho i ni : 4
 Dy wiw enneiniad, nefawl ddawn,
Sydd gysur, bywyd, cariad llawn.
 Symuda hwnt, o ddydd i ddydd
Y dellni dros ein llygaid sydd : 8
 Par di lawenydd yn ein gwedd
Trwy roi i'n ras a nefawl hedd :
 Elynion rif, O ! cadw draw :
Diogel fyddwn yn dy law. 12
 Dysg in' adnabod yn gyttun,
Tad, Mab, ac Ysbryd Glan, Tri yn Un ;
 Mâl yn oes oesoedd, yn ddidawl,
Y byddo hyn ein cân, a'n mawl, 16
 Mawl iti byth, i Ti bo 'n cân,
 Y TAD, y MAB, a'r YSBRYD GLAN.

ANGEU A THRAGWYDDOLDEB.

MÆ fy nyddiau bron a darfod ;
 Mæ fy oriau bron ar ben ;
 Mæ y goeden gwedi ei thori
 A fydd i mi yn arch o bren : 4

- Yn y bedd, yn nghrombil daiar, 5
 Rhoir fy nghorff yn salw ei wedd,
 Ond pa le y bydd fy enaid,
 Ni fydd hwnw yn y bedd. 8
- O fy enaid, Pa le byddi ?
 Ai yn uffern, ai yn nef,
 Pan fo 'r corff â phob rhyw bryfed,
 Yn ymborthi arno ef ? 12
- Wrth ofyn hyn yr wyf yn crynu
 Yn fy enaid, yn fy nghnawd ;
 Ni allaf fi, os medr ereill
 Droï 'r gofyniad hyn yn wawd. 16
- Credu yr wyf bod nef ac uffern
 A bod o'm blaen dragwyddawl fyd,
 Lle y byddaf mewn dedwyddwch,
 Neu mewn trueni bythawl hyd ; 20
- A chredu 'r wyf y bydd fy enaid,
 Er y bedd a'r pryfed mân,
 Ail gartrefu 'm corff mewn gwynfyd
 Neu mewn gwae yn uffern dân. 24
- Gan fy mod fel hyn yn credu,
 Credu ar sail efengyl CRIST :
 Na ryfedded dynion digred
 Bod fy meddwl weithiau 'n drist. 28
- Chwilio 'r ydwyf, holi 'n fanawl,
 Chwilio, holi, nos a dydd,
 Gan fod angeu a thragwyddoldeb,
 Ai mewn gwynfyd f' enaid fydd ? 32

AMSER.

AMSER, amser, sydd yn hedeg,
 Minnau 'n myned gyd âg ef ;
 I wlad bell yr wyf yn teithiaw,
 Enw hon yw Teyrnas Nef, 4
 YSBRYD SANCTAIDD,
 Arwain i fi ben fy nhaith.

AMSER, amser, O mdr gyflym,
 A diorphwys ar ei daith ; 8
 Fy rhybyddiaw mae ef beunydd
 Nad yw 'm gyrfa yma 'n faith ;
 Ond tragwyddawl,
 Fydd yr yrfa sydd o'm blaen. 12

ANGEU.

ANGEU ! angeu ! pan ddaw ataf,
 Rhag ei gledd ni allaf ffoi ;
 A'r bedd a'm derbyn yn ei fonwes,
 Buan caiff ei barotdi. 4
 Edifeirwech dod im', ARGLWYDD !
 A maddeuant, a dy hedd,
 Cyn yr hunwyf yn yr angeu,
 Cyn gorweddwyf yn y bedd. 8

ANGEU ! ANGEU ! pan lefara,
 Rhaid ymostwng iddo ef ;
 Brenin dychryniadau ydyw,
 Dan awdurdod BRENIN nef. 12

Gelyn marwol i'r annuwiol, 13
 Ond i'r sant ei gyfaill yw ;
 Yn lle niweid, bydd i angeu
 Wneyd daioni i blant Duw. 16

DYDD Y FARN FAWR.

Dydd barn fydd hwnw, pan fo 'r tân
 Yn llosgi 'r byd yn llwyr-;
 A'r holl elfenau gan wir wres,
 Yn toddi megys cŵyr, 4
 Ofnadwy ddydd ! dydd dychryn braw,
 Dydd mawr digofaint Duw ;
 Dydd fydd i FARNWR mawr y byd
 Farnu 'r meirw a'r byw. 8

Llais udgorn Duw, mewn nerthawl floedd,
 A draidd trwy 'r beddau oll ;
 Cyfyd y meirw, pawb yn fyw ;
 Pob un, heb un ar goll. 12
 Ac angeu 'n syn yn sefyll fydd,
 Pan wêl ei feirw yn fyw,
 Yn cael eu cludaw o bob cwr
 Ger bron gorseddfainc Duw. 16

A'r holl genhedloedd o bob oes,
 O bob rhyw lwyth, ac iaith,
 A fernir gan gyfiawnder pur,
 Pob un yn ol ei waith. 20

EMYNAU.

253

Gwybodus fydd i'r BARNWR mawr	21
Pawb oll ; pob drwg ; pob da ;	
CYFIAWN ac HOLLWYBODAWL yw,	
Cyfiawnder EF a wna.	24

Y WLAD BELL.

"Cysgodd Tegid wrth y tân nos Lun,¹ Mawrth 29, 1852, ac a freuddwydiodd ei fod yn myned allan o'i wlad i'r Amerig ; ac yn ei freuddwyd y canodd y pennill isod. Ac yn y fan ar ol gwneuthur y pennill, deffraw a wnaeth ; a chyn anghofiaid o hono y pennill, ysgrifennodd ef i lawr."

DEUWCH yma, fy nghyfeillion,	
Nid oes genyf gynghor gwell,	
I roi i chwi wrth ymadael	
Wrth ymadael i wlad bell ;	4
"Ciliwch bawb oddiwrth ddrygioni,	
Na wnewch ddrwg tra byddoch byw ;	
Ymarferwch â duwioldeb,	
Ac ufyddhewch i ddeddfau Duw."	8

¹ Pum wythnos namyn diwrnod cyn ei farwolaeth.

SUBSCRIBERS' NAMES.

HIS HIGHNESS PRINCE LOUIS LUCIEN BONAPARTE
 The Right Hon. The Earl of Cawdor
 The Right Hon. Lord Dynevor £1
 The Right Hon. Viscount Emlyn
 The Right Hon. Lord Llanover
 The Right Hon. Lady Llanover
 The Right Rev. The Lord Bishop of St. David's 2 Copies
 The Right Rev. The Lord Bishop of St. Asaph £2
 The Right Rev. The Lord Bishop of Llandaff
 The Right Rev. The Lord Bishop of Bangor, (deceased)
 The Lady Charlotte E. Schreiber
 Rev. Sir Erasmus H. G. Williams, Bart., Chancellor of St. David's
 T. Peers Williams, Esq. M.P. Craigydun, Bangor
 Sir Robert Williams Vaughan, Bart., Rûg, Corwen, (deceased) 2 Copies
 Major General Morgan, St. Helen's, Swansea
 General Lord George Paget
 David Jones, Esq. M.P., Pantglas, Carmarthenshire
 Davies, D. A. Saunders, Esq. M.P., (deceased)
 Sir W. Williams Wynn, Bart., M.P.
 Morris, David, Esq. M.P., Carmarthen
 Booker, T. W. Esq. M.P., Velindre, (deceased)
 The Very Rev. The Dean of St. David's 2 Copies
 The Ven. Arch. Newcombe, Llanrhaidr Vicarage, Denbigh, (deceased)
 The Rev. Chancellor Williams, Bassaleg Vicarage, Newport, Mon.
 Bedlington, Mr. Richard, Rhymney Iron Works
 Bowen Mr. Benjamin, Barrossa Cottage, Cardiff
 Bowen, Mr. David, (*Dafydd ab Owen*,) Llanelly
 Bowen, Mr. H. P., Queen's Terrace, Middlesborough, Yorkshire
 Brereton, Mr. Andrew Jones, (*Andreas o Fôn*,) Mold
 Briscoe, Rev. T., B.D., Vicar of Holyhead 2 Copies
 Caradawc, Abergavenny
 Clarke, Mr. Isaac, Ruthin
 Charles, Rev. D., B.A., Trevecca College

- Cymrodon Society The, Merthyr Tydvil
 Davies, David, Esq. Castle Green Cardigan
 Davies, Mr. David, Abercorris, Machynlleth
 Davies, Mr. David, Victualler, 29, Union Street, Liverpool
 Davies, Mr. David, Cooper, Talog, Carmarthen
 Davies, Mr. David, Fishguard and Cardigan Bay, Cardiff 2 Copies
 Davies, Mr. Henry, (*Talldifyr*,) Tanyrhiw, Llanegwad
 Davies, Mr. Isaac, Penlan, Tregaron
 Davies, Rev. Henry H., Llangoed, Beaumaris 2 Copies
 Davies, Rev. John, Roman Catholic Church, Brecon
 Davies, Rev. J., Independent Minister, Aberaman
 Davies, Mr. John, Ystalyfera, Swansea
 Davies, Rev. J. G., Llangyfelach, Swansea
 Davies, J. Lloyd, Esq., Blaendyffryn
 Davies, J. John, Esq. Surgeon, Eglwyswrw
 Davies, Mr. Owen, (*Eos Llechid*,) Llanllechid, Bangor
 Davies, Rev. Thomas, M.A., Treberfedd, Lampeter
 Davies, Rev. Thomas, M.A., Trevethin Parsonage
 Davies, Mr. Thomas, Henllan, Newcastle Emlyn
 Davies, Mr. T. Jones, Chemist, Llandilo
 Davies, Rev. W., Ph.D., Presbyterian College, Carmarthen
 Davies, Mrs. Vronheulog, Bala 2 Copies
 Davies, Miss, Brynhwyfryd, Towyn
 Davis, Frederick, Esq. Ty'nrhos, Gentleman Farmer
 Davis, Rev. John, B.D., Llanhowell, Pembrokshire
 Dewi Wyn o Eryllt, Dinas Powis, Cardiff
 Ebbw Vale, Literary and Scientific Institution
 Edmond, Mrs. Union Street, Carmarthen
 Edmund, Rev. W., Grammar School, Lampeter
 Edwards, T., Esq. (*Carnfaldwyn*) St. David's College, Lampeter
 Edwards, Mr. Thomas, Glynneath
 Evans, Rev. D., Vicar of Aberavon
 Evans, D., Esq. New Quay, Cardigan 2 Copies
 Evans, Rev. R. Cilgeran, Cardigan
 Evans, Mr. David Meredyth, Waterloo House, King's Cross, London
 Evans, Rev. Daniel Silvan, Llangian, Pwllheli
 Evans, Rev. Edward, B.A., Vicar of Llanasa
 Evans, Rev. Edward, Halkyn Rectory, Holywell 2 Copies
 Evans, Mr. John, (*Ieuan Powys*,) Farnly Street, Liverpool
 Evans, Mr. J., at the Rev. J. Evans, Cemmaes
 Evans, Mr. J., Penywig, New Quay, Cardigan 2 Copies
 Evans, Rev. James, Curate, Llandrillo, Corwen
 Evans, Rev. J., Capel Sion, near Llanon
 Evans, Rev. R., Vicar of Margam
 Evans, Rev. J. Higgon, B.D. Vicar of Merriot, Somersetshire
 Evans, Mr. Thomas P., (*Mabon*,) Ystrad Shop, near Caerphilly
 Evans, Mr. W., Neuadd, New Quay, Cardigan
 Evans, William, Esq. Plymouth Iron Works 2 Copies

Evans, William, Esq. Alltycadno, Llangyndeyrn
 Eyton, J. W. K., Esq. F.S.A., 10 Portsdown Road, Maida Hill, London
 Fenton, John, Esq. Glynymél, Fishguard
 Francis, George Grant, Esq. F.S.A., Cae Bailey, Swansea
 Francis, Mr. Priory Street, Carmarthen
 Ffoulkes, Miss, Ffynon Ddofn, Nevern 2 Copies
 Gilbertson, Isaac, Esq. Bala
 Griffith, Rev. J., Curate of Llanon
 Griffiths, Rev. Arthur, Llanelly Parsonage, Abergavenny
 Griffiths, Mr. James, Baileyglás
 Griffiths, Rev. James, Vicar of Llangunnon
 Griffiths, Rev. John, B.D., Llandilo
 Griffiths, Rev. John, Salem, Llandoverly
 Griffiths, Rev. T., M.A. Llanfawr Vicarage, Corwen
 Griffiths, John, Esq. 110, Buckingham Terrace, Liverpool
 Griffiths, Mr. John, Caenant, Llanrug
 Griffiths, Mr. Thomas, Attorney's Clerk, Aberystwyth
 Griffiths, Rev. Walter, B.D., Resolven, Neath
 Griffiths, Mr. W., Gwendraeth Cottage, Pontyberem
 Griffiths, Mr. Brecon Road, Abergavenny
 Gwyndaf Hen, Llanymowddwy
 Gwynne, Rev. E. H. A., St. Paul's, Tipton, Staffordshire
 Harries, Rev. G. C. F., M.A., Rector of Llandefaelog Vach, Brecon
 Harries, Mr. Joseph, Werndew, Dinas Cross, Pembrokeshire
 Harries, Rev. W., Vicar of Llanarthney
 Harries, Rev. W., Curate of Penboyr
 Heaton, Rev. W. C., B.D., Fellow of Jesus College, Oxford
 Herbert, Rev. Watkin, Llanycrwys
 Hopkins, — Esq. M.D. Goytre, Wern, Carmarthen
 Howel, Mr. Rhys, (*R. H. Dyfed*), Llanddewi-Velfrey 2 Copies
 Howell, Rev. George, Llangattock Rectory
 Howell, Thomas, Esq. White House, Builth
 Howell, Mr. W., (*Gwilym Ddu*), 16 Skinner's Street, Newport, Mon.
 Hughes, Rev. Hugh, (*Hugh Derfel*), Pendinas, Llandegai
 Hughes, Rev. Morgan, Vicar of Corwen
 Hughes, Rev. Isaac, P. Curate, Mynyddislwyn
 Hughes, James, Esq. Glanrheidol, Aberystwyth
 Hughes, Rev. John, Vicar of Penbryn, Newcastle Emlyn
 Hughes, Rev. Joseph, (*Carn Inglis*), Meltham
 Hughes, Rev. J., R.D., Vicar of Llandoverly
 Hughes, Rev. J., Curate, Velinfoel, Llanelly
 Hughes, Rev. J., Vicar of Tregaron
 Hughes, John, Esq. (*Ieuan Alaw*), Llanerchymedd, Anglesey
 Hughes, Mr. Thomas, Neuaddfawr, Llanwne
 Hughes, Rev. Thomas J., M.A., Northop, Flint
 Hughes, Timothy D., Esq. High Street, Neath
 Hughes, Rev. R. O., Curate of Llanrhaiadr, Denbigh
 Hughes, Mr. R. P., (*Gomer ab Tegid*), Llanfynydd

Hughes & Son, Messrs. R., Booksellers, Wrexham	
Hughes, Mr. W. M., (<i>Gwawdrydd</i> ,) High Street, Bangor	
Hunt, Mr. John, Manufacturer, Pontnewynydd, Pontypool	
James, Rev. D. Ll., Incumbent of Pont Robert	
James, Rev. D. O., M.A., Rector of Llanllawer, Fishguard	
James, Rev. James, (<i>Iago Emlyn</i> ,) 14, Frederick Place, Clifton	
James, Mr. John, District Surveyor, Parklylyn, Fishguard	
James, Rev. T. Evan, Neath	
Jenkins, Rev. Canon, Dowlais Rectory	
Jenkins, Mr. Joseph, Trecefel, Tregaron	
Jenkins, Rev. R. T., Vicar of Mydrim, St. Clears	
Jenkins, R. D., Esq. Pantirion, Cardigan	
Johnes, A. J., Esq. Garthmyl, Shrewsbury	
Johnes, John, Esq. Dolaucothy, Carmarthenshire	
Jones, Mr. Albion House, Carmarthen	
Jones, Mr. Aneurin, Newport, Monmouthshire	
Jones, B., Esq. Goring Place, Llanelly	
Jones, Mr. B., Whitland	
Jones, C., Esq. Ty'ncoed Arthog, Barmouth	
Jones, Rev. Daniel, Vicar of Llandefeiliog	
Jones, David, Esq. 21, Eastcheap, London	
Jones, Rev. D., B.A., Rector of Kilybeyll, Neath	2 Copies
Jones, Mr. David, near Ysptyt Ystwyth, Aberystwyth	
Jones, Mr. D. H., Waunwen, Swansea	
Jones, Mrs. D. L., Union Street, Carmarthen	
Jones, Mr. D. W., Post Office, Llandilo	3 Copies
Jones, Ellis, Esq. Surgeon, 30, Gildart Street, Liverpool	
Jones, Rev. Evan, Curate of Llandyssil	
Jones, Mr. Evan, 124, Aldersgate Street, London	
Jones, Mr. Evan, Draper, Carmarthen	
Jones, Mr. Evan, Merthyr Tydvil	
Jones, Mr. Hugh, 33, Prussia Street, Liverpool	
Jones, Rev. J., Vicar of Pembrey, Llanelly	
Jones, Rev. John, Vicar of Llanfihangel Geneu'r Glyn	
Jones, Rev. John, B.A., Hermon, Llandilo	
Jones, Mr. J., 30, Edward Street, Blackfriars, London	
Jones, John, Esq. Gwyndy, Llanfaircaereinion	
Jones, Rev. J., Curate of St. Michael's, Blaina, Monmouthshire	
Jones, Rev. J., (<i>Idrisyn</i> ,) Llandyssiliogogo	
Jones, Mr. John, Tailor, near Pentre Estyll, Swansea	
Jones, Mr. John, Aberdare	
Jones, J. Lewis, Esq. Pontardawe	
Jones, J., Esq. Surveyor of Taxes, Carnarvon	
Jones, J. Jacob, Esq. Llangenech	2 Copies
Jones, Rev. J. L.	
Jones, Lewis D., Esq. Carmarthen	
Jones, Mrs. Mary, Court, Aberystwyth	
Jones, Rev. Michael, Bala	3 Copies

Jones, Rev. Rees, Incumbent of Penmaen, Newport Monmouthshire
 Jones, Mr. Richard, Dowlais
 Jones, Mr. Richard, Cwrtnewydd, Llandysiliogogo
 Jones, Rev. Robert, M.A., All Saints Parsonage, Rotherhithe
 Jones, Mr. Robert, Bookseller, Bethesda
 Jones, Rev. R. Bowen, Rector of Kilmaenllwyd
 Jones, Rev. T., M.A., Sporie, Norfolk
 Jones, Thomas, Esq. Penisa'rllan, Bala
 Jones, Thomas, Esq. Peake's Lane, Denbigh
 Jones, Mr. Samuel, Saddler, Newcastle Emlyn
 Jones, Rev. W., Incumbent of Brymbo, Wrexham
 Jones, Mr. W., 4, Victoria Road, Ebbw Vale, Newport, Mon.
 Jones, Mr. Walter R., Draper, Rhayader
 Jones, Miss, Nantremenyn, Llandysil
 Joseph, Joseph, Esq. F.S.A., Brecon
 Lewes, William Price, Esq. Llyannewydd, Newcastle Emlyn
 Lewis, John, Esq. Lammas Street, Carmarthen
 Lewis, Mr. John, (*Ioan Mynyw*.) Tregaron 3 Copies
 Lewis, D. S., Esq. Victoria Iron Works, Newport, Monmouthshire
 Lewis, Mr. Thomas, Mariner, Strand, Cardigan
 Lewis, Titus, Esq. (*Titus Ieuangc*.) Carmarthen
 Lewis, Rev. W. H., Curate of Blaia, Tredegar
 Lewis, Mr. William R., Sirhowy Iron Works
 Llewellyn, William, Esq. F.G.S. &c., Glanwern, Pontypool
 Llewelyn, Mrs. Penderel, Llangynwyd Vicarage, Bridgend
 Lloyd, Rev. J., Curate of Narberth
 Lloyd, William Samuel, Esq. Tŷllwyd, Haverfordwest
 Maddox, Charles, Esq. Abergwili
 Maddox, Mrs. Lammas Street, Carmarthen
 Mathews, Mr. Jenkin, Cashier, Rhymney Iron Works
 Meredith, Mr. John, Merthyr Tydvil
 Meredith, Rev. W., Rector of Llanfigan, Brecon
 Morgan, Rev. D., Minor Canon of Llandaff
 Morgan, Mr. David, The Mill, Tregaron
 Morgan, Rev. J., Pontnewydd Parsonage, Pontypool
 Morgan, Mr. John, Schoolmaster, Newport, Pembrokeshire
 Morgan, Rev. Lewis, B.D., Vicar of Llandybie
 Morgan, Rev. Thomas, Llangennech
 Morris, Rev. E., R.D., Llanelly
 Morris, Lewis, Esq. Mountpleasant, Carmarthen 2 Copies
 Morris, T. C., Esq. Bryn Myrddin, Carmarthen
 Morris, W., Esq. Carmarthen
 Morris, Mr., Coach Office, Carmarthen
 Mounsey, Capt. W. H., Cavendish Terrace, Stanivir, Carlisle
 Nicholas, Thomas Mr. Arthur, Merchant, Fishguard
 Oldfield, Thomas, Esq. Farm, near Abergele
 Owen, Mr. David, (*Brutus*.) Bronarthen
 Owen, Rev. John, M.A., Thrussington, Loughborough

Owen, Thomas, Esq. Plas Penmynydd, Anglesey
 Owen, William, Esq. Tanygirt, Denbigh, (deceased)
 Owen, Rev. W. Hicks, M.A., Vicar of St. Asaph
 Parry, Rev. D., R.D., Vicar of Llywel
 Parry, Mr. David, Gilfach, Llangeler
 Parry, Rev. Henry, Bylchau, Henllan, Denbigh
 Parry, Mr. Richard, (*Myfyr Môn*,) 66, Islington, Liverpool
 Phillips, Mr. Daniel, Aberbank, Capel Drindod, Cardigan
 Phillips, Rev. E. Owen, M.A., Warden, Welsh Institution, Llandoverly
 Phillipps, F. Ll., Esq. Havodneddyn, Carmarthen
 Phillips, Rev. Thomas, Hereford
 Phillips, Mr. Thomas, Ebbw Vale
 Poole, Rev. W. J., Aberffraw Rectory, Anglesey
 Price, Thomas Gwallter, Esq. (*Cubelyn*,) Bristol
 Price, Rev. T., M.A., Llanuwchllyn, Corwen
 Price, William, Esq. Llanfoist, Abergavenny
 Price, W., Esq. Glantwrch, Swansea Valley
 Price, William, Esq. Caegaeŷr, Pontypridd
 Prichard, Mr. William, Rhymney Iron Works
 Protheroe, Mrs., Dolewylm, St. Clears
 Prosser, Mr. Rhymney Iron Works
 Pugh, Rev. E., B.D., Vicar of Llanfaircaereinion
 Pugh, Rev. J., Curate of Llanbadarnfawr
 Pugh, Mr. J., Tyddyn'r Eglwys, Talsarnau, Llanfihangel
 Pugh, Rev. John, Vicar of Llangorse, Brecon
 Pugh, Mr. John, 72, Tithebarn Street, Liverpool 2 Copies
 Quaritch, Mr. Bernard, 16, Castle Street, Leicester Square, London
 Raymond, Rev. J., B.A., Ebbw Vale, Newport, Monmouthshire
 Reece, W. H., Esq. Solicitor, Birmingham
 Rees, Mr. Robert, 6 & 7, High Street, Rhyl
 Rees, Mr. William, Publisher, Tonn, Llandoverly
 Rees, Mr. W. Jenkin, Tonn, Llandoverly
 Rees, Theophilus, Esq. Cwm, Carmarthen
 Reynolds, Mr. Jonathan, (*Nathan Dyfed*,) Merthyr Tydvil
 Richards, E. L., Esq. Pentreflynon House, Holywell
 Richards, J., Esq. (*Iocyn Ddu*,) Bronmenai, Carnarvon
 Richards, Mr. John, (*Ioan Glan Towy*,) Wernddu, Llanegwad
 Roberts, Rev. Aaron, B.A., Curate of St. Peters, Carmarthen
 Roberts, D., Esq. Rhymney Iron Works 2 Copies
 Roberts, Mr. Robert, (*Lineas Tegid*,) Army Butcher, Bala 2 Copies
 Roberts, Mr. J., 101, Parliament Street, Liverpool
 Roberts, Rev. William, Blaenau Gwent
 Roderic, Mr. David Jones, Bookseller, Llandoverly
 Rogers, E., Esq. Abercarn, Newport, Monmouthshire
 Rogers, Miss, Carmarthen
 Rosser, Mr. William, Glynneath
 Rowland, Rev. D. L., (*Ithor Har*,) Pembrey, Llanelly
 Rowland, Rev. Thomas, Penybont Fawr, Gswestry

Rowland, Rev. W., Wesleyan Minister, 47, Park Row, Tredegar
 Salisbury, Rev. E. E. B., Thundersley Rectory, Rayleigh, Essex
 Salisbury, E. G., Esq. 5, Stanley Place, Chester
 Saunders, Thomas Rees, Esq. Perthyerllan, Lampeter
 Saunders, The Misses, Glanrhydwl 3 Copies
 Sinnett, Rev. J., Bangor Rectory, Llangeler
 Spurrell, Mr. W., Publisher, Carmarthen
 Stephens, Thomas, Esq. Merthyr Tydvil
 Talariant, Carmarthen College
 Tate, A. T., Esq. Llanelly
 Thomas, Mrs. Alfred, Wellfield, Carmarthen
 Thomas, Rev. D., Rectory, Llandawcke, Laugharne
 Thomas, Mr. D., 36, Plumbe Street, Liverpool
 Thomas, Mr. Evan, Wine Merchant, Beaumaris
 Thomas, Mr. Ellis, Talbot Hotel, Tregaron
 Thomas, G., Esq. Parke, Henllan Amgoed, Whitland
 Thomas, Mr. J., Moulder, Dowlais
 Thomas, Mr. J., Weigher, Dowlais
 Thomas, John, Esq. Tyssil Castle, Llandyssil
 Thomas, Mr. John, Post Office, Glynneath
 Thomas, Mr. John, Clydach, Abergavenny
 Thomas, Mr. J. D., Merthyr Tydvil
 Thomas, Rev. Ll. Lloyd, R.D., Rector of Newport, Pembrokeshire
 Thomas, Rev. R., M.A., Beaumaris
 Thomas, Mr. Rees, Dolellam, Llandyssil
 Thomas, R. Goring, Esq. Isoed
 Thomas, R. Goring, Jun., Esq. Iacoed
 Thomas, Rev. T., M.A., Welsh Institution, Llandovery
 Thomas, Mr. Thomas, Merthyr Tydvil
 Thomas, Rev. T. P. C., Llanllwch
 Thomas, Mr. S., Hurst House, Laugharne
 Thomas, Rev. Thomas, Incumbent of Talley
 Thomas, Rev. W., Bwlchnewydd, Carmarthen
 Thomas, Mr. W., Bootmaker, Mill Lane, Llanelly
 Thomas, W. G. Stedman, Esq. Oak House, Carmarthen
 Traherne, Rev. J. M., F.R.S., Coedriglan, Cardiff
 Walter, Professor, University of Bonn
 Walker, Rev. W. Lewis, Trefriw Rectory, Conway
 Walters, Rev. T., Curate of Llangan, Whitland
 Walters, Mr. Walter, Blaenywaun, Ystrad, Lampeter
 Watkins, Mr. T. E., (*Eiddil Ifor*), Cwmcelyn Iron Works
 Watson, Mr. R., Secretary Cym. Tir Iarll, Pyle
 White, Mrs. Bookseller, Merthyr Tydvil
 Williams, Rev. D., B.D., Pontarddulais, Llanelly
 Williams, Rev. D., St. David's College, Lampeter
 Williams, Mr. D., Merthyr Tydvil
 Williams, Mr. D. B., (*Gwilym Esgynllaw*), Bronllys
 Williams, H., Esq. Pantycelyn Aberdare

Williams, Rev. J., M.A., Marcross Rectory, Bridgend
 Williams, Rev. J., B.A., Vicar of Hope, Mold
 Williams ab Ithel, Rev. J., M.A., Llanymowddwy
 Williams, Hugh, Esq. St. Clears 2 Copies
 Williams, Howell, Esq. Pantygerdinen, Aberdare
 Williams, Mr. Phillip, Publisher, Aberystwyth
 Williams, Rev. T., Llangwm Rectory, Corwen
 Williams, Rev. R., B.D.
 Williams, Rev. R., B.A., Magdalen Hall, Oxford
 Williams, Mr. R., Merthyr Tydvil
 Williams, Rev. Robert, M.A., Vicar, Clynog, Carnarvonshire
 Williams, Rev. Robert, M.A., Rhydycroesau, Oswestry
 Williams, Mr. Rowland, Dinorwig House, Llanberis
 Williams, Rev. W., M.A., Vicar of Llanrhaiadr yn Mochnant
 Williams, Mr. William, (*Gwilym ab Rhys*), Llanspyddid, Brecon
 Williams, Rev. W., Rector of Llandyfnan, Tyddyn Pentraeth, Anglesey
 Williams, Rev. W. J., M.A., Glamorgan St., Brecon
 Winwood, Mrs. Cheltenham 2 Copies
 Yorath, Mr. R. J., Cardiff

